



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings

Dydd Mawrth, 20 Mawrth 2012
Tuesday, 20 March 2012

Cynnwys
Contents

3	Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro Election of Temporary Deputy Presiding Officer
3	Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister
34	Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement
36	Datganiad: Rhaglen Dileu Twbercwlosis Buchol yng Nghymru Statement: A Programme for Eradicating Bovine Tuberculosis in Wales
57	Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Awdurdodaeth Tribiwnlysoedd Eiddo Preswyl) (Cymru) 2012 The Mobile Homes Act 1983 (Jurisdiction of Residential Property Tribunals) (Wales) Order 2012
60	Adroddiad Blynyddol 2010-11 Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) The Annual Report for 2010-11 of Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales (Estyn)
86	Agenda Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwyddoniaeth ac Arloesi— 'Gwyddoniaeth Cymru' The Welsh Government's Strategic Agenda for Science and Innovation—'Science for Wales'
119	Cyfnod Pleidleisio Voting Time

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the
Chair.*

The Deputy Presiding Officer: Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order. **Y Dirprwy Lywydd:** Prynawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro Election of Temporary Deputy Presiding Officer

The Deputy Presiding Officer: In the absence of the Presiding Officer, I ask the Assembly to elect a temporary Deputy Presiding Officer for the duration of today's Plenary meeting. I therefore invite nominations. **Y Dirprwy Lywydd:** Yn absenoldeb y Llywydd, gofynnaf i'r Cynulliad ethol Dirprwy Lywydd dros dro ar gyfer Cyfarfod Llawn heddiw. Felly, rwyf yn gwahodd enwebiadau.

Peter Black: I nominate Rhodri Glyn Thomas. **Peter Black:** Rwy'n enwebu Rhodri Glyn Thomas.

The Deputy Presiding Officer: Given that there are no other nominations, I declare that Rhodri Glyn Thomas is elected as temporary Deputy Presiding Officer for the duration of today's Plenary meeting. **Y Dirprwy Lywydd:** Gan nad oes unrhyw enwebiadau eraill, rwy'n datgan bod Rhodri Glyn Thomas wedi'i ethol yn Ddirprwy Lywydd dros dro ar gyfer Cyfarfod Llawn heddiw.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Y Dirprwy Lywydd: Tynnwyd cwestiwn 1, OAQ(4)0428(FM), yn ôl. **The Deputy Presiding Officer:** Question 1, OAQ(4)0428(FM), is withdrawn.

Blaenoriaethau

Priorities

2. Byron Davies: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Gorllewin De Cymru. OAQ(4)0425(FM)*

2. Byron Davies: *Will the First Minister outline the Welsh Government's priorities for South Wales West. OAQ(4)0425(FM)*

The First Minister: Our priorities are outlined in the programme for government.

Y Prif Weinidog: Mae ein blaenoriaethau wedi'u hamlinellu yn y rhaglen lywodraethu.

Byron Davies: Thank you for that answer, First Minister. Presumably during your most recent trip to America, you had those priorities in mind. If that was indeed the case, can you explain why you travelled across the Atlantic to seek investment when there are American firms already interested in projects within South Wales West? I was at a meeting recently where a large American leisure firm was anxious to assist a partnership in delivering a multi-million pound project at

Byron Davies: Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Rwy'n tybio mai'r blaenoriaethau hynny oedd gennych mewn golwg yn ystod eich taith ddiweddar i America. Os felly, a allwch egluro pam y bu ichi deithio ar draws yr Iwerydd i chwilio am fuddsoddiad pan fo cwmnïau Americanaidd sydd eisoes â diddordeb mewn prosiectau yng Ngorllewin De Cymru? Roeddwn mewn cyfarfod yn ddiweddar lle yr oedd cwmni hamdden Americanaidd mawr yn awyddus i

the Royal Fern golf and leisure resort in Penllergaer. The Government seems completely oblivious to the need for proper inward investment and only wants to work in partnership within itself. Will you outline what is going wrong with your message to investors? Your Minister for Business, Enterprise, Technology and Science recognises that your branding is not right. What are you doing about that?

The First Minister: I cannot pretend that I understood most of that question. If the Member thinks that the way to attract investment into Wales is not to go anywhere, then that would clearly not be a sustainable model for the future. It is important to meet with those who already invest in Wales, as well as those who are potential investors in Wales.

Bethan Jenkins: Mae safle biomas Port Talbot angen cael ei werthu gan nad yw Prenergy wedi datblygu'r ardal ar gyfer biomas. A yw eich swyddogion wedi cynnal unrhyw drafodaethau gyda'r cwmni, oherwydd mae consŷrn mawr yn lleol nad yw'r safle wedi cael ei werthu?

Y Prif Weinidog: Nid wyf wedi chwarae rhan bersonol yn hyn, ond edrychaf i weld beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinydd y Pleidiau

The Deputy Presiding Officer: I call the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood. [*Applause.*]

Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood): Diolch, Ddirprwy Lywydd, a diolch, bawb.

Thank you for your warm wishes and congratulations.

First Minister, I am sure that you will share my concern about recent gross domestic product figures that showed that west Wales and the Valleys have fallen further behind the European average and that Wales remains the poorest nation within the UK. Tomorrow,

gynorthwyo partneriaeth i ddarparu prosiect gwerth miliynau o bunnoedd ar safle golff a hamdden Royal Fern ym Mhenlle'r-gaer. Mae'r Llywodraeth yn ymddangos yn hollol ddall i'r angen am fewnfuddsoddi priodol ac nid yw ond am weithio mewn partneriaeth o fewn ei hun. A wnewch chi amlinellu beth sy'n mynd o'i le gyda'ch neges i fuddsoddwyr? Mae eich Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn cydnabod nad yw eich brandio yn iawn. Beth rydych yn ei wneud am hynny?

Y Prif Weinidog: Ni allaf honni fy mod wedi deall y rhan fwyaf o'r cwestiwn hwnnw. Os yw'r Aelod o'r farn mai'r ffordd i ddenu buddsoddiad i Gymru yw peidio â mynd i unrhyw le, yna mae'n amlwg na fyddai hynny'n fodel cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae'n bwysig cwrdd â'r rhai sydd eisoes yn buddsoddi yng Nghymru, yn ogystal â'r rhai sydd â photensial i fuddsoddi yng Nghymru.

Bethan Jenkins: The biomass site in Port Talbot needs to be sold because Prenergy has not developed the area for biomass. Have your officials had any discussions with the company, because there is great concern locally that the site has not been sold?

The First Minister: I have not personally played a role in this, but I will look to see what the latest situation is.

Questions Without Notice from the Party Leaders

Y Dirprwy Lywydd: Galwaf ar arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood. [*Cymeradwyaeth.*]

The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood): Thank you, Deputy Presiding Officer, and thank you, all.

Diolch am eich cofion cynnes a'ch llongyfarchiadau.

Brif Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn rhannu fy mhryder am y ffigurau cynnyrch mewnwladol crynswth diweddar a oedd yn dangos bod gorllewin Cymru a'r Cymoedd ymhellach ar ôl y cyfartaledd Ewropeaidd a bod Cymru yn parhau i fod y wlad dlotaf yn y

George Osborne is set to exacerbate the situation even further by announcing that public sector workers in Wales should take a big hit.

From time to time, when the people of our nation need their politicians to join together, the parties of this Assembly are able to unite in a common goal. Will you therefore join me and invite the other party leaders to stand together in a united position to stop this UK Government from putting further pressure on household incomes in Wales?

The First Minister: I welcome the leader of Plaid Cymru to her new position. I look forward to working with her where possible.

She may have heard me on Radio 5 on Saturday morning expressing my strong views about the detrimental effect of regional pay on Wales. I welcome the stance that she has taken and I would be more than happy to call on the other party leaders in this Chamber to condemn any moves towards regional pay that would impoverish so many of our people.

Leanne Wood: Thank you, First Minister. I therefore urge you to make a specific commitment to arrange a meeting this afternoon between the four party leaders in this Chamber, so that we can immediately seek agreement in Wales, in a cross-party statement that should be presented to the Chancellor ahead of the budget announcement tomorrow.

The First Minister: This afternoon might be a bit difficult, given my timetable. Perhaps we should first wait to hear what the other party leaders say and to see whether they will join in the condemnation of regional pay.

Leanne Wood: Thank you, First Minister. Do you agree that public sector cuts have already hit the private as well as the public sector hard and that, ultimately, unless we stop these plans, they risk further depressing the Welsh economy by undermining productivity? Will you join Plaid Cymru and state clearly that what is needed now is a

DU. Yfory, bydd George Osborne yn debygol o waethgu'r sefyllfa ymhellach drwy gyhoeddi y dylai gweithwyr sector cyhoeddus yng Nghymru gymryd ergyd fawr.

O bryd i'w gilydd, pan fydd ar bobl ein cenedl angen i'w gwleidyddion ymuno â'i gilydd, mae pleidiau'r Cynulliad yn gallu uno ar gyfer nod cyffredin. A wnewch chi felly ymuno â mi a gwahodd arweinwyr y pleidiau eraill i sefyll gyda'i gilydd yn unedig i atal Llywodraeth y DU rhag rhoi pwysau pellach ar incwm cartrefi yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Croesawaf arweinydd Plaid Cymru i'w swydd newydd. Edrychaf ymlaen at gydweithio â hi lle bo hynny'n bosibl.

Efallai y bu iddi fy nghlywed ar Radio 5 fore Sadwrn yn mynegi fy marn gref am effaith niweidiol cyflogau rhanbarthol ar Gymru. Croesawaf ei safiad, a byddwn yn fwy na pharod i alw ar arweinwyr y pleidiau eraill yn y Siambr i gondemnio unrhyw symudiadau tuag at gyflwyno cyflogau rhanbarthol a fyddai'n peri tlodi i gymaint o'n pobl.

Leanne Wood: Diolch, Brif Weinidog. Felly, rwyf yn eich annog i wneud ymrwymiad penodol i drefnu cyfarfod y prynhawn yma rhwng y pedwar arweinydd plaid yn y Siambr, fel y gallwn geisio dod i gyntdeb ar unwaith yng Nghymru, mewn datganiad trawsbleidiol y dylid ei gyflwyno i'r Canghellor cyn y cyhoeddiad ar y gyllideb yfory.

Y Prif Weinidog: Efallai y bydd gwneud hynny y prynhawn yma ychydig yn anodd, o gofio fy amserlen. Efallai y dylem aros i glywed yr hyn sydd gan arweinwyr y pleidiau eraill i'w ddweud yn gyntaf er mwyn gweld a fyddant yn ymuno â ni i gondemnio cyflogau rhanbarthol.

Leanne Wood: Diolch, Brif Weinidog. A ydych chi'n cytuno bod ergyd y toriadau yn y sector cyhoeddus eisoes wedi taro'r sector preifat yn ogystal â'r sector cyhoeddus yn galed ac, yn y pen draw, oni bai ein bod yn atal y cynlluniau hynny, fod perygl y byddant yn dirwasgu economi Cymru ymhellach gan danseilio cynhyrchiant? A wnewch chi

stimulus for the Welsh economy and not further constraint?

The First Minister: I welcome Plaid Cymru's support for our position as a Government. However, it is important to point out the various difficulties in relation to this suggestion of regional pay. Does it apply to where people work or to where they live? For example, if there are two people living next door to each other in Taff's Well, and one works as a nurse at the Royal Glamorgan Hospital and the other at the Heath hospital, does that mean that the one working in the Heath is paid more than the one working at the Royal Glamorgan Hospital? It is a policy that is designed to reduce the living standards of those in the poorest parts of the UK and to increase the wealth gap. I very much look forward to hearing what the other party leaders have to say on this matter.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): I formally offer my congratulations to Leanne on her new role. It is not only an important job for Leanne and Plaid Cymru, but an important step for the equality of women in all aspects of public life in Wales.

First Minister, this week the Welsh rugby team proved that it is the best in Europe, but last week we saw new figures show that GDP per capita in west Wales and the Valleys has fallen from 79% to 68.4% of the EU average. We hear a lot in the media about the state of the Greek economy. Are you not ashamed that these figures show that most parts of Greece are doing better than most parts of Wales, and is it not time that we had a Government with the same ambition that our rugby team showed?

The First Minister: First, I point out to the leader of the Liberal Democrats that the figures are three years out of date. Secondly, we know, as has already been said in this Chamber, that the plans to cut the pay of thousands of public sector workers in Wales would mean that GDP would drop further.

ymuno â Phlaid Cymru a datgan yn glir mai'r hyn sydd ei angen yn awr ar economi Cymru yw hwb, nid cyfyngiad pellach?

Y Prif Weinidog: Rwy'n croesawu cefnogaeth Plaid Cymru i safbwynt y Llywodraeth. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi'r amryfal anawsterau ynghylch cyflogau rhanbarthol. A yw'n berthnasol i ble mae pobl yn gweithio neu ble maent yn byw? Er enghraifft, os oes dau berson yn byw drws nesaf i'w gilydd yn Ffynnon Taf, a bod un yn gweithio fel nyrs yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg a'r llall yn ysbyty'r Mynydd Bychan, a yw'n golygu bod yr un sy'n gweithio yn y Mynydd Bychan yn cael mwy o dâl na'r un sy'n gweithio yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg? Mae'r polisi wedi'i gynllunio i leihau safonau byw pobl yn rhannau tlotaf y DU ac i gynyddu'r bwlch cyfoeth. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at glywed beth sydd gan arweinwyr y pleidiau eraill i'w ddweud ar y mater hwn.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Rwy'n llongyfarch Leanne yn ffurfiol ar ei rôl newydd. Mae'n swydd bwysig i Leanne a Phlaid Cymru, yn ogystal â bod yn gam pwysig ar gyfer cydraddoldeb i fenywod ym mhob agwedd ar fywyd cyhoeddus yng Nghymru.

Brif Weinidog, yr wythnos hon profodd tîm rygbi Cymru ei fod y gorau yn Ewrop, ond yr wythnos diwethaf gwelwom ffigurau newydd yn dangos bod CMC y pen yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi gostwng o 79% i 68.4% o gyfartaledd yr UE. Rydym yn clywed llawer yn y cyfryngau am gyflwr yr economi yng Ngwlad Groeg. Onid oes gennych gywilydd bod y ffigurau hyn yn dangos bod y rhan fwyaf o ardaloedd yng Ngwlad Groeg yn gwneud yn well na'r rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru, ac onid yw'n bryd inni gael Llywodraeth sydd yr un mor uchelgeisiol â'n tîm rygbi?

Y Prif Weinidog: Yn gyntaf, rwy'n tynnu sylw arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol at y ffaith mai ffigurau tair blynedd yn ôl ydynt. Yn ail, rydym yn gwybod, fel sydd eisoes wedi'i ddweud yn y Siambr, y byddai'r cynlluniau i dorri cyflogau miloedd o weithwyr sector cyhoeddus yng Nghymru

Will the leader of the Liberal Democrats condemn any plans to introduce regional pay across the UK?

Kirsty Williams: Either the First Minister has developed the skills of a clairvoyant recently, or he has seen the budget. I suspect that neither is true, and as for regional pay, I have long been opposed to regional pay, and where I think that Westminster is getting it wrong, I will get up and say so. If only the First Minister had done a bit more of that when Labour was in charge for 13 years.

When Labour was doing outrageous things to the people of Wales during that time, we did not hear a squeak from him. In 2002, Rhodri Morgan stated that the huge amount of EU funding was Welsh Labour's big chance to bring the Welsh standard of living up to that of the European average. Here we are, 10 years on and more than £6 billion later. What went wrong First Minister?

The First Minister: I read today that Lib Dem Ministers have been banging the table at a Cabinet meeting to mark the passing of the coalition's NHS reforms. I wonder if the leader of the Liberal Democrats would join them in doing that. I am disappointed that, having been offered the opportunity to declare absolutely clearly the she is against moves towards regional pay—not greater moves, as she said before, but moves to regional pay—she has singularly failed to do so. The people of Wales will judge the Liberal Democrats on that fact.

Kirsty Williams: I thought that this agenda item was entitled 'Questions to the First Minister'. Of course, if the First Minister would like to swap places with me, I would be happy to take him up on the offer.

First Minister, your failure to answer these critical questions this afternoon is alarming. The EU money given to your Government is meant to ensure that Wales becomes

yn golygu y byddai CMC yn disgyn ymhellach. A fydd arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn condemnio unrhyw gynlluniau i gyflwyno cyflogau rhanbarthol ledled y DU?

Kirsty Williams: Mae'r Prif Weinidog naill ai wedi datblygu sgiliau clirweledol yn ddiweddar, neu mae wedi gweld y gyllideb. Rwy'n amau nad oes yr un o'r rheini'n wir. O ran cyflogau rhanbarthol, rwyf wedi gwrthwynebu hynny ers amser maith, ac os wyf yn meddwl bod San Steffan yn gwneud rhywbeth o'i le, rwy'n dweud. Trueni na fyddai'r Prif Weinidog wedi gwneud ychydig yn fwy o hynny pan oedd Llafur mewn grym am 13 mlynedd.

Pan oedd Llafur yn gwneud pethau gwarthus i bobl Cymru yn ystod y cyfnod hwnnw, ni chlywsom yr un smic ganddo. Yn 2002, dywedodd Rhodri Morgan mai'r swm enfawr o arian yr UE oedd cyfle mawr Llafur Cymru i godi safonau byw yng Nghymru i'r cyfartaledd Ewropeaidd. Dyma ni, 10 mlynedd a mwy na £6 biliwn yn ddiweddarach. Beth aeth o'i le, Brif Weinidog?

Y Prif Weinidog: Rwy'n darllen heddiw bod Gweinidogion y Democratiaid Rhyddfrydol wedi bod yn curo ar y bwrdd mewn cyfarfod Cabinet ynghylch pasio diwygiadau'r glymblaid i'r GIG. Tybed a fyddai arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn ymuno â hwy i wneud hynny. Rwy'n siomedig, ar ôl iddi gael cyfle i ddatgan yn gwbl glir ei bod yn gwrthwynebu symud tuag at gyflogau rhanbarthol—nid symudiadau mwy, fel y dywedodd ynghynt, ond symudiadau at gyflogau rhanbarthol—ei bod wedi methu'n llwyr â gwneud hynny. Bydd pobl Cymru yn beirniadu'r Democratiaid Rhyddfrydol am hynny.

Kirsty Williams: Roeddwn yn meddwl mai teitl yr eitem hon ar yr agenda oedd 'Cwestiynau i'r Prif Weinidog'. Wrth gwrs, os yw'r Prif Weinidog am newid lle â mi, byddwn yn hapus i wneud hynny.

Brif Weinidog, mae eich methiant i ateb y cwestiynau allweddol hyn y prynhawn yma yn peri pryder. Mae'r arian o'r UE sy'n cael ei roi i'ch Llywodraeth i fod i sicrhau bod

relatively better off. The vast majority of European regions that have received the same money have made that happen—they have become relatively better off. The people of Wales are entitled to ask you, as their First Minister, why our country is not one of those regions. What lessons can we take to ensure, should Wales qualify for yet another round of additional funding, that it is more successful than it has been during the past 10 years?

The First Minister: The leader of the Liberal Democrats can snarl as much as she wants across the Chamber, but, if what we read in the papers is correct, the reality is that people in Wales will see a deterioration in living standards because of the introduction of regional pay, cuts in the rates of pay across Wales and an 18% cut in the wages of public sector workers. The leader of the Liberal Democrats was given the opportunity to stand up for the people of Wales by joining us in condemning regional pay, and she has singularly failed to do so.

The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies): With your indulgence, Deputy Presiding Officer, I welcome the new leader of Plaid Cymru to the role that she will undertake. I wish her well in her endeavours and I look forward, where possible, to our working together. I think that it is safe to say from our exchanges that there are some differences between the two of us. [*Laughter.*]

First Minister, what is the problem with the brand of Wales?

The First Minister: We need to ensure that we develop a unique selling point and ensure that people have a clear image of what Wales stands for and ensure that they are aware of the opportunities that exist in Wales.

Andrew R.T. Davies: Thank you for that answer, First Minister. Therefore, you agree with what your Minister for Business, Enterprise, Technology and Science said when she talked in committee last week about the Government not getting the brand

Cymru yn dod yn gymharol well ei byd. Mae'r mwyafrif helaeth o ranbarthau Ewrop sydd wedi derbyn yr un faint o arian wedi sicrhau hynny—maent wedi dod yn gymharol well eu byd. Mae gan bobl Cymru'r hawl i ofyn i chi, eu Prif Weinidog, pam nad yw ein gwlad yn un o'r rhanbarthau hynny. Pa wersi y gallwn eu dysgu i sicrhau, os bydd Cymru yn gymwys ar gyfer rownd arall eto o gyllid ychwanegol, ei bod yn fwy llwyddiannus nag y bu yn ystod y 10 mlynedd diwethaf?

Y Prif Weinidog: Gall arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol ysgyryngu gymaint ag y mae eisiau ar draws y Siambr, ond, os yw'r hyn yr ydym yn ei ddarllen yn y papurau yn gywir, y realiti yw y bydd pobl Cymru yn gweld dirywiad mewn safonau byw oherwydd cyflwyno cyflogau rhanbarthol, toriadau i gyfraddau cyflogau ledled Cymru a thoriad o 18% yng nghyflogau gweithwyr sector cyhoeddus. Cafodd arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol gyfle i gefnogi pobl Cymru drwy ymuno â ni i gondemnio cyflogau rhanbarthol, ond mae wedi methu'n llwyr â gwneud hynny.

Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies): Gyda'ch caniatâd, Ddirprwy Lywydd, croesawaf arweinydd newydd Plaid Cymru i'w rôl. Dymunaf yn dda iddi yn ei gwaith ac edrychaf ymlaen at weithio gyda'n gilydd, lle bo hynny'n bosibl. Afraid dweud bod ein trafodaethau wedi amlygu bod rhai gwahaniaethau rhyngom. [*Chwerthin.*]

Brif Weinidog, beth yw'r broblem gyda brand Cymru?

Y Prif Weinidog: Mae angen inni sicrhau ein bod yn datblygu pwynt gwerthu unigryw, a sicrhau bod gan bobl ddelwedd glir o'r hyn y mae Cymru yn ei gynrychioli a'u bod yn ymwybodol o'r cyfleoedd sy'n bodoli yng Nghymru.

Andrew R.T. Davies: Diolch am yr ateb, Brif Weinidog. Felly, rydych yn cytuno â'r hyn a ddywedodd eich Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth mewn pwyllgor yr wythnos ddiwethaf, sef nad yw'r Llywodraeth wedi cael brand Cymru yn

of Wales right. I have highlighted over the last three weeks the way in which inward investment figures have been deteriorating rapidly so that instead of being the second most attractive place for inward investment, Wales is now the second least attractive place for inward investment. In relation to tourism, tourist numbers are falling year on year. Is it not the case that your Government needs to be proactively marketing Wales and the comments that you made about Cardiff Airport merely detract from the positive message that we need to be putting out to inward investors and businesses as a whole? Therefore, can you map out what your Government will do to improve the image and the brand of Wales?

The First Minister: Let us start with Cardiff Airport. I was surprised that the leader of the Conservatives—the leader of the opposition—is picking a fight on this; he must be the only person in Wales who thinks that Cardiff Airport is doing well. The letters I have had in my postbag over the past week, including responses from business people, demonstrate that the situation in Cardiff Airport cannot continue. It is not doing well. The present owners are not running it along the model that they should be using. There is great potential in Cardiff Airport, with the right owners who can demonstrate the right level of commitment. However, if you really think that the airport as it is at the moment is doing well and is a credit to Wales, I cannot agree with you. We can do so much better. As far as Wales is concerned in terms of visitor numbers, I go to countries like the US in order to ensure that we understand what needs to be done to attract more investment and to understand what needs to be done to attract more tourists, which is why I met tourism operators while I was in the United States. However, this is apparently something that your party criticises.

Andrew R.T. Davies: Not at all. We have proactively supported any endeavours to improve the brand of Wales, but we cannot support your knocking of Cardiff Airport and the staff who work tirelessly to improve the passenger experience at that airport. Two Government reports in 2007 and 2009 clearly

iawn. Dros y tair wythnos ddiwethaf, rwyf wedi amlygu'r ffordd y mae ffigurau mewnfuddsoddi wedi bod yn dirywio'n gyflym. Mae hynny'n golygu nad Cymru yw'r lle mwyaf deniadol ond un ar gyfer mewnfuddsoddi erbyn hyn; yn hytrach, Cymru yw'r lle lleiaf deniadol ond un ar gyfer mewnfuddsoddi. O ran twristiaeth, mae niferoedd twristiaid yn gostwng bob blwyddyn. Oni ddylai eich Llywodraeth fod yn rhagweithiol wrth farchnata Cymru, ac onid yw eich sylwadau am Faes Awyr Caerdydd yn difrio'r neges gadarnhaol sydd angen ei chyfleu i fewnfuddsoddwyr a busnesau yn gyffredinol? Felly, beth yw cynllun y Llywodraeth i wella delwedd a brand Cymru?

Y Prif Weinidog: Gadewch inni ddechrau gyda Maes Awyr Caerdydd. Roeddwn wedi synnu bod arweinydd y Ceidwadwyr—arweinydd yr wrthblaid—eisiau ffrae am hyn; mae'n rhaid mai ef yw'r unig un yng Nghymru sy'n credu bod Maes Awyr Caerdydd yn gwneud yn dda. Mae'r llythyrau yr wyf wedi'u cael drwy'r post yn ystod yr wythnos diwethaf, gan gynnwys ymatebion gan bobl busnes, yn dangos na all y sefyllfa ym Maes Awyr Caerdydd barhau. Nid yw'n gwneud yn dda. Nid yw'r perchnogion presennol yn defnyddio'r model cywir i'w reoli. Mae potensial mawr gan Faes Awyr Caerdydd, gyda'r perchnogion cywir â'r ymrwymiad cywir. Fodd bynnag, os ydych yn wir yn credu bod y maes awyr fel y mae ar hyn o bryd yn gwneud yn dda ac yn glod i Gymru, ni allaf gytuno â chi. Gallwn wneud lawer yn well. O ran nifer y bobl sy'n ymweld â Chymru, rwy'n ymweld â gwledydd fel yr Unol Daleithiau er mwyn sicrhau ein bod yn deall yr hyn sydd angen ei wneud i ddenu mwy o fewnfuddsoddi a thwristiaid. Dyna pam y bu imi gyfarfod â gweithwyr ym maes twristiaeth pan oeddwn yn yr Unol Daleithiau. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod eich plaid yn beirniadu hynny.

Andrew R.T. Davies: Ddim o gwbl. Rydym wedi cefnogi'n rhagweithiol unrhyw ymdrechion i wella brand Cymru, ond ni allwn eich cefnogi wrth ladd ar Faes Awyr Caerdydd a'r staff sy'n gweithio'n ddiwyd i wella profiadau teithwyr yno. Dangosodd dau adroddiad gan y Llywodraeth yn 2007 a 2009

indicated that, if the Government at that time had supported better route structures, we could have a far better proposition to offer access to Wales. However, the GDP figures for Wales show that we are falling further behind. The average in Wales is under 80%; in Northern Ireland, it is 83%; in Scotland, it is 107%; and the UK average is 110%. Is it not the case, First Minister, that Warren Gatland can deliver grand slams, but your team delivers wooden spoons for Wales?

The First Minister: Well, as far as the airport is concerned, business people have complained to me week after week, for many months, about the airport—not about the staff, but about the airport. I have met the owners of the airport twice. I have put these points to them and they have been met with a shrug of the shoulders. That is just not good enough. I know of situations, and have seen them myself, where people have been locked in the baggage hall and where the front door was not open and people had to go in through a side door—I had to do that the last time I used the airport. This is not good, as far as the airport is concerned. The owners need to run it properly or pass it over to those—and there is interest out there—who wish to run the airport properly, develop it, and make the terminal building more attractive. That is absolutely crucial.

When it comes to GDP, I notice once again that the leader of the opposition was given the opportunity to condemn regional pay, to condemn the attack on the incomes of the people of Wales and, once again, he has failed to do so.

Costau Byw Fforddiadwy

3. Keith Davies: *A wnaiff y Prif Weinidog roi trosolwg o gamau gweithredu Llywodraeth Cymru i sicrhau costau byw fforddiadwy. OAQ(4)0426(FM)*

Y Prif Weinidog: Dros y tair blynedd diwethaf, mae prisiau wedi codi'n gyflymach na chyflogau ac rydym yn gweithio fwyfwy ar draws y Llywodraeth i wneud y gorau o'r cymorth a'r gwasanaethau a ddarperir gennym i gartrefi a chymunedau er mwyn eu

yn glir pe bai'r Llywodraeth ar y pryd wedi cefnogi gwell strwythurau o ran llwybrau y gallem fod mewn sefyllfa lawer gwell o ran cynnig mynediad i Gymru. Fodd bynnag, mae ffigurau CMC Cymru yn dangos ein bod yn mynd ymhellach ar ei hôl hi. Mae'r cyfartaledd yng Nghymru o dan 80%; yng Ngogledd Iwerddon, mae'n 83%; yn yr Alban, mae'n 107%; a chyfartaledd y DU yw 110%. Onid yw'n wir, Brif Weinidog, y gall Warren Gatland roi Campau Llawn i Gymru, ond bod eich tîm chi yn rhoi llwyau pren?

Y Prif Weinidog: Wel, o ran y maes awyr, mae pobl busnes wedi cwyno wrthyf yn wythnosol ers misoedd lawer yn ei gylch—nid am y staff, ond am y maes awyr. Rwyf wedi cwrdd â pherchnogion y maes awyr ddwywaith. Rwyf wedi dweud wrthynt am y pwyntiau hyn a'u hymateb oedd codi eu hysgwyddau. Nid yw hynny'n ddigon da. Gwn am sefyllfaoedd, ac rwyf wedi'u gweld fy hun, lle mae pobl wedi cael eu cloi yn y neuadd bagiau a lle nad oedd y drws blaen yn agored a phobl yn gorfod mynd i mewn drwy ddrws ochr—bu'n rhaid i mi wneud hynny y tro diwethaf y bu imi ddefnyddio'r maes awyr. Nid yw hynny'n dda i'r maes awyr. Mae angen i'r perchnogion ei redeg yn iawn neu ei drosglwyddo i'r rhai—ac mae diddordeb gan rai—sydd am redeg y maes awyr yn gywir, ei ddatblygu, a gwneud y derfynfa yn fwy deniadol. Mae hynny'n gwbl hanfodol.

O ran CMC, nodaf unwaith eto bod arweinydd yr wrthblaid wedi cael cyfle i gondemnio cyflogau rhanbarthol ac i gondemnio'r ymosodiad ar incwm pobl Cymru, ac, unwaith eto, mae wedi methu â gwneud hynny.

Affordable Costs of Living

3. Keith Davies: *Will the First Minister give an overview of the Welsh Government's actions to ensure affordable costs of living. OAQ(4)0426(FM)*

The First Minister: For the last three years, prices have increased faster than wages and we are increasingly working across Government to maximise the support and services that we provide to households and communities to meet the mounting financial

helpu i wynebu'r pwysau ariannol cynyddol sydd arnynt.

Keith Davies: Diolch am yr ateb hwnnw. Yn fwy nag erioed, mae costau byw fforddiadwy yn bwnc pwysig. Rwy'n derbyn bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i leihau tlodi, ac mae ei strategaeth cynhwysiant ariannol yn sefydlu beth yw ei gallu.

1.45 p.m.

Tanlinellodd adroddiad Achub y Plant, 'A Poverty Premium', y ffaith bod teuluoedd ar incwm isel yn gorfod talu cost ychwanegol o dros £1,200 am nwyddau a gwasanaethau o'i gymharu â theuluoedd ar incwm uwch. Yn ogystal â hyn, bydd Deddf Diwygio Lles 2012 Llywodraeth San Steffan yn ergyd galed ar deuluoedd cyffredin sydd yn gweithio, ac yn debygol o achosi pryder. Gyda hyn mewn golwg, pa gamau pellach mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu'u cymryd i leihau'r effeithiau hyn?

Y Prif Weinidog: Rydym yn gwybod, pan fydd y flwyddyn ariannol nesaf yn dechrau fis Ebrill, y bydd llawer o deuluoedd yn cael eu bwrw'n galed iawn gyda'r newidiadau o ran trethi. Rydym hefyd yn gwybod y bydd y Deddf Diwygio Lles yn cael effaith ddifrifol a negyddol ar lawer o bobl sy'n byw yng Nghymru. Dyna pam mae Leighton Andrews, fel y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros y maes hwn, wedi bod yn ystyried yr effaith ar Gymru yn ystod y misoedd diwethaf.

Nick Ramsay: First Minister, can you explain how your Government's decision not to pass on a council tax freeze in Wales is designed to help people here meet their bills?

The First Minister: Cutting their pay by 18% is not going to help them, is it? That is one of the things that you are very keen to do. Let us look at how the money that, according to the Tories, was spent on pet projects was actually spent: it was spent on a young recruits programme, Skills Growth Wales, capital investment in schools, the Ely Mill housing project, an additional £3 million for Arbed, an extra 130 affordable homes in Wales and investment in enterprise zones in

pressures.

Keith Davies: Thank you for that reply. More than ever, an affordable cost of living is an important issue. I acknowledge that the Welsh Government is using all incentives at its disposal to alleviate poverty, and its financial inclusion strategy sets out its capability in this regard.

The Save the Children report, 'A Poverty Premium', highlighted the fact that families on low incomes have to pay additional costs of over £1,200 for goods and services compared to families on higher incomes. In addition, the Westminster Government's Welfare Reform Act 2012 will have a detrimental effect on ordinary working families, and is likely to cause concern. In light of this, what further action is the Welsh Government intending to take in order to reduce the impact of this?

The First Minister: We know that when the next financial year starts in April, many families will be hit hard by the changes to taxation. We also know that the Welfare Reform Act will have a serious, negative impact on many people living in Wales. That is why Leighton Andrews, as the Minister responsible for this area, has been considering the impact on Wales over the past few months.

Nick Ramsay: Brif Weinidog, a allwch egluro sut mae penderfyniad eich Llywodraeth i beidio â throsglwyddo arian yn sgîl rhewi'r dreth gyngor yng Nghymru wedi ei fwriadu i helpu pobl yma i dalu eu biliau?

Y Prif Weinidog: Nid yw torri eu cyflog 18% yn mynd i'w helpu, nac ydyw? Dyna un o'r pethau rydych yn awyddus iawn i'w wneud. Gadewch inni edrych ar sut y cafodd yr arian a gafodd ei wario, yn ôl y Toriaid, ar '*pet projects*' ei wario mewn gwirionedd: cafodd ei wario ar raglen recriwtiaid ifanc, Sgiliau Twf Cymru, buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion, prosiect tai Melin Trelái, £3 miliwn ychwanegol ar gyfer Arbed, 130 o dai fforddiadwy ychwanegol yng Nghymru a

Wales. What their response tells us is that, when we invest in people, jobs, skills and the economy, in putting a roof over people's heads and in ensuring that they are warm, the Tories do not care. They are interested in money, but not in people.

Mick Antoniw: I welcome your comments on regional pay. Do you think that it is right that a Welsh teacher or a Welsh nurse should be paid less in Wales than they might be in other parts of the United Kingdom?

The First Minister: No, I do not. It is absolutely crucial that people are paid what they deserve for their jobs, and they should not be penalised on the basis of where they live. We do not even know whether the suggestions are being made on the basis of where someone works or where they live. You could have two people living next door to each other in a community in eastern Flintshire, one working in Cheshire and one working in Flintshire, and the one working in Cheshire could be paid more than the one working in Flintshire on the basis of what the UK Government is proposing. It is a ludicrous measure: ill-thought-out, but typical of this UK Government.

Trafodaethau gyda Chwmniau Dŵr

4. Ann Jones: *Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda chwmniau dwr perthnasol i sicrhau bod gan gartrefi ledled Cymru gysylltiad llawn â rhwydweithiau carthffosydd cyhoeddus. OAQ(4)0427(FM)*

The First Minister: We work closely with the relevant sewerage undertakers in Wales to ensure that we have a sustainable sewerage network for the people of Wales. The undertakers have a duty to provide connection to a public sewer, provided that relevant environmental and economic criteria are met.

Ann Jones: A number of residents in the Vale of Clwyd are struggling to secure a

buddsoddiad mewn ardaloedd menter yng Nghymru. Dywed eu hymateb wrthym, pan fyddwn yn buddsoddi mewn pobl, swyddi, sgiliau a'r economi, mewn rhoi to uwch bennau pobl a sicrhau eu bod yn gynnes, nad yw'r Toriaid yn poeni. Mae ganddynt ddiddordeb mewn arian, nid pobl.

Mick Antoniw: Rwyf yn croesawu eich sylwadau ar gyflogau rhanbarthol. A ydych o'r farn ei bod yn iawn y dylai athro neu nyrs o Gymru gael eu talu llai yng Nghymru nag y byddent o bosibl mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig?

Y Prif Weinidog: Na, nid wyf yn meddwl bod hynny'n iawn. Mae'n gwbl hanfodol bod pobl yn cael eu talu yr hyn y maent yn ei haeddu am eu swyddi, ac ni ddylid eu cosbi ar sail lle maent yn byw. Ni wyddom hyd yn oed a yw'r awgrymiadau'n cael eu gwneud ar sail lle mae rhywun yn gweithio neu lle maent yn byw. Gallech gael dau o bobl sy'n byw drws nesaf i'w gilydd mewn cymuned yn nwyrain Sir y Fflint, gydag un yn gweithio yn Sir Gaer a'r llall yn gweithio yn Sir y Fflint, a gallai'r un sy'n gweithio yn Sir Gaer gael ei dalu mwy na'r un yn Sir y Fflint ar sail yr hyn mae Llywodraeth y DU yn ei gynnig. Mae'n fesur chwerthinllyd: nid oes fawr o feddwl wedi mynd iddo, ond mae hynny'n nodweddiadol o Lywodraeth y DU hon.

Discussions with Water Companies

4. Ann Jones: *What discussions has the Welsh Government had with relevant water companies to ensure the full connection of homes across Wales to public sewer networks. OAQ(4)0427(FM)*

Y Prif Weinidog: Rydym yn gweithio'n agos gyda'r ymgwymerwyr carthffosiaeth perthnasol yng Nghymru i sicrhau bod gennym rwydwaith carthffosiaeth cynaliadwy i bobl Cymru. Mae dyletswydd ar yr ymgwymerwyr i ddarparu cysylltiad i garthffos cyhoeddus, ar yr amod bod meini prawf amgylcheddol ac economaidd perthnasol yn cael eu bodloni.

Ann Jones: Mae nifer o drigolion yn Nyffryn Clwyd yn cael trafferth sicrhau cysylltiad

sewer connection for their properties, despite a clear judgment from your Government and the Environment Agency in support of their application. Section 101A of the Water Industry Act 1991 states that water companies must provide such a connection, as you have already said, and that the Environment Agency will have the final say on the applications. Despite these commitments, my constituents are suffering as a result of Welsh Water's failure to act in a timely manner and have been told that they will possibly have to wait until 2015. What assessments have you made of the actions being undertaken by water companies to meet their duties under this legislation?

The First Minister: I am aware that there are several ongoing applications for connections to public sewers in Wales. Welsh Ministers have powers to enforce once the water and sewerage companies do not fulfil their obligations, following a determination by the Environment Agency and where a breach of section 101A has occurred. Given the enforcement powers that Welsh Ministers have, I cannot comment on specific cases, but I hear very clearly the representations that you have made on behalf of your constituents.

Antoinette Sandbach: First Minister, there is no small amount of unease in rural areas over your Government's priorities for water management. Wales has seen the compulsory registration of septic tanks introduced, without considering, as England has done, whether it is necessary for compliance, and your Government has recently introduced proposals to designate all of Wales a nitrate-vulnerable zone. There is also a recent example of the Environment Agency attempting unsuccessfully to impose five years of drainage arrears on landowners. Will you confirm that any future single environment body will approach water regulation in a way that is proportionate to the risks involved, and will seek to collaborate wherever possible with Welsh householders and landowners?

The First Minister: The single environment body is designed to streamline the process of consenting and protecting the environment, without weakening that commitment to

carthffos ar gyfer eu heiddo, er gwaethaf dyfarniad clir gan eich Llywodraeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd i gefnogi eu cais. Dywed adran 101A o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 bod yn rhaid i gwmnïau dŵr o'r fath ddarparu cysylltiad, fel y dywedasocho eisoes, ac y bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn cael y gair olaf ar y ceisiadau. Er gwaethaf yr ymrwymïadau hyn, mae fy etholwyr yn dioddef o ganlyniad i fethiant Dŵr Cymru i weithredu mewn da bryd, a chawsant wybod y bydd yn rhaid iddynt aros o bosibl hyd 2015. Pa asesiadau a wnaethoch o'r camau gweithredu gan gwmnïau dŵr i gyflawni eu dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth hon?

Y Prif Weinidog: Rwyf yn ymwybodol bod nifer o geisiadau ar y gweill ar gyfer cysylltiadau i garthffosydd cyhoeddus yng Nghymru. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau gorfodi pan nad yw cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn cyflawni eu rhwymedigaethau, yn dilyn penderfyniad gan Asiantaeth yr Amgylchedd a lle mae adran 101A wedi ei thorri. O ystyried y pwerau gorfodi sydd gan Weinidogion Cymru, ni allaf wneud sylwadau ar achosion penodol, ond rwyf wedi clywed y sylwadau a wnaethoch ar ran eich etholwyr yn glir iawn.

Antoinette Sandbach: Brif Weinidog, mae cryn anesmwythyd yng nghefn gwlad am flaenoriaethau eich Llywodraeth ar gyfer rheoli dŵr. Cyflwynwyd gorfodaeth i gofrestru tanciau septig yng Nghymru, heb ystyried, fel y mae Lloegr wedi'i wneud, pa un a oes angen hynny i gydymffurfio, ac mae'ch Llywodraeth yn ddiweddar wedi cynnig dynodi Cymru gyfan yn barth perygl nitradau. Bu enghraifft ddiweddar hefyd o ymgais aflwyddiannus gan Asiantaeth yr Amgylchedd i godi pum mlynedd o ôl-ddyledion draenio ar dirfeddianwyr. A wnewch chi gadarnhau y bydd unrhyw gorff amgylcheddol unigol yn edrych ar reoli dŵr mewn ffordd sy'n gymesur â'r peryglon perthnasol, ac y bydd yn ceisio cydweithio lle bo modd gyda deiliaid tai a pherchnogion tir yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Diben cael un corff amgylcheddol yw symleiddio'r broses o ganiatáu a gwarchod yr amgylchedd, heb wanhau'r ymrwymiad hwnnw i warchod yr

protecting the environment.

Simon Thomas: Brif Weinidog, mae nifer o ystadau tai wedi cael eu codi dros y blynyddoedd yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, heb fod yr heolydd a'r garthffosiaeth o'r safon i gael eu mabwysiadu gan yr awdurdod lleol. Rwyf yn croesawu'r ffaith bod y gyfraith wedi newid i roi mwy o bwysau ar y cwmnïau dŵr i fabwysiadu carthffosiaeth breifat—mae'n bosibl fod gennyf ddiddordeb personol yn hynny, gyda llaw. Pa gamau y byddwch yn ei ystyried yn ystod y cyfnod nesaf, o dan y Bil cynllunio newydd o bosibl, i sicrhau nad yw adeiladwyr yn cael rhwydd hyn yn y dyfodol i beidio ag adeiladu carthffosiaeth o safon ddigonol i gael ei mabwysiadu?

Y Prif Weinidog: Mae hyn yn bwnc pwysig dros ben, ac rwyf yn siŵr bod bob un ohonom wedi gweld enghreifftiau o hyn o ran tai a gafodd eu hadeiladu yn y 1960au a'r 1970au, lle na chafodd heolydd a charffosiaeth eu mabwysiadu gan neb. Weithiau, nid yw'r cwmnïau adeiladu yn bodoli rhagor. Os oes eisiau cryfhau'r ddeddfwriaeth ynglŷn â hyn, o gofio'r hyn sydd wedi newid yn ddiweddar, bydd hynny'n cael ei ystyried fel rhan o'r Bil.

Blaenoriaethau Polisi ar gyfer Gogledd Cymru

5. Antoinette Sandbach: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Gogledd Cymru. OAQ(4)0430(FM)*

The First Minister: Our priorities are set out in the programme for government.

Antoinette Sandbach: Research by the Cardiff Business School has found that, between 2003 and 2010, Wales was the only part of the UK to lose a share of inward investment projects. Do you agree with Professor Brian Morgan that the closure of the Welsh Development Agency and the abolition of its brand will probably go down in history as the worst policy decision made in Wales in living memory? Do you also agree with Edwina Hart that the responsibility for the deterioration of the Welsh brand and its impact on investment in

amgylchedd.

Simon Thomas: First Minister, many housing estates have been built in Wales over the years, particularly in rural areas, without the roads and sewerage being of a sufficient standard to be adopted by the local authority. I welcome the fact that the law has changed to place more pressure on water companies to adopt private sewerage—I might have a personal interest in that, by the way. What actions are you considering in the ensuing period, under the new planning Bill, possibly, to ensure that builders in future will not be able to get away with building sewerage to a standard that cannot be adopted?

The First Minister: This is an exceptionally important issue and I am sure that every one of us will have seen examples of this regarding houses that were built in the 1960s and 1970s, where the roads and sewerage systems have not been adopted by anyone. Sometimes, the construction companies are no longer in existence. If we need to strengthen the legislation in this regard, bearing in mind the recent changes, we will of course consider that as part of the Bill.

Policy Priorities for North Wales

5. Antoinette Sandbach: *Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's policy priorities for North Wales. OAQ(4)0430(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae ein blaenoriaethau wedi'u nodi yn y rhaglen lywodraethu.

Antoinette Sandbach: Canfu gwaith ymchwil gan Ysgol Fusnes Caerdydd mai Cymru oedd yr unig ran o'r DU rhwng 2003 a 2010 i gollu cyfran o brosiectau mewnfuddsoddi. A ydych yn cytuno gyda'r Athro Brian Morgan fod cau Awdurdod Datblygu Cymru a diddymu ei frand yn debyg o gael ei gofio fel y penderfyniad polisi gwaethaf a wnaed yng Nghymru ers cyn cof? A ydych hefyd yn cytuno gydag Edwina Hart mai Llywodraeth Lafur Cymru yn unig sy'n gyfrifol am y dirywiad yn y brand Cymreig a'i effaith ar fuddsoddi yn y

north Wales lies solely with the Welsh Labour Government? gogledd?

The First Minister: It is amazing that, despite what we saw from the Tories in the 1980s and all the decisions that they took that wrecked so many people's lives and jobs, it is the WDA that they care about the most. Once again, they care not a jot for the people of Wales, their livelihoods, homes or families. All I can say is that Lord Rowe-Beattie does not agree with you, and he was someone with a strong connection to the WDA.

Kenneth Skates: First Minister, we heard this week that 22 credit unions in Wales have seen an increase in their membership of 13% to 58,000 in 2011. In north Wales in particular, we have seen lending increase by over 20% in the last year. Given that the Money Advice Trust has said that the demand for debt advice would increase by 23% by 2014 in Wales, will you do all that you can in collaboration with the Minister for Local Government and Communities, Carl Sargeant, to increase the profile of the services offered by local credit unions?

The First Minister: As you know, north Wales credit unions have received support, and, as a Government, we have provided financial support for credit unions over the course of the last few years to enable them to develop, especially in these difficult times for so many individuals and families.

Llyr Huws Gruffydd: Brif Weinidog, byddwch yn gwybod mai'r dafarn leol yn aml iawn yw'r ganolfan gymunedol olaf mewn nifer o'n cymunedau trefol a gwledig yng ngogledd Cymru a thu hwnt. Beth mae eich Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau hyfywedd y tafarnau hynny, yn enwedig lle mai'r dafarn yw'r ganolfan gymunedol olaf yn y gymuned?

The First Minister: I see no evidence to support the Member's argument. However, I do see evidence on, for example, the mess that was made over feed-in tariffs and the subsequent court action, which has done so much to jeopardise the use of solar panels on houses. It is also right to say that, when it comes to energy, one competitive disadvantage that we have is the refusal of the UK Government to devolve renewables obligation certificates to Wales in the same way as in Scotland and Northern Ireland. That means that, in Scotland, subsidies are higher for marine energy than they are in Wales. That is costing us jobs and money, and the UK Government must change its mind.

Aled Roberts: Brif Weinidog, mae polisi ynni'r Deyrnas Gyfunol yn dibynnu ar y gallu i gynyddu'n sylweddol ganran yr ynni a gynhyrchir o ffynonellau adnewyddadwy. Mae Llywodraeth yr Alban wedi dynodi y bydd 100% o drydan yr Alban yn dod o'r ffynonellau hynny erbyn 2020, ac mae Llywodraeth Gogledd Iwerddon wedi dynodi y bydd 40% o drydan y wlad honno'n dod o'r ffynonellau hynny erbyn 2020. Fodd bynnag, y cwbl mae eich Llywodraeth chi yn ei ddweud yw eich bod yn gobeithio dyblu'r ganran erbyn 2025. Onid yw'n bryd i ni, fel sefydliad, gael targed penodol i anelu tuag ato?

Y Prif Weinidog: Mae'r Aelod yn gwneud fy mhwynt ar fy rhan. Mae gan Lywodraethau'r Alban a Gogledd Iwerddon lawer fwy o bwerau nag sydd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy, ac ynni yn gyffredinol. Gwn fod sawl Aelod o sawl plaid yn y Siambr hon wedi cefnogi'r alwad am ragor o bwerau ynni i Gymru, er mwyn sicrhau bod gan bobl Cymru reolaeth dros eu hadnoddau. Mae'n

datblygiadau a ganiateir mewn eiddo annomestig? Hefyd, o gofio bod eich Llywodraeth wedi ymgynghori ym mis Ebrill 2010 ar gyflwyno'r newidiadau angenrheidiol, a wnewch chi gadarnhau pryd y bydd offeryn statudol yn cael ei gyflwyno? Am ba hyd eto y mae'n rhaid i fusnesau Cymru fod o dan anfantais yn gystadleuol o'u cymharu â'r rhai sydd dros y ffin?

Y Prif Weinidog: Ni welaf unrhyw dystiolaeth i gefnogi dadl yr Aelod. Fodd bynnag, rwyf yn gweld dystiolaeth, er enghraifft, o'r llanast a wnaed ynghylch tariffau bwydo i mewn a'r achos llys a'i dilynodd, sydd wedi gwneud cymaint i beryglu'r defnydd o baneli solar ar dai. Mae hefyd yn iawn dweud ynghylch ynni mai un anfantais gystadleuol sydd gennym yw'r ffaith bod Llywodraeth y DU yn gwrthod datganoli tystysgrifau ymrwymiad i ynni adnewyddadwy i Gymru fel y gwnaethpwyd i'r Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hynny'n golygu bod cymorthdaliadau yn uwch yn yr Alban ar gyfer ynni morol nag y maent yng Nghymru. Mae hynny'n costio swyddi ac arian i ni, ac mae'n rhaid i Lywodraeth y DU newid ei meddwl.

Aled Roberts: First Minister, the United Kingdom's energy policy is dependent on the ability to significantly increase the percentage of energy generated from renewable sources. The Scottish Government has said that 100% of Scotland's electricity will come from these sources by 2020, and the Government of Northern Ireland has said that 40% of its electricity will come from these sources by 2020. However, your Government has said only that it hopes to double the percentage by 2025. Is it not time for us, as an institution, to set a specific target for which to aim?

The First Minister: The Member makes my point for me. The Governments of Scotland and Northern Ireland have much more power than the Welsh Government in relation to renewable energy, and energy in general. I know that many Members from different parties in this Chamber have supported the demand for more powers over energy for Wales, in order to ensure that the people of Wales can control their own resources. It is

wir fod gan bobl yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon y reolaeth honno, ond nid yw hynny'n wir mewn perthynas â Chymru. Mae'n anodd pennu targedu heb gael y pwerau i sicrhau ein bod yn gallu eu cyrraedd.

true that the people of Scotland, England and Northern Ireland have that control, but the same is not true of the people of Wales. It is difficult to set a target without the powers to ensure that we achieve it.

Blaenoriaethau

Priorities

12. Russell George: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru. OAQ(4)0436(FM)*

12. Russell George: *Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's priorities for Mid and West Wales. OAQ(4)0436(FM)*

The First Minister: Yes. They are set out in the programme for government.

Y Prif Weinidog: Gwnaf. Maent wedi'u nodi yn y rhaglen lywodraethu.

Russell George: Two weeks ago, your Minister for Local Government and Communities said that he was a bit shocked that recent Welsh Government spending had been described as 'pet projects', yet your Minister for Business, Enterprise, Technology and Science has admitted that the Welsh Government has spent too heavily on pet projects in the past. The people of mid and west Wales would like to know who is right: your Minister for local government or your Minister for business?

Russell George: Bythefnos yn ôl, dywedodd eich Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau iddo gael ei synnu rywfaint fod gwariant diweddar Llywodraeth Cymru wedi cael ei ddisgrifio fel y '*pet projects*', ac eto cyfaddefodd eich Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth fod Llywodraeth Cymru wedi gwario gormod ar '*pet projects*' yn y gorffennol. Byddai'n dda gan bobl canolbarth a gorllewin Cymru wybod pwy sy'n gywir: eich Gweinidog dros lywodraeth leol neu'ch Gweinidog dros fusnes?

The First Minister: I would advise the Member to get the context right. Let us go through it again. The £38.9 million that we had as a consequential following a council tax freeze in England was spent on: a young recruits programme to provide financial support to eligible employers able to offer high-quality apprenticeships; Skills Growth Wales to build on the success of ProAct, supporting companies that plan to expand their workforce and require financial assistance to make it possible; capital investment in schools to ensure that schools are fit for purpose in the future; the Ely Mill housing project; Arbed; social housing, so that an additional 130 homes can be built; and enterprise zones, which the party opposite has been calling for for weeks on end. They have said, 'Let's have investment in enterprise zones'; yet, according to them, enterprise zones are apparently a pet project. The reality is that these are all policies that will help people to secure jobs, have a roof over their heads and heat their homes in the winter, yet these are all projects that the party

Y Prif Weinidog: Byddwn yn cynghori'r Aelod i gael y cyd-destun yn gywir. Gadewch i ni fynd drwy hyn eto. Gwariwyd y £38.9 miliwn a gawsom fel swm canlyniadol yn dilyn rhewi'r dreth gyngor yn Lloegr ar: raglen recriwtio i bobl ifanc i ddarparu cymorth ariannol i gyflogwyr cymwys sy'n gallu cynnig prentisiaethau o safon uchel; Twf Sgiliau Cymru i adeiladu ar lwyddiant ProAct, sy'n cefnogi cwmnïau sy'n bwriadu ehangu eu gweithlu ac sydd angen cymorth ariannol i wneud hynny; buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion i sicrhau bod ysgolion yn addas at y diben yn y dyfodol; prosiect tai Melin Trelái; Arbed; tai cymdeithasol, fel y gellir adeiladu 130 o gartrefi ychwanegol, ac ardaloedd menter, y bu'r blaidd gyferbyn yn galw amdanynt ers wythnosau. Maent wedi dweud, 'Gadewch i ni fuddsoddi mewn ardaloedd menter'; ac eto, yn eu tyb hwy, '*pet project*' yw ardaloedd menter. Y gwir amdani yw bod y rhain oll yn bolisiau a fydd yn helpu pobl i gael swyddi, i gael tô uwch eu pennau ac i wresogi eu cartrefi yn y gaeaf, ac eto mae'r rhain i gyd yn cael eu hystyried

opposite thinks are pet projects. The people of Wales will judge them on that.

Simon Thomas: Mae'ch Llywodraeth chi, fel y Llywodraeth flaenorol o dan Ieuan Wyn Jones, wedi buddsoddi'n helaeth ar wella'r rheilffyrdd yn y canolbarth a'r gorllewin, yn arbennig ar y rheilffordd o Aberystwyth i Amwythig, gyda'r nod o sicrhau gwasanaethau bob awr. Mae hynny wedi costio rhyw £15 miliwn i'r Llywodraeth—mae'n fuddsoddiad mae pobl y canolbarth yn ei groesawu. Eto, nid ydym wedi gweld y gwasanaethau bob awr hyd yma. A oes modd ichi roi dyddiad ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth hwnnw?

Y Prif Weinidog: Mae hwn yn dod o dan y cynllun trafniadaeth cenedlaethol. Rydym yn edrych yn fanwl ar hyn o bryd i sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu dechrau cyn gynted ag y bo modd, gan gofio'r sefyllfa ariannol.

William Powell: Returning to the theme of rail infrastructure, and in the context of the Minister for transport's evidence session before the Environment and Sustainability Committee last week on freight transportation, with particular regard to energy paraphernalia and infrastructure, do you share the view that he expressed, that the heart of Wales line could provide the opportunity for significant upgrades that would enable a convenient route to be established between south-west and north-east Wales with relatively low investment and a potentially high payback?

The First Minister: The heart of Wales line does have potential, in my view. It has been used over the years as a relief line for products going north from the steelworks in Port Talbot. We therefore know that it is able to carry trains of a particular size. If there is a market for increased freight on the heart of Wales line, we will be more than happy to see what we can do to support the growth of the market.

Blaenoriaethau Polisi

13. Nick Ramsay: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Mynwy dros y deuddeg mis*

fel '*pet projects*' gan y blaid gyferbyn. Bydd pobl Cymru yn eu barnu ar hynny.

Simon Thomas: Your Government, like the previous Government under Ieuan Wyn Jones, has invested heavily in improving the railways in mid and west Wales, especially the railway from Aberystwyth to Shrewsbury, with the aim of securing an hourly service. That has cost the Government some £15 million—it is an investment that the people of mid Wales welcome. However, we are yet to see an hourly service. Can you give us a date for the introduction of this service?

The First Minister: This comes under the national transport plan. We are currently looking in detail at ensuring that the service can start as soon as possible, bearing in mind the financial situation.

William Powell: Gan ddychwelyd at thema seilwaith rheilffyrdd, ac yng nghyd-destun sesiwn dystiolaeth y Gweinidog dros gludiant yn y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yr wythnos diwethaf ar gludo nwyddau, gan roi sylw arbennig i offer a seilwaith ynni, a ydych yn rhannu'r farn a fynegwyd ganddo, sef y gallai rheilffordd Calon Cymru gynnig cyfle i uwchraddio'n sylweddol a fyddai'n galluogi sefydlu llwybr cyfleus rhwng de-orllewin a gogledd-ddwyrain Cymru, gyda buddsoddiad cymharol isel a allai dalu ar ei ganfed?

Y Prif Weinidog: Mae gan linell Calon Cymru botensial, yn fy marn i. Cafodd ei defnyddio dros y blynyddoedd fel llinell ryddhad ar gyfer cynnyrch yn mynd i'r gogledd o'r gwaith dur ym Mhort Talbot. Gwyddom, felly, ei bod yn gallu cludo trenau o faint penodol. Os oes marchnad ar gyfer cynyddu'r trenau nwyddau ar reilffordd Calon Cymru, byddem yn fwy na pharod i weld beth allem ei wneud i gefnogi twf y farchnad.

Policy Priorities

13. Nick Ramsay: *Will the First Minister outline the Welsh Government's policy priorities for Monmouth for the next twelve*

nesaf. OAQ(4)0429(FM)

The First Minister: Yes: they are to be found in the programme for government.

Nick Ramsay: Thank you for that answer, First Minister. Can you identify one area in which your Government's delivery unit has provided concrete help to the people of my constituency since May?

The First Minister: Yes, it has provided them with police community support officers, and it has provided young people with the chance to enter the Welsh jobs fund. It will provide people with the opportunity to enter Flying Start, and it will provide the over-50s with health checks. It will ensure that people are able to see a GP at evenings and weekends. I could go on, but I think that that is enough, and the people of Monmouth will appreciate that.

Cam-Drin Domestig

14. Kirsty Williams: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gefnogaeth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i ddioddefwyr cam-drin domestig. OAQ(4)0435(FM)*

The First Minister: We have provided total funding of £5.2 million to violence against women and domestic abuse services in 2011-12, and decisions on funding allocations for the coming financial year will be taken shortly.

Kirsty Williams: Thank you for that answer, First Minister. With that allocation to those organisations, is it your belief that they should be able to help those women and their children who are fleeing violence with transport costs? There are a number of cases in my constituency of women who have sought refuge a considerable distance from their home, but have been unable to do so because of a lack of resources simply to move them and their families. Will you have a look at this particular problem to see whether Government funding can be used to assist women in this way?

The First Minister: Yes, I will. I realise how important it is to put distance between

months. OAQ(4)0429(FM)

Y Prif Weinidog: Gwnaf: maent i'w gweld yn y rhaglen lywodraethu.

Nick Ramsay: Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Allwch chi enwi un maes lle mae uned gyflwyno eich Llywodraeth wedi darparu cymorth o sylwedd i'r bobl yn fy etholaeth ers mis Mai?

Y Prif Weinidog: Mae wedi rhoi swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu iddynt, a chyfle i bobl ifanc ymuno â chronfa swyddi Cymru. Bydd yn rhoi cyfle i bobl ymuno â Dechrau'n Deg, a bydd yn darparu gwiriadau iechyd i bobl dros 50 oed. Bydd yn sicrhau bod pobl yn gallu gweld meddyg teulu gyda'r nos ac ar benwythnosau. Gallwn fynd ymlaen, ond rwyf yn meddwl bod hynny'n ddigon, ac y bydd pobl Mynwy yn gwerthfawrogi hynny.

Domestic Abuse

14. Kirsty Williams: *Will the First Minister outline what support is available from the Welsh Government to victims of domestic abuse. OAQ(4)0435(FM)*

Y Prif Weinidog: Rydym wedi darparu cyfanswm o £5.2 miliwn ar gyfer gwasanaethau i atal trais yn erbyn menywod a cham-drin yn y cartref yn 2011-12, a bydd penderfyniadau ar ddyraniadau cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn cael eu gwneud cyn bo hir.

Kirsty Williams: Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. O ran y dyraniad hwnnw i'r sefydliadau hynny, a ydych o'r farn y dylent fod yn gallu helpu'r menywod hynny a'u plant sy'n ffoi rhag trais i dalu costau cludiant? Mae nifer o achosion yn fy etholaeth o fenywod sydd wedi ceisio lloches gryn bellter o'u cartref, ond wedi methu â gwneud hynny oherwydd diffyg arian i'w symud hwy a'u teuluoedd. A wnewch chi edrych ar y broblem arbennig hon i weld a ellir defnyddio cyllid Llywodraeth i helpu menywod yn y ffordd hon?

Y Prif Weinidog: Gwnaf. Rwyf yn sylweddoli pa mor bwysig yw rhoi pellter

women and an abusive partner. It is important in creating a sense of security for women and for their children. So, I will look at that and I will write to you with further information.

William Graham: First Minister, will you join me in welcoming the Church in Wales initiative to liaise with Welsh Women's Aid, Mind Cymru and the Mothers' Union Cymru to consider the issue of domestic violence? It is clearly vital that we have a united message that women and, in some cases, men can come forward knowing that they will be taken seriously and given the support that they need whenever they experience domestic violence.

The First Minister: Yes, I would support that initiative. Certainly, I would expect it to provide an excellent service for many people in the years to come.

Jocelyn Davies: First Minister, I am sure that you will be aware of the case of the woman from Powys who was jailed for withdrawing her allegation of rape because the retraction was false. Ironically, she was found guilty of charges, while the case against the rapist was dropped. I am pleased that her sentence has now been reduced, but this victim received no compassion or understanding from the criminal justice system. Will you have discussions with our police forces so that victims of domestic abuse are afforded some protection from coercion and pressure while cases are being pursued against perpetrators?

The First Minister: Yes. I will raise the issue with the chief constables and write to the Member with a response.

Prosiectau Ynni Cynaliadwy

15. Leanne Wood: *Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael yn ddiweddar gyda Llywodraeth y DU i ddatganoli mwy o bŵer dros brosiectau ynni cynaliadwy i Gymru. OAQ(4)0439(FM)*

The First Minister: I hold regular discussions with the UK Government about energy, and I repeated my call for further

rhwng menywod a phartneriaid treisgar. Mae'n bwysig creu ymdeimlad o ddiogelwch i ferched a'u plant. Felly, byddaf yn edrych ar hynny ac yn ysgrifennu atoch gyda rhagor o wybodaeth.

William Graham: Brif Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i groesawu menter yr Eglwys yng Nghymru i gysylltu â Mind Cymru ac Undeb y Mamau Cymru i ystyried trais yn y cartref? Mae'n amlwg yn hollbwysig bod gennym neges unedig bod merched ac, mewn rhai achosion, dynion yn gallu gofyn am gymorth gan wybod y byddant yn cael eu cymryd o ddifrif ac yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt pryd bynnag y maent yn profi trais yn y cartref.

Y Prif Weinidog: Byddwn yn cefnogi'r fenter honno. Yn sicr, byddwn yn disgwyl iddi ddarparu gwasanaeth ardderchog i nifer o bobl yn y blynyddoedd i ddod.

Jocelyn Davies: Brif Weinidog, rwyf yn siŵr y byddwch yn ymwybodol o achos y wraig o Bowys a garcharwyd am dynnu honiad o drais rhywiol yn ôl gan fod y gwrthdynciad hwnnw'n ffug. Yn eironig, fe'i cafwyd yn euog o'r cyhuddiadau, tra gollyngwyd yr achos yn erbyn y treisiwr. Rwyf yn falch bod ei dedfryd bellach wedi ei ostwng, ond ni chafodd y fenyw hon unrhyw dosturi na dealltwriaeth gan y system cyfiawnder troseddol. A wnewch chi drafod gyda'n heddluoedd er mwyn cynnig rhywfaint o ddiogelwch i'r rhai sy'n dioddef cam-drin domestig rhag cael eu gorfodi a chael eu rhoi o dan bwysau tra bod achosion yn cael eu dwyn yn erbyn tramgwyddwyr?

Y Prif Weinidog: Gwnaf. Byddaf yn codi'r mater gyda'r prif gwnstabiliaid ac yn ysgrifennu at yr Aelod gydag ateb.

Sustainable Energy Projects

15. Leanne Wood: *What recent discussions has the First Minister had with the UK Government to devolve more power over sustainable energy projects to Wales? OAQ(4)0439(FM)*

Y Prif Weinidog: Rwyf yn cael trafodaethau rheolaidd gyda Llywodraeth y DU am ynni, ac ailadroddais fy ngalwad i ddatganoli

devolution of powers most recently at the joint ministerial committee meeting last month.

Leanne Wood: A fortnight ago I asked you a similar question to this and you misinterpreted it by giving me an answer relating to nuclear power. Therefore, for the avoidance of any doubt, let me state clearly that this is not a question about nuclear power. Will you confirm that you have limited yourself to asking for the devolution of responsibility for energy projects up to 100 MW? Will you explain why you have placed such a limit on your request, given that, in terms of offshore wind projects, 100 MW is not going to come close to the energy-generation capacity of the largest projects planned? For example, Gwynt y Môr, which is currently under construction, is for 576 MW. First Minister, will you revise your request and raise your ambition for Wales?

The First Minister: The figure of 100 MW was chosen because it is the figure at which responsibility for determining offshore application moves from the Marine Management Organisation to the Infrastructure Planning Commission. That was chosen because it was felt to be a reasonable figure and, therefore, a reasonable request to be put to the UK Government. As the UK Government has not responded positively to that reasonable request, I do not see why 100 MW should be the limit in the future.

Russell George: First Minister, many organisations and businesses in the energy industry have said that, irrespective of which tier of Government makes a decision, it is about whether the issue is taken seriously, leadership is shown and a decision is made. Investor confidence is not about where the power lies but about certainty and consistency. Do you agree with that view?

The First Minister: Yes, consistency is important. I think that speed is important, while taking into account the views of the public. That is true. Speed and consistency are not helped if there is confusion as to who

rhagor o bwerau yn fwyaf diweddar yng nghyfarfod y cydbwyllgor gweinidogol y mis diwethaf.

Leanne Wood: Bythefnos yn ôl, gofynnais gwestiwn tebyg i chi am hyn, a gwnaethoch ei gamddehongli drwy roi ateb i mi am ynni niwclear. Felly, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, gadewch i mi ddatgan yn glir nad yw hwn yn gwestiwn am ynni niwclear. A wnewch chi gadarnhau eich bod wedi cyfyngu eich hun i ofyn am ddatganoli cyfrifoldeb am brosiectau ynni hyd at 100 MW? A wnewch chi esbonio pam rydych wedi gosod y fath gyfyngiad ar eich cais o ystyried, o ran prosiectau gwynt ar y môr, na ddaw 100 MW yn agos at gapasiti cynhyrchu ynni y prosiectau mwyaf sydd ar y gweill? Er enghraifft, capasiti Gwynt y Môr, sydd wrthi'n cael ei adeiladu, yw 576 MW. Brif Weinidog, a wnewch chi adolygu eich galwad ac ehangu eich uchelgais i Gymru?

Y Prif Weinidog: Dewiswyd y ffigur o 100 MW oherwydd hwn yw'r ffigur lle mae'r cyfrifoldeb dros wneud penderfyniad ar gais ar y môr yn cael ei drosglwyddo o'r Sefydliad Rheolaeth Forol i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith. Cafodd ei ddewis oherwydd teimlwyd ei fod yn ffigur rhesymol a'i fod felly yn gais rhesymol i'w wneud i Lywodraeth y DU. Gan nad yw Llywodraeth y DU wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cais rhesymol hwnnw, ni welaf pam mai 100 MW ddylai fod y terfyn yn y dyfodol.

Russell George: Brif Weinidog, mae nifer o sefydliadau a busnesau yn y diwydiant ynni wedi dweud, waeth pa haen o Lywodraeth sy'n gwneud penderfyniad, ei fod yn ymwneud â pha un a yw'r mater yn cael ei gymryd o ddifrif, bod arweinyddiaeth yn cael ei dangos a bod penderfyniad yn cael ei wneud. Nid yw hyder buddsoddwyr yn ymwneud â lle mae'r pŵer yn gorwedd; mae'n ymwneud yn hytrach â sicrwydd a chysondeb. A ydych yn cytuno â'r farn honno?

Y Prif Weinidog: Ydy, mae cysondeb yn bwysig. Credaf fod gweithredu'n gyflym yn bwysig, gan ystyried barn y cyhoedd. Mae hynny'n wir. Nid yw gweithredu'n gyflym ac yn gyson yn cael eu helpu os oes dryswch

is responsible for giving planning permission in some circumstances but not in others.

ynghylch pwy sy'n gyfrifol am roi caniatâd cynllunio o dan rai amgylchiadau, ond nid o dan amgylchiadau eraill.

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement

The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt): There is one change to report to this week's planned business. Later this afternoon, the Minister for Environment and Sustainable Development will make a statement on a programme for eradicating bovine tuberculosis in Wales. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt): Mae un newid i'w hysbysu i fusnes arfaethedig yr wythnos hon. Yn ddiweddarach y prynhawn yma, bydd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn gwneud datganiad am y rhaglen i ddileu twbercwlosis buchol yng Nghymru. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y nodwyd yn y datganiad a'r cyhoeddiad busnes, sydd ymhlith y papurau agenda sydd ar gael i Aelodau yn electronig.

Andrew R.T. Davies: Leader of the House, can we have a statement from the Minister for Health and Social Services in relation to the all-Wales patient individual funding review that is currently ongoing? Representations have been made to me regarding concerns about the engagement of that review with external stakeholders, and the narrowness of its terms of reference. I would be grateful if the Minister for health could provide a written statement or a letter to Members confirming the guidance that has been given to the review, so that we can have confidence that it will be looking at all aspects of individual patient applications for funding for medicines.

Andrew R.T. Davies: Arweinydd y Tŷ, a allwn gael datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am yr adolygiad o'r polisi Cymru gyfan ar gyfer cyllido cleifion unigol sy'n mynd rhagddo ar y funud? Mynegwyd pryderon i mi ynghylch cynnwys rhanddeiliaid allanol yn yr adolygiad hwnnw, a chulni ei gylch gorchwyl. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog dros iechyd ddarparu datganiad ysgrifenedig neu lythyr i'r Aelodau yn cadarnhau'r canllawiau a roddwyd i'r adolygiad, fel y gallwn fod yn hyderus y bydd yn edrych ar bob agwedd ar geisiadau cleifion unigol am gyllid ar gyfer meddyginiaethau.

Jane Hutt: I thank the leader of the opposition for that question. I am sure that the Minister for Health and Social Services will want to ensure that there is full transparency about the patient individual funding review.

Jane Hutt: Diolch yn fawr i arweinydd yr wrthblaid am y cwestiwn hwnnw. Rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am sicrhau bod tryloywder llawn o ran yr adolygiad ar ariannu cleifion unigol.

Mick Antoniw: Will you consider arranging a statement on the current state of play on negotiations with the UK Government regarding devolution in relation to Remploy?

Mick Antoniw: A wnewch chi ystyried trefnu datganiad ar y sefyllfa bresennol o ran y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch datganoli mewn perthynas â Remploy?

2.30 p.m.

Jane Hutt: Thank you to the Member for Pontypridd for that question, which relates to

Jane Hutt: Diolch yn fawr i'r Aelod dros Bontypridd am y cwestiwn hwnnw, sy'n

an issue that is of real concern across the Chamber. The Welsh Minister for Education and Skills, as I am sure Members are aware, met Maria Miller, the Parliamentary Under-Secretary of State for Disabled People, last week to discuss the impact of the UK Government's decision to close the majority of Remploy factories across the UK, including seven out of nine factories in Wales. He has made the continued opposition of the Welsh Government to factory closures clear, especially at a time when the labour market is affected by ongoing economic challenges. The Minister has made a statement about that. He is working with a range of stakeholders to develop a more progressive, productive approach to this matter in Wales. Our priority, wherever possible, is to retain employment for disabled people in Wales. There are stark parameters to work within, and we welcome any constructive input that may support Remploy workers in Wales. I would also like to thank Mick Antoniw for hosting the excellent exhibition in the Senedd last week, to which Remploy factory workers came along, backed by the Wales TUC and Members.

Bethan Jenkins: I will talk about the same issue. We all received information from the unions last week that the figures upon which the Minister was basing her analysis were not correct and were out of date. As the unions see it, closing the factories would cost £39 million a year in benefits. Could we have a debate because new information is coming to light on a regular basis? It would help if Assembly Members could be brought up-to-date with what is happening.

Jane Hutt: We are waiting for details of the UK Government's promised offer of support to Remploy workers affected by its decisions to close factories. We are working very closely with the trade unions on the matter.

Aled Roberts: Minister, will the Minister for education make a statement on the challenge that the Government faces in relation to school improvement? Last week, we were told that he would consider restructuring

ymwneud â mater sy'n peri pryder go iawn ar draws y Siambr. Fel yr wyf yn siŵr y bydd yr Aelodau'n gwybod, cyfarfu Gweinidog Addysg a Sgiliau Cymru â Maria Miller, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Bobl Anabl, yr wythnos diwethaf i drafod effaith penderfyniad Llywodraeth y DU i gau'r rhan fwyaf o ffatrioedd Remploy ar draws y DU, gan gynnwys saith o naw ffatri yng Nghymru. Mae wedi gwneud gwrthwynebiad parhaus Llywodraeth Cymru i gau'r ffatrioedd yn glir, yn enwedig ar adeg pan fo'r farchnad lafur yn cael ei heffeithio arni gan heriau economaidd parhaus. Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â hynny. Mae'n gweithio gydag amryw o randdeiliaid i ddatblygu ymagwedd fwy blaengar a chynhyrchiol i'r mater hwn yng Nghymru. Ein blaenoriaeth, lle bynnag y bo'n bosibl, yw cadw swyddi i bobl anabl yng Nghymru. Mae'n rhaid gweithio o fewn paramedrau llwm, ac rydym yn croesawu unrhyw fewnbwn adeiladol a allai gynorthwyo gweithwyr Remploy yng Nghymru. Hoffwn hefyd ddiolch i Mick Antoniw am gynnal yr arddangosfa ardderchog yn y Senedd yr wythnos diwethaf, y daeth gweithwyr ffatri Remploy iddi, ac a gefnogwyd gan TUC Cymru ac Aelodau.

Bethan Jenkins: Rwyf am siarad am yr un mater. Cawsom i gyd wybodaeth gan yr undebau yr wythnos diwethaf nad oedd y ffigurau roedd y Gweinidog yn seilio ei dadansoddiad arnynt yn gywir a chyfredol. Yn ôl yr undebau, byddai cau'r ffatrioedd yn costio £39 miliwn y flwyddyn mewn budd-daliadau. A allem gael dadl gan fod gwybodaeth newydd yn dod i'r golwg yn rheolaidd? Byddai o gymorth pe gallai Aelodau'r Cynulliad gael y wybodaeth ddiweddaraf am beth sy'n digwydd.

Jane Hutt: Rydym yn aros i gael manylion am addewid Llywodraeth y DU i gynnig cefnogaeth i weithwyr Remploy yr effeithwyd arnynt gan ei phenderfyniadau i gau ffatrioedd. Rydym yn cydweithio'n agos iawn â'r undebau llafur ar y mater.

Aled Roberts: Weinidog, a wnaiff y Gweinidog dros addysg ddatganiad am yr her y mae'r Llywodraeth yn ei hwynebu o ran gwella ysgolion? Yr wythnos diwethaf, dywedwyd wrthym y byddai'n ystyried

local education authorities if there were no improvements six months into the work of the regional consortia, but we were also told that no improvement was expected until the 2015 Programme for International Student Assessment results. Educational standards are a matter of great concern within the Chamber, and I invite the Minister for education to outline exactly what the route along the road to improvement will be.

Jane Hutt: I am sure that Aled Roberts would agree that this afternoon's debate on the Estyn report, to be led by the Minister, will provide an opportunity to debate these issues.

Darren Millar: I want to touch again on the individual patient funding request issue. Could we have a statement from the Minister for Health and Social Services, particularly in relation to the skin cancer drugs Zelboraf and Ipilimumab? I think that I pronounced them correctly. These drugs are available as a result of the cancer drugs fund, which is operating in other parts of the United Kingdom. Here in Wales, unfortunately, an individual in my constituency has not been able to access one of these drugs, even though his clinician has told him clearly that it would extend his life and improve his quality of life. Could we have a specific statement on the availability of those two drugs, given that they are available elsewhere?

Jane Hutt: This is an issue upon which the Minister has already reported back to the committee. We have a robust way of assessing the clinical effectiveness of cancer drugs in Wales. It is a well-tested and clinically supported policy, and I have already responded to the leader of the opposition on that matter.

ailstrwythuro awdurdodau addysg lleol pe na bai unrhyw welliannau ar ôl chwe mis o waith y consortia rhanbarthol, ond dywedwyd wrthym hefyd nad oedd disgwyl y byddai unrhyw welliant nes canlyniadau PISA yn 2015. Mae safonau addysgol yn destun pryder mawr yn y Siambr, ac rwyf yn gwahodd y Gweinidog dros addysg i amlinellu'n union beth fydd y llwybr y bydd y ffordd tuag at welliant yn ei ddilyn.

Jane Hutt: Rwy'n siŵr y byddai Aled Roberts yn cytuno y bydd y ddadl y prynhawn yma ar adroddiad Estyn, a fydd yn cael ei harwain gan y Gweinidog, yn rhoi cyfle i drafod y materion hyn.

Darren Millar: Rwyf am gyffwrdd eto ar geisiadau cyllido cleifion unigol. A allem gael datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â chyffuriau canser y croen Zelboraf a Ipilimumab? Credaf fy mod wedi eu hynganu'n gywir. Mae'r cyffuriau hyn ar gael o ganlyniad i'r gronfa cyffuriau canser, sydd ar waith mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Yng Nghymru, yn anffodus, nid yw unigolyn yn fy etholaeth wedi gallu cael gafael ar un o'r cyffuriau hyn, er bod ei feddyg wedi dweud wrtho yn glir y byddai'n ymestyn ei oes ac yn gwella ansawdd ei fywyd. A allem gael datganiad penodol ar argaeledd y ddau gyffur hynny, o gofio eu bod ar gael mewn mannau eraill?

Jane Hutt: Mae hwn yn fater y mae'r Gweinidog eisoes wedi adrodd yn ôl arno i'r pwyllgor. Mae gennym ffordd gadarn o asesu effeithiolrwydd clinigol cyffuriau canser yng Nghymru. Mae'n bolisi a roddwyd ar brawf sawl gwaith ac mae cefnogaeth glinigol iddo, ac rwyf eisoes wedi ymateb i arweinydd yr wrthblaid ar y mater hwnnw.

Datganiad: Rhaglen Dileu Twbercwlosis Buchol yng Nghymru Statement: A Programme for Eradicating Bovine Tuberculosis in Wales

The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths): Bovine tuberculosis has a significant financial and social impact on farmers and the wider community in Wales. I have visited and spoken to a number of cattle-farming

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths): Mae twbercwlosis buchol yn cael effaith ariannol a chymdeithasol sylweddol ar ffermwyr a'r gymuned ehangach yng Nghymru. Rwyf wedi ymweld ac wedi siarad â nifer o

families across Wales. I know from listening just how difficult it is and how the consequences can be devastating.

At any one time, 10% of herds in Wales are under TB restrictions, with areas such as the intensive action area in north Pembrokeshire being particularly badly affected. The costs to industry and Government are substantial. Last year alone, the Welsh Government paid out just over £12 million in compensation for cattle slaughtered. We have a Government commitment to take a science-led approach to tackling this serious disease, and I am personally committed to the eradication of bovine TB in Wales.

In line with this commitment, last summer I commissioned a review of the evidence base regarding the eradication of bovine TB in Wales. This was overseen by the chief scientific adviser, Professor John Harries. I would like to express my thanks to John, together with the chair of the panel, Professor Chris Gaskell, and the other members, for this important work. The report, together with a considerable amount of work led by my chief veterinary officer, has led to this strategic framework for bovine TB eradication covering the next four years.

The strategy acknowledges that, in building on the cattle control and biosecurity measures, we must deal with all sources of bovine TB, including wildlife, if we are going to achieve our goal of eradicating this debilitating disease within the intensive action area and in Wales. For this reason, I have considered a range of options, including whether culling or vaccination of badgers is appropriate. After careful consideration I have decided to pursue a badger vaccination project. I have asked my chief veterinary officer to design the project to begin in the intensive action area this summer and continue for five years. I have also asked her to consider other geographical areas where vaccination could contribute to TB eradication. My intention is that the projects are developed to ensure that the potential effect can be monitored with a view to assessing impact.

deuluoedd sy'n ffermio gwartheg ledled Cymru. Rwy'n gwybod o wrando arnynt ba mor anodd yw, a bod y canlyniadau'n gallu bod yn ddinistriol.

Ar unrhyw adeg, mae 10% o fuchesi yng Nghymru o dan gyfyngiadau TB, ac mae ardaloedd fel yr ardal gweithredu dwys yng ngogledd sir Benfro yn cael eu heffeithio arnynt yn arbennig o ddrwg. Mae'r costau i'r diwydiant a'r Llywodraeth yn sylweddol. Y llynedd yn unig, talodd Llywodraeth Cymru ychydig dros £12 miliwn mewn iawndal am wartheg a laddwyd. Mae ymrwymiad gan y Llywodraeth i fabwysiadu ymagwedd a arweinir gan wyddoniaeth i fynd i'r afael â'r clefyd difrifol hwn, ac rwyf wedi ymrwymo'n bersonol i ddileu TB buchol yng Nghymru.

Yn unol â'r ymrwymiad hwn, yr haf diwethaf comisiynais adolygiad o'r sail dystiolaeth ynglŷn â dileu TB buchol yng Nghymru. Goruchwyliwyd hyn gan y prif gynghorydd gwyddonol, yr Athro John Harries. Hoffwn ddiolch i John, ynghyd â chadeirydd y panel, yr Athro Chris Gaskell, a'r aelodau eraill, am y gwaith pwysig hwn. Mae'r adroddiad, ynghyd â gwaith sylweddol a arweiniwyd gan fy mhrif swyddog milfeddygol, wedi arwain at y fframwaith strategol hwn ar gyfer dileu TB buchol, sy'n cwmpasu'r pedair blynedd nesaf.

Mae'r strategaeth yn cydnabod bod yn rhaid inni, wrth ddatblygu ar sail y mesurau rheoli gwartheg a'r mesurau bioddiogelwch, ymdrin â phob ffynhonell o TB buchol, gan gynnwys bywyd gwyllt, os ydym am gyrraedd ein nod o ddileu'r clefyd gwanychol hwn o fewn yr ardal gweithredu dwys ac yng Nghymru. Am y rheswm hwn, rwyf wedi ystyried amryw o opsiynau, gan gynnwys ystyried a yw difa neu frechu moch daear yn briodol. Ar ôl ystyried yn ofalus, rwyf wedi penderfynu mynd ar drywydd prosiect brechu moch daear. Gofynnais i'm prif swyddog milfeddygol gynllunio'r prosiect fel y bydd yn dechrau yn yr ardal gweithredu dwys yn ystod yr haf ac yn parhau am bum mlynedd. Gofynnais iddi hefyd ystyried ardaloedd daeryddol eraill lle gallai brechu gyfrannu at ddileu TB. Fy mwriad yw bod y prosiectau'n cael eu datblygu i sicrhau y gellir monitro'r canlyniadau posibl, gyda'r bwriad o asesu'r

effaith.

Dirprwy Lywydd, this has been a difficult decision to take and, in making it, I have considered the likely benefits that culling or vaccination could have. Any decision to cull would need to be justified on the basis that it would be necessary to eliminate or substantially reduce the incidence of bovine TB in cattle. In determining this matter, I have considered the evidence provided to me, including scientific and legal advice. I have noted the advice on the potential benefits that might be obtained from vaccination or culling. My conclusion is that I am not at present satisfied that a cull of badgers would be necessary to bring about a substantial reduction in the incidence of bovine TB in cattle. In which case, I cannot authorise a cull under the Animal Health Act 1981.

The fact that I intend to authorise vaccination at present does not, and will not, preclude me from considering whatever further or new options may be appropriate and available at any time. In taking the programme forward we will continue to work with the agriculture industry, wider rural communities, the veterinary profession, eradication boards, and the industry advisory group in the intensive action area. These all have an important role in the eradication of bovine TB in Wales.

Our new strategic framework describes our comprehensive approach, which has been approved by the European Union as part of the UK TB eradication plan, as being necessary to achieve eradication. Proposed policy changes include improvement in the management of long-running and persistent TB herd breakdowns; the piloting of an audit of TB testing carried out by official veterinarians in Wales; a voluntary scheme to see how bovine TB breakdown data may be made available to neighbouring farms; and the establishment of an advisory service that will provide a full range of business and personal support to farmers affected by TB. All of these measures are aimed at ensuring that we continue to take a robust and consistent approach in dealing with this epidemic.

TB eradication is a long-term commitment

Ddirprwy Lywydd, bu hwn yn benderfyniad anodd ei wneud, ac wrth ei wneud, rwyf wedi ystyried y manteision y byddai brechu neu ddifa yn debygol o'u creu. Byddai angen cyfiawnhau unrhyw benderfyniad i ddifa ar y sail bod gwneud hynny'n angenrheidiol er mwyn dileu neu leihau yn sylweddol yr achosion o TB buchol. Wrth benderfynu ar y mater hwn, rwyf wedi ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd i mi, gan gynnwys cyngor gwyddonol a chyfreithiol. Rwyf wedi nodi'r cyngor ar y manteision posibl a allai ddod yn sgîl brechu neu ddifa. Fy nghanngliad yw nad wyf yn fodlon ar hyn o bryd y byddai angen difa moch daear i sicrhau gostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion o TB buchol. Ni allaf felly awdurdodi difa o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

Nid yw'r ffaith fy mod yn bwriadu awdurdodi brechu ar hyn o bryd yn golygu na fyddaf yn ystyried pa opsiynau pellach neu opsiynau newydd allai fod yn briodol ac ar gael ar unrhyw adeg. Wrth fwrw ymlaen â'r rhaglen, byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant amaeth, cymunedau gwledig ehangach, y proffesiwn milfeddygol, byrddau dileu, a grŵp cynghori'r diwydiant yn yr ardal gweithredu dwys. Mae gan y rhain i gyd rôl bwysig yn y gwaith o ddileu TB buchol yng Nghymru.

Mae'n fframwaith strategol newydd yn nodi bod ein dull cynhwysfawr, a gymeradwywyd gan yr Undeb Ewropeaidd fel rhan o gynllun dileu TB y DU, yn angenrheidiol i gyflawni'r nod o ddileu. Mae'r newidiadau polisi arfaethedig yn cynnwys gwella'r gwaith o reoli TB hirhoedlog a pharhaus mewn buchesi; treialu archwiliad o brofion TB a gynhaliwyd gan filfeddygon swyddogol yng Nghymru; cynllun gwirfoddol i weld sut y gellir rhyddhau data am TB buchol i ffermydd cyfagos; a sefydlu gwasanaeth ymgynghorol a fydd yn darparu ystod lawn o gymorth busnes a phersonol i ffermwyr yr effeithiwyd arnynt gan TB. Anelir bob un o'r mesurau hyn at sicrhau ein bod yn parhau i ymdrin â'r epidemig hon mewn ffordd gadarn a chyson.

Mae dileu TB yn ymrwymiad tymor hir a

that will require the application of new technologies and scientific developments as they become available. For example, there are technical and legal reasons why cattle vaccination is not currently a viable option. However, in order to put Wales at the forefront, if it does become available, I have asked my chief veterinary officer to convene a working group of experts to prepare for a cattle vaccination strategy.

All involved in these matters are united in wanting to see this terrible disease eradicated as quickly as possible. Unfortunately, as the science review states, there are no easy or quick solutions. In order to take further steps to work towards eradication, it is crucial that Government and the farming industry continue to work together towards our shared aim. The steps that we are taking now are designed to make progress towards the ultimate goal of a TB-free Wales. That is the purpose of our renewed comprehensive strategy and vaccination programme.

Antoinette Sandbach: I thank the Minister for his statement. Bovine TB represents one of the most serious and long-standing threats to animal health in Wales. It is a disease that has devastated farm businesses and has taken a heavy toll on farmers and their families. Bovine TB is a disease for which Governments in this Assembly are uniquely responsible, but, under the watchful gaze of a succession of Ministers, the incidence of this disease, the numbers of cattle culled and the cost to the taxpayer have snowballed to their current levels, which are completely unsustainable.

I welcome your commitment to a scientific approach. Your scientific report clearly states, at point 6, there is an evidence-based consensus that there is an association between bovine TB infection in badgers and in cattle in areas where the infection occurs in both species. I welcome your indication that you are not ruling out a cull in the future. It is quite clear, at point 8, that there is a scientific consensus, based on expert opinion, that a reduction in the incidence of bovine TB cattle herd breakdowns associated with the culling of badgers within an area requires the fulfilment of a series of criteria, including a

fydd yn gofyn am ddefnyddio technolegau a datblygiadau gwyddonol newydd wrth iddynt gael eu cyflwyno. Er enghraifft, mae rhesymau technegol a chyfreithiol pam nad yw brechu gwartheg yn ddewis ymarferol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, er mwyn rhoi Cymru ar flaen y gad, os yw'n dod ar gael, gofynnais i'm prif swyddog milfeddygol gynnull gweithgor o arbenigwyr i baratoi ar gyfer strategaeth brechu gwartheg.

Mae pawb sy'n gysylltiedig â'r materion hyn yn unfryd yn eu hawydd i weld y clefyd dychrynlyd hwn yn cael ei ddileu cyn gynted ag y bo modd. Yn anffodus, fel y dywed yr adolygiad gwyddoniaeth, nid oes atebion hawdd na chyflym. Er mwyn cymryd camau pellach i weithio tuag at ei ddileu, mae'n hanfodol bod y Llywodraeth a'r diwydiant ffermio yn parhau i weithio gyda'i gilydd tuag at y nod a rannwn. Bwriad y camau yr ydym yn eu cymryd yn awr yw gwneud cynnydd at y nod yn y pen draw o greu Cymru heb TB. Dyna ddiben ein strategaeth gynhwysfawr newydd a'r rhaglen frechu.

Antoinette Sandbach: Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad. TB buchol yw un o'r bygythiadau mwyaf difrifol a hirhoedlog i ieuchyd anifeiliaid yng Nghymru. Mae'n glefyd sydd wedi difetha busnesau fferm ac sydd wedi cael effaith drom ar ffermwyr a'u teuluoedd. Mae TB buchol yn glefyd y mae Llywodraethau'r Cynulliad hwn yn unig yn gyfrifol amdano, ond, o dan olwg barcud cyfres o Weinidogion, mae nifer yr achosion o'r clefyd hwn, nifer y gwartheg a gafodd eu difa a'r gost i'r trethdalwr wedi cynyddu i'w lefelau cyfredol, sy'n hollol anghynaliadwy.

Croesawaf eich ymrwymiad i fabwysiadu ymagwedd wyddonol. Dywed eich adroddiad gwyddonol yn glir ym mhwynt 6 fod consensws sy'n seiliedig ar dystiolaeth bod cysylltiad rhwng haint TB buchol mewn moch daear a gwartheg mewn ardaloedd lle mae'r haint yn digwydd yn y ddwy rywogaeth. Croesawaf eich sylw nad ydych yn diystyru difa anifeiliaid yn y dyfodol. Mae'n eithaf amlwg ym mhwynt 8 fod consensws gwyddonol, sy'n seiliedig ar farn arbenigwyr, fod angen bodloni cyfres o feini prawf er mwyn gostwng nifer yr achosion o TB mewn buchesi drwy ddifa moch daear

large area of land, a high level of land-manager compliance, an effective and sustained cull, and, where possible, boundaries that are impervious to badger movement. However, your decision to abandon the previous Government's eradication strategy, which you and your Cabinet colleagues voted in favour of less than a year ago, and which had cross-party support, will come as a bitter blow to rural Wales, and many farmers in the TB hot spots will feel that their hope—the light at the end of the tunnel—has been snuffed out.

You have made your decision, Minister, and I would be grateful if you could answer the following questions. In relation to the decision not to cull, given that hot spot culling would have affected fewer than 1,400 badgers out of a population of 35,000, can you expand on why your Government has chosen to ignore the wealth of information—from the randomised badger culling trial, from the Thornbury trial and from other countries that have managed to eradicate TB in cattle—that supports the culling of infected wildlife as part of an overall eradication strategy? Can you confirm what guidance you have received from the chief veterinary officer on your decision and whether your Government's new policy is her own preferred option? Will you publish all of the advice that you have received?

2.45 p.m.

In relation to the vaccination of badgers, what assessment has been made of the effectiveness of this policy over time, and what is your estimate of the cost compared with that of the previous policy? How many generations of badgers will it take to achieve a significant reduction, and how does the effectiveness of this approach compare with a methodology that includes culling? In relation to the European requirements, what confidence do you have, Minister, that your plans will receive the approval of the European Commission and are fully compliant with Wales's legal duties to have an effective eradication programme under the relevant directives, and will you indemnify Scotland or England if your policy fails in

mewn ardal. Maent yn cynnwys: ardal fawr o dir; lefel uchel o gydymffurfiaeth rheoli tir; difa effeithiol a pharhaus; a, lle bo hynny'n bosibl, ffiniau sy'n gaeëdig i symudiadau moch daear. Fodd bynnag, mae eich penderfyniad i roi'r gorau i strategaeth ddileu y Llywodraeth flaenorol, y gwnaethoch chi a'ch cyd-Aelodau bleidleisio o'i phlaid lai na blwyddyn yn ôl, ac a gafodd gefnogaeth drawsbleidiol, yn ergyd drom i gefn gwlad Cymru, a bydd llawer o ffermwyr yn yr ardaloedd lle y mae TB ar ei waethaf yn teimlo bod eu gobaith—y goleuni ym mhen draw'r twnel—wedi diflannu.

Rydych wedi gwneud eich penderfyniad, Weinidog, a byddwn yn ddiolchgar pe gallech ateb y cwestiynau a ganlyn. Mewn perthynas â'r penderfyniad i beidio â difa, o gofio y byddai difa mewn ardaloedd lle y mae TB ar ei waethaf wedi effeithio ar lai na 1,400 o foch daear o boblogaeth o 35,000, a allwch ymhelaethu ar pam mae eich Llywodraeth wedi dewis anwybyddu'r cyfoeth o wybodaeth—o'r hap-dreial difa moch daear, o brawf Thornbury ac o wledydd eraill a lwyddodd i ddileu TB mewn gwartheg—sy'n cefnogi difa bywyd gwyllt heintiedig fel rhan o strategaeth ddileu gyffredinol? A allwch chi gadarnhau pa ganllawiau a gawsoch gan y prif swyddog milfeddygol ar eich penderfyniad, ac mai polisi newydd eich Llywodraeth yw'r dewis y mae hi'n ei ffafrio? A wnewch chi gyhoeddi'r holl gyngor a gawsoch?

Mewn perthynas â brechu moch daear, pa asesiad a wnaed o effeithiolrwydd y polisi hwn dros amser, a beth yw eich amcangyfrif o'r gost o gymharu â chost y polisi blaenorol? Faint o genedlaethau o foch daear y bydd yn ei gymryd i sicrhau gostyngiad sylweddol, a sut mae effeithiolrwydd y dull hwn yn cymharu â methodoleg sy'n cynnwys difa? Mewn perthynas â'r gofynion Ewropeaidd, faint o hyder sydd gennych, Weinidog, y bydd eich cynlluniau yn cael eu cymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd a'u bod yn cydymffurfio'n llawn â dyletswyddau cyfreithiol Cymru i gael rhaglen ddileu effeithiol o dan y cyfarwydddebau perthnasol, ac a fyddwch yn digolledu'r Alban neu Loegr os yw eich polisi yn methu yng Nghymru ac

Wales and leads to more bovine TB infections?

Finally, in relation to cattle testing, can you indicate what consideration has been given to improving accuracy in the testing regime to reduce false positives and to distinguish between latent and active infection in cattle? Finally, what role did the threat of legal action by the Badger Trust play in your decision making? Minister, you have thrown away the goodwill of farmers and cross-party support in this Assembly with this decision today.

John Griffiths: Antoinette Sandbach refers to previous policy, but, with regard to that previous policy, not a single badger has been culled, whereas we will now get on and vaccinate badgers in the intensive action area this summer, over the next few months. What we were faced with in terms of a cull was the science review pointing to levels of uncertainty over any course of action, and a legal situation of quite a difficult threshold test to be passed under the Animal Health Act 2002 before any culling could occur. In many ways, it equates to getting bogged down in further legal proceedings or getting on with vaccinating and actually doing something about the wildlife position as far as bovine TB is concerned.

Turning to the specific issues that the Member raised, we did, in fact, see a reduction in incidence in 2009 and 2010, after a peak in 2008. In terms of the statistics that we currently have for last year, the disease picture has stabilised. Therefore, we have made some progress in dealing with this epidemic. The comprehensive eradication strategy continues, of course, with the vaccination programme as the element that will address the wildlife part of the equation. The chief veterinary officer supported the work of the review panel, gave evidence to that panel, and will take forward the vaccination strategy over the next five years in the intensive action area and the comprehensive strategy as a whole. The submission that I have received to advise me on these matters will be published. The

yn arwain at fwy o achosion o TB buchol?

Yn olaf, mewn perthynas â phrofi gwartheg, a allwch chi nodi pa ystyriaeth a roddwyd i wella cywirdeb yn y drefn brofi i leihau'r achosion o ganlyniadau positif ffug ac i wahaniaethu rhwng haint cudd a haint gweithredol mewn gwartheg? Yn olaf, pa ran wnaeth y bygythiad o gamau cyfreithiol gan yr Ymddiriedolaeth Moch Daear ei chwarae yn eich penderfyniad? Weinidog, rydych wedi taflu ewylllys da'r ffermwyr a chefnogaeth drawsbleidiol yn y Cynulliad i'r gwynt gyda'r penderfyniad hwn heddiw.

John Griffiths: Cyfeiria Antoinette Sandbach at bolisi blaenorol, ond, o ran y polisi blaenorol hwnnw, nid oes yr un mochyn daear wedi cael ei ddifa, ond byddwn yn awr yn mynd ati i frechu moch daear yn yr ardal gweithredu dwys yn yr haf, dros y misoedd nesaf. Yr hyn yr oeddem yn ei wynebu o ran y rhaglen ddifa oedd bod yr adolygiad gwyddonol yn cyfeirio at lefelau o ansicrwydd ynghylch unrhyw ffordd o weithredu, a sefyllfa gyfreithiol o ran prawf trothwy a fyddai'n eithaf anodd ei basio o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002 cyn y gallai unrhyw ddifa ddigwydd. Mewn nifer o ffyrdd, mae'n cyfateb i gael ein llethu gan achosion cyfreithiol pellach neu i fwrw ymlaen â'r rhaglen frechu a gwneud rhywbeth am y sefyllfa bywyd gwyllt mewn perthynas â TB buchol.

Gan droi at y materion penodol a gododd yr Aelod, gwelwyd gostyngiad, mewn gwirionedd, yn nifer yr achosion yn 2009 a 2010, ar ôl iddynt gyrraedd uchafbwynt yn 2008. O ran yr ystadegau sydd gennym ar hyn o bryd ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf, mae'r darlun o'r clefyd wedi sefydlogi. Felly, rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth ymdrin â'r epidemig hwn. Mae'r strategaeth gynhwysfawr i ddileu yn parhau, wrth gwrs, a'r rhaglen frechu yw'r elfen a fydd yn mynd i'r afael â rhan bywyd gwyllt yn y rhaglen. Roedd y prif swyddog milfeddygol yn cefnogi gwaith y panel adolygu, rhoddodd dystiolaeth i'r panel hwnnw, a bydd yn bwrw ymlaen â'r strategaeth frechu dros y pum mlynedd nesaf yn yr ardal gweithredu dwys a'r strategaeth gynhwysfawr yn ei chyfanrwydd. Bydd y

estimated cost is around £1 million per year for the vaccination programme in the intensive action area, but those costs may be revised as we go forward to implementation. The European Union has approved the UK 2012 comprehensive strategy and the Wales programme as part of that.

As far as testing is concerned, I mentioned that the Animal Health and Veterinary Laboratory Agency will be doing some work on testing in the intensive action area to ensure that we make any necessary improvements to the testing regime. Finally, there will, of course, be varying views on the announcement that I have made today, but we all have a shared aim, as I said in my statement. Everybody in Wales with a stake in this wishes to eradicate this terrible disease, with all of the awful impacts that we know about, and the only way that that will be done is if we continue to work in partnership. As I said at the beginning of my response to Antoinette Sandbach, we now have the opportunity to get on in short order and actually do something about the wildlife part of this equation.

Llyr Huws Gruffydd: Mae awyr las dros fae Caerdydd heddiw, ond rwy'n ofni ei bod yn ddiwrnod du i nifer o gymunedau gwledig Cymru. Mae buddiannau'r gymuned amaethyddol wedi llithro'n is ac yn is ar restr flaenoriaethau'r Llywodraeth hon ers ei hethol wyth i naw o fisoedd yn ôl. Heddiw, mae'r modd yr ydych wedi bradychu'r gymuned amaethyddol yn nodi isafbwynt yn y berthynas rhwng ffermwyr a Llywodraeth Cymru. Mae'r Llywodraeth wedi torri'r cytundeb a darwyd gydag amaethwyr i fynd i'r afael â TB mewn gwartheg.

The inaction of previous Labour Governments let this disease take hold and spiral out of control. When we in Plaid Cymru were in Government, we showed backbone and leadership to get to grips with this issue. The science around culling is clear and unchanged, and that is beyond any doubt.

The focus now falls on vaccination, and we

cyflwyniad a gefais a oedd yn fy nghynghori ar y materion hyn yn cael ei gyhoeddi. Amcangyfrifir mai'r gost yw tua £1 filiwn y flwyddyn ar gyfer y rhaglen frechu yn yr ardal gweithredu dwys, ond efallai y caiff y costau hynny eu hadolygu wrth i ni symud ymlaen i weithredu. Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi cymeradwyo strategaeth gynhwysfawr 2012 y DU a rhaglen Cymru fel rhan o hynny.

O ran y profion, soniais y bydd yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Labordai Milfeddygol yn gwneud rhywfaint o waith profi yn yr ardal gweithredu dwys er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud unrhyw welliannau angenrheidiol i'r gyfundrefn brofi. Yn olaf, bydd safbwyntiau gwahanol ar y cyhoeddiad a wneuthum heddiw, wrth gwrs, ond yr un yw ein nod ni oll, fel y dywedais yn fy natganiad. Mae pawb yng Nghymru sydd â rhan yn hyn am i'r clefyd ofnadwy hwn gael ei ddileu, ynghyd â'r holl effeithiau ofnadwy y gwyddom amdanynt, a'r unig ffordd y caiff hynny ei wneud yw os byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth. Fel y dywedais ar ddechrau fy ymateb i Antoinette Sandbach, mae gennym gyfle nawr i fynd ati ar unwaith i wneud rhywbeth gwirioneddol am y rhan sydd gan fywyd gwyllt i'w chwarae yn hyn.

Llyr Huws Gruffydd: There are blue skies over Cardiff bay today, but I am afraid that it is a bleak day for many rural communities in Wales. The interests of the agricultural community have slipped lower and lower on this Government's list of priorities since it was elected eight or nine months ago. Today, the way that you have betrayed the agricultural community marks a low point in the relationship between farmers and the Welsh Government. The Government has broken the agreement that was made with farmers to get to grips with bovine TB.

Mae diffyg gweithredu Llywodraethau Llafur blaenorol wedi caniatáu i'r clefyd hwn ddal ei afael a mynd allan o reolaeth. Pan oeddem ni ym Mhlaid Cymru yn y Llywodraeth, dangoswyd asgwrn cefn ac arweiniad i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'r wyddoniaeth ynghylch difa yn glir ac yn ddigyfnewid, ac nid oes unrhyw amheuaeth am hynny.

Mae'r ffocws nawr ar frechu, a gwyddom fod

know that vaccination prevents; it does not cure. I presume, therefore, that diseased badgers will need to be removed. Perhaps you could expand a little on your plans in that regard. An injectable vaccine presents a host of practical challenges: to cage-trap badgers, to inject them, to release them and so on. We know about the trials that are currently under way in Gloucestershire, which are also running for five years. Is this duplication, perhaps? Who knows? It will be years until we know the final outcome. It is unproven in field conditions, and I also want you to comment on the potential for perturbation effects as well, which are always raised in relation to vaccination.

From the modelling we have, without field trials at the moment, I understand that the prediction is that there is a potential for a 9% reduction in bovine TB over five years with a vaccination operation, and a 19% reduction in herd breakdowns in 10 years in the core area, compared with 34% for a cull and 40% for a cull with ring vaccination. Those are the best statistics that we have, and it seems to me that you are settling for the least effective of the options.

We all want to see effective vaccination policies being adopted, but such a policy does not exist at the moment. The only evidence available suggests that vaccination would be less effective than other approaches. You mention in your statement that you want to move forward with the co-operation of the wider farming community and various stakeholders. We know that the way that this Government has treated those stakeholders recently suggests that you might find co-operation difficult to come by. I hope that there will be co-operation, but you have a lot of work to do to repair the damage that has been done in order to regain the trust and confidence of the sector.

I hope that you will publish all of the advice that you have received and the submission that was given to you. Your predecessor did so, and I expect you to follow suit, particularly in relation to the information that you received from your chief scientific officer and your chief veterinary officer, and

brechu'n atal; nid yw'n iacháu. Rwy'n tybio, felly, y bydd angen cael gwared ar foch daear sydd wedi'u heintio. Efallai y gallech ehangu ychydig ar eich cynlluniau yn hynny o beth. Mae llw o heriau ymarferol yn gysylltiedig â brechlyn chwistrellu: dal moch daear mewn cewyll, rhoi pigiad iddynt, eu rhyddhau ac ati. Gwyddom am y treialon sy'n cael eu cynnal yn Swydd Gaerloyw ar hyn o bryd, sydd hefyd yn cael eu cynnal am bum mlynedd. Ai dyblygu yw hyn, efallai? Pwy a wŷr? Bydd yn flynyddoedd nes y cawn wybod y canlyniad terfynol. Nid yw wedi ei brofi mewn amodau maes, a hoffwn i chi wneud sylwadau ar botensial effeithiau aflonyddwch hefyd, sy'n cael eu codi bob amser mewn perthynas â brechu.

O'r modelu sydd gennym, heb dreialon maes ar hyn o bryd, rwy'n deall mai'r rhagfynegiad yw bod potensial ar gyfer gostyngiad o 9% mewn TB buchol dros bum mlynedd drwy frechu, a gostyngiad o 19% mewn achosion o chwalu buchesau ymhen 10 mlynedd yn yr ardal graidd, o'i gymharu â 34% ar gyfer difa llawn a 40% ar gyfer difa gyda brechu cylch. Dyna'r ystadegau gorau sydd gennym, ac mae'n ymddangos i mi eich bod yn dewis yr opsiwn lleiaf effeithiol.

Rydym oll am weld polisiau brechu effeithiol yn cael eu mabwysiadu, ond nid oes polisi o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd. Mae'r unig dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu y byddai brechu yn llai effeithiol na dulliau eraill. Rydych yn sôn yn eich datganiad eich bod yn dymuno symud ymlaen gyda chydweithrediad y gymuned ffermio ehangach a rhanddeiliaid amrywiol. Gwyddom fod y ffordd y mae'r Llywodraeth hon wedi trin y rhai rhanddeiliaid hyn yn ddiweddar yn awgrymu y gallai fod yn anodd i chi gael y cydweithrediad hwnnw. Gobeithio y bydd cydweithrediad, ond mae llawer o waith o'ch blaen i unioni'r cam sydd wedi cael ei wneud er mwyn adennill ffydd a hyder y sector.

Gobeithio y byddwch yn cyhoeddi'r holl gyngor yr ydych wedi'i gael a'r cyflwyniad a roddwyd i chi. Gwnaeth eich rhagflaenydd hynny, ac rwy'n disgwyl i chi wneud yr un peth, yn enwedig mewn perthynas â'r wybodaeth a gawsoch gan eich prif swyddog gwyddonol a'ch prif swyddog milfeddygol,

particularly in relation to the report that was prepared by the panel.

How long will we need to wait for any benefits that may not accrue from the vaccination of badgers before you make the decision on a cull? In other words, how bad will the situation have to get before you come to a conclusion that a cull is a necessary part of the equation? I did a quick word count and the word 'vaccine' or 'vaccination' appears nearly 40 times and the word 'cull' only once: perhaps that reflects the degree of consideration that you have really given to that option.

I hope that you recognise the anger and frustration that will follow your announcement today. If not, you have an even more difficult task ahead of you. Minister, it is clear to me that you and your Government are swimming against the scientific tide. England is undertaking a cull, and Northern Ireland is considering a cull, but you are not. We know that 700 cattle fail their TB test and are slaughtered every month, but today, once again, Minister, you and your Government have failed your TB test.

John Griffiths: I assure the Member that I carefully considered all options and, in particular, whether vaccination or culling was the best way forward in the intensive action area. I am doing what I consider to be right and the best course of action. Llyr, you referred to the previous Government; I said earlier that not a single badger was culled during the course of the previous Government. We all know about the legal difficulties, as well as the scientific uncertainties that are set out in the scientific review and elsewhere. We are going to get on and do something and vaccinate badgers in the intensive action area.

We will, of course, continue to work in partnership with cattle farmers and other stakeholders in the intensive action area and across Wales. Our investment in the intensive action area has been to the tune of millions of pounds over the last few years, and we have also invested a great deal of the time and

ac yn enwedig mewn perthynas â'r adroddiad a baratowyd gan y panel.

Pa mor hir y bydd angen i ni aros am unrhyw fuddion y mae'n bosibl na fyddant yn deillio o'r broses o frechu moch daear cyn i chi wneud y penderfyniad i ddifa? Mewn geiriau eraill, pa mor ddrwg y bydd angen i'r sefyllfa fod cyn i chi ddod i'r casgliad bod difa yn rhan angenrheidiol o'r gwaith? Cyfrais yn gyflym ac mae'r gair 'brechlyn' neu 'frechu' yn ymddangos bron i 40 gwaith a dim ond unwaith y mae'r gair 'difa' yn ymddangos: efallai bod hynny'n adlewyrchu faint rydych wedi ystyried yr opsiwn hwnnw mewn gwirionedd.

Gobeithio eich bod yn cydnabod y dicter a'r rhwystredigaeth a deimlir yn dilyn eich cyhoeddiad heddiw. Os nad ydych, mae gennych dasg sy'n fwy anos byth o'ch blaen. Weinidog, mae'n amlwg i mi eich bod chi a'ch Llywodraeth yn nofio yn erbyn y llif gwyddonol. Mae Lloegr yn cynnal rhaglen ddifa, ac mae Gogledd Iwerddon yn ystyried difa, ond nid ydych chi. Gwyddom fod 700 o wartheg yn methu eu prawf TB ac yn cael eu lladd bob mis, ond heddiw, unwaith eto, Weinidog, rydych chi a'ch Llywodraeth wedi methu eich prawf TB.

John Griffiths: Rwy'n sicrhau'r Aelod fy mod wedi ystyried yr holl opsiynau'n ofalus ac, yn benodol, ai brechu neu ddifa oedd y ffordd orau ymlaen yn yr ardal gweithredu dwys. Yr wyf yn gwneud yr hyn yr wyf yn ei ystyried yn gywir a chredaf mai hon yw'r ffordd orau o weithredu. Llyr, cyfeiriasoch at y Llywodraeth flaenorol; dywedais yn gynharach nad oedd yr un mochyn daear wedi cael ei ddifa yn ystod y Llywodraeth flaenorol. Gwyddom i gyd am yr anawsterau cyfreithiol, yn ogystal â'r ansicrwydd gwyddonol a nodir yn yr adolygiad gwyddonol ac mewn manau eraill. Rydym am fynd ati i wneud rhywbeth a brechu moch daear yn yr ardal gweithredu dwys.

Byddwn, wrth gwrs, yn parhau i weithio mewn partneriaeth â ffermwyr gwartheg a rhanddeiliaid eraill yn yr ardal gweithredu dwys a ledled Cymru. Rydym wedi buddsoddi miliynau o bunnoedd yn yr ardal gweithredu dwys dros y blynyddoedd diwethaf, ac rydym hefyd wedi buddsoddi

energy of our officials. The vaccination programme in the intensive action area will cost several million pounds over the next five years. Therefore, we have a strong commitment to the intensive action area and are taking a comprehensive approach, including dealing with the wildlife element.

You mentioned perturbation. The advice that I have seen suggests that perturbation is not considered to be a significant factor with vaccination. It is considered to be a significant factor as far as culling is concerned. There is a figure for vaccination and a field study that shows that vaccinating badgers delivers resistance to the disease. The statistic from that study was 74% of uninfected badgers having a degree of resistance to the disease.

You mentioned modelling. Obviously, modelling figures have to be considered with some caution, and there are various modelling figures for either culling or vaccination. I said earlier that the science demonstrates varying degrees of uncertainty with regard to any of the measures involved in the strategy to deal with bovine TB, and that is the situation that we face. On top of that, as I have said, there are very considerable legal difficulties. However, we can now get on and vaccinate, rather than being potentially bogged down in legal proceedings, as was the experience previously.

As I said earlier, the submission that I have received will be published. The Member also asked how long it would be before benefits are monitored and assessed. We will monitor continually as we move forward with this vaccination programme. It is clear from the scientific review that there are no quick or easy solutions to bovine TB, unfortunately, and I think that everyone has to realise that. For example, the scientific review states that a cull would deliver little or no benefit in the early years. We will now get on and vaccinate and do something about the wildlife element in the intensive action area.

William Powell: Today is a pretty grim day

llawer iawn o amser ac ynni ein swyddogion. Bydd y rhaglen frechu yn yr ardal gweithredu dwys yn costio nifer o filiynau o bunnoedd dros y pum mlynedd nesaf. Felly, mae gennym ymrwymiad cryf i'r ardal gweithredu dwys ac rydym yn gweithio mewn ffordd gynhwysfawr, ac rydym hefyd yn ymdrin â'r elfen bywyd gwyllt.

Soniasoch am aflonyddu. Mae'r cyngor a welais i yn awgrymu nad yw aflonyddu yn cael ei ystyried yn ffactor arwyddocaol mewn cysylltiad â brechu. Mae'n cael ei ystyried yn ffactor arwyddocaol mewn cysylltiad â difa. Ceir ffigur ar gyfer brechu ac astudiaeth maes sy'n dangos bod brechu moch daear yn sicrhau y gellir gwrthsefyll y clefyd. Yr ystadegyn o'r astudiaeth honno oedd bod 74% o'r moch daear sydd heb eu heintio yn gallu gwrthsefyll y clefyd i raddau.

Soniasoch am fodelu. Yn amlwg, rhaid ystyried ffigurau modelu yn ofalus, ac mae ffigurau modelu gwahanol naill ai ar gyfer difa neu frechu. Dywedais yn gynharach fod y wyddoniaeth yn dangos gwahanol raddau o ansicrwydd o ran unrhyw rai o'r mesurau sy'n ymwneud â'r strategaeth i ymdrin â TB buchol, a dyna'r sefyllfa rydym yn ei hwynebu. Ar ben hynny, fel y dywedais, mae anawsterau cyfreithiol sylweddol iawn. Fodd bynnag, gallwn bellach symud ymlaen i frechu, yn hytrach na wynebu'r posibilrwydd o gael ein llethu gan achos cyfreithiol, fel y digwyddodd o'r blaen.

Fel y dywedais yn gynharach, bydd y cyflwyniad a gefais yn cael ei gyhoeddi. Gofynnodd yr Aelod hefyd faint o amser fydd nes y caiff y manteision eu monitro a'u hasesu. Byddwn yn monitro'n barhaus wrth i ni symud ymlaen gyda'r rhaglen frechu hon. Mae'n amlwg o'r adolygiad gwyddonol nad oes unrhyw atebion cyflym na rhwydd i'r broblem TB buchol, yn anffodus, a chredaf fod angen i bawb sylweddoli hynny. Er enghraifft, mae'r adolygiad gwyddonol yn datgan mai ychydig iawn o fanteision fyddai rhaglen ddifa yn eu sicrhau yn y blynyddoedd cynnar, os o gwbl. Byddwn yn awr yn mynd ati i frechu a gwneud rhywbeth am yr elfen bywyd gwyllt yn yr ardal gweithredu dwys.

William Powell: Mae heddiw yn ddiwrnod

for rural Wales. I thank the Minister for his statement. While views on a solution to the appalling problem of bovine tuberculosis vary considerably across Wales, there is no doubt whatsoever that there will be a huge degree of disappointment in farming communities across this country. Without wishing to go over the same ground as Antoinette Sandbach and Llyr Huws Gruffydd, I am keen to highlight the damage that has been done by the extended period of uncertainty and indecision that we have had following last July's pause.

3.00 p.m.

I am afraid to say that today's announcement does little to alleviate that uncertainty, frustration and anger. As the Farm Crisis Network highlighted in its most recent report from 2009, the existence of bovine TB is causing enormous distress to farmers and their families, with 20% of those interviewed admitting that they were either panicked or devastated by the news of the latest outbreak. A further 50% were deeply worried by the news. Farmers' reactions ranged between feeling the pressure but coping through to actual physical illness caused by the stress and associated worry of this devastating pestilence.

Clearly, the situation cannot continue; it should not be allowed to continue. I trust that there will be at least some progress, to which vaccination could contribute. However, it can be only part of the solution; it is not the whole solution. That is why there will be such disappointment. The Minister correctly says that there has not been a cull, but, in practice, it does not take a very observant pair of eyes to see that there is quite a lot of activity out there. When you use the minor road network across Wales, you see the evidence of twilight activity, which is immensely dangerous and often associated with criminality. It has little to do with the farmers themselves, but it is an issue that is desperately worrying and really difficult in terms of the impact it has on infectivity. Today's announcement will have little impact in lessening that sort of action, which is reprehensible, although, nevertheless, we understand the context in which it happens.

eithaf du i Gymru wledig. Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad. Er bod y farn ynghylch y ffordd o ddatrys y broblem ofnadwy o dwbercwlosis buchol yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru, nid oes amheuaeth o gwbl y bydd siom enfawr mewn cymunedau ffermio ledled y wlad hon. Nid wyf am fynd dros yr un tir ag Antoinette Sandbach a Llyr Huws Gruffydd, ond yr wyf yn awyddus i dynnu sylw at y difrod sydd wedi cael ei wneud gan y cyfnod estynedig o ansicrwydd a diffyg penderfyniad a gawsom ers y cyfnod o oedi fis Gorffennaf diwethaf.

Mae arnaf ofn dweud nad yw cyhoeddiad heddiw yn gwneud llawer i leddfu'r ansicrwydd, y rhwystredigaeth a'r dicter hwnnw. Fel y dywedodd y Rhwydwaith Argyfwng Ffermio yn ei adroddiad diweddaraf yn 2009, mae bodolaeth TB gwartheg yn peri gofid mawr i ffermwyr a'u teuluoedd, gyda 20% o'r rhai a gyfwelwyd yn cyfaddef eu bod naill ai wedi'u cynhyrfu neu wedi'u dinistrio gan y newyddion am yr achos diweddaraf. Roedd y newyddion yn peri pryder mawr i 50% arall. Roedd ymateb ffermwyr yn amrywio rhwng teimlo'r pwysau ond ymdopi i salwch corfforol gwirioneddol a achoswyd gan y straen a phryder cysylltiedig yr haint dinistriol hwn.

Mae'n amlwg na all y sefyllfa barhau; ni ddylid caniatáu iddi barhau. Hyderaf y bydd o leiaf rywffaint o gynnydd, lle y gallai brechu gyfrannu ato. Fodd bynnag, dim ond rhan fach o'r ateb y gallai hyn fod; nid dyma'r ateb cyfan. Dyna pam y bydd cymaint o siom. Mae'r Gweinidog yn gywir wrth ddweud na fu difa, ond, yn ymarferol, nid oes angen llygaid craff iawn i weld bod cryn dipyn o weithgarwch yn digwydd. Pan fyddwch yn defnyddio'r rhwydwaith ffyrdd bach ledled Cymru, gallwch weld tystiolaeth o weithgareddau'r cyfnos, sy'n hynod o beryglus ac yn aml yn gysylltiedig â throseddu. Ychydig iawn sydd gan hyn i'w wneud â'r ffermwyr eu hunain, ond mae'n fater sy'n peri pryder dybryd ac yn anodd iawn o ran yr effaith a gaiff ar heintusrwydd. Ychydig iawn o effaith a gaiff cyhoeddiad heddiw ar leihau'r gweithgareddau hynny, sy'n deilwng o gerydd, er ein bod yn deall, fodd bynnag, y cyd-destun y mae hyn yn

digwydd ynddo.

Minister, I have just a few questions to ask, to add to those that you have already answered. First, and simply, what has changed? What has changed since you and your Cabinet colleagues in the previous Government approved the cull in the action zone? The report we have in front of us, which dropped into our e-mail boxes in the past hour, makes it quite clear that, ultimately, this is a political decision. A decision has clearly been made, but what has changed? Also, Minister, can you please confirm that the decision you have made today enjoys the support and backing of the Deputy Minister for Agriculture, Fisheries, Food and European Programmes, whose views on this have been clearly expressed in this Chamber? Do you feel that, in the long term, the split of animal health within the portfolio is a sustainable situation, given the enormous workload and pressures that flow from the wider environment and sustainability brief in the context of the work ahead? In all seriousness, I ask whether, in the long term, this is the correct way to go forward. There is deep disappointment. I just have to articulate that today.

John Griffiths: Of course, as I said earlier, there will be differing views in farming communities and across Wales with regard to my announcement. However, I think that a lot of people will understand that we will now get on and do something about the wildlife aspect of tackling this disease, whereas, as I have said a number of times already, hitherto that has not been the case. As you said, William, it is the wildlife situation that must be addressed. We will now go on to address it. When it comes to the process up to now, we have shown as much urgency as was necessary in working up a comprehensive strategy as well as setting out the way forward with regard to the intensive action area as part of that. Of course, we had to give careful consideration to that comprehensive framework. It sets out the way ahead for the next four years. These are matters that require very careful consideration. These are very difficult decisions to take. The Protection of Badgers

Weinidog, dim ond ychydig o gwestiynau sydd gennyf i'w gofyn, i ychwanegu at y rhai yr ydych wedi'u hateb yn barod. Yn gyntaf, ac yn syml, beth sydd wedi newid? Beth sydd wedi newid ers i chi a'ch cyd-Aelodau yng Nghabinet y Llywodraeth flaenorol gymeradwyo'r rhaglen ddifa yn yr ardal gweithredu? Mae'r adroddiad sydd gennym o'n blaenau, a gyrhaeddodd ein blychau e-bost o fewn yr awr ddiwethaf, yn ei gwneud yn gwbl glir mai penderfyniad gwleidyddol yw hwn yn y pen draw. Mae'n amlwg fod penderfyniad wedi'i wneud, ond beth sydd wedi newid? Hefyd, Weinidog, a allwch gadarnhau bod y penderfyniad a wnaethoch heddiw yn cael ei ategu a'i gefnogi gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd, Bwyd a Rhaglenni Ewropeaidd? Mae ei farn am hyn wedi cael ei mynegi'n glir yn y Siambr hon. A ydych yn teimlo bod rhannu iechyd anifeiliaid o fewn y portffolio yn sefyllfa gynaliadwy yn y tymor hir, o gofio'r llwyth gwaith enfawr a'r pwysau sy'n deillio o'r briff amgylchedd a chynaliadwyedd ehangach yng nghyd-destun y gwaith sydd ar droed? O ddifrif, rwy'n gofyn ai dyma'r ffordd gywir i fynd ymlaen, yn y tymor hir. Mae'r siom yn ddiffrw. Mae'n rhaid imi fynegi hynny heddiw.

John Griffiths: Wrth gwrs, fel y dywedais yn gynharach, bydd safbwyntiau gwahanol mewn cymunedau ffermio a ledled Cymru o ran fy nghyhoeddiad. Fodd bynnag, credaf y bydd llawer o bobl yn deall y byddwn yn awr yn mynd ati i wneud rhywbeth am yr agwedd bywyd gwyllt ar fynd i'r afael â'r clefyd hwn, lle nad yw hynny wedi bod yn wir hyd yn hyn, fel yr wyf wedi dweud sawl gwaith eisoes. Fel y dywedasoch, William, y sefyllfa'n ymwneud â bywyd gwyllt sydd angen sylw. Byddwn yn awr yn mynd ati i fynd i'r afael â hi. O ran y broses hyd yn hyn, rydym wedi bod mor gyflym ag oedd ei angen wrth lunio strategaeth gynhwysfawr yn ogystal â nodi'r ffordd ymlaen o ran yr ardal gweithredu dwys fel rhan o hynny. Wrth gwrs, roedd rhaid inni ystyried y fframwaith cynhwysfawr hwnnw'n ofalus. Mae'n nodi'r ffordd ymlaen ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Mae'r rhain yn faterion sydd angen eu hystyried yn ofalus iawn. Mae'r rhain yn benderfyniadau anodd iawn. Mae Deddf

Act 1992 is in place, as you know, William, and that is law that must be observed.

In terms of what has changed, I set out the position with regard to previous experience, where we were not able to get on and address the wildlife element. We now have the science review, which we committed to carrying out in our manifesto and programme for government. That refers to accumulating evidence for vaccination. Indeed, our own technical group that we established as part of our comprehensive approach to TB eradication in Wales has included that option of vaccination in an endemic area as a way of taking forward our comprehensive approach in Wales and of addressing the wildlife element. Of course, this is a collective decision of Government.

Joyce Watson: Thank you, Minister, for your statement. Obviously, I welcome it. The Labour Party manifesto for May's Assembly elections promised a science-led approach to bovine TB. The Minister knows that I have made my position very clear many times, in writing and in oral statements, that I support the view that you have arrived at. We all know that bovine TB is a horrible disease and that it devastates families and businesses emotionally and economically. There is no debate or ambiguity about the need to eradicate bovine TB, but we have to do it in a cost-effective and responsible way that is both sustainable and long term. That is backed by today's report. In my opinion, Minister, you have rightly reached the conclusion that culling was not sustainable in the long term and that it could—it is writ large—spread bovine TB for a minimum of two years. However, a vaccination programme will start to reduce the incidence of that disease virtually immediately. The injectable vaccine is available and ready to use in that TB hotspot area that has been identified.

Minister, you have put in place new stringent cattle-side measures for the last few years. Will you evaluate the efficacy of those measures and the stringent application of them? I also want to reiterate what William

Gwarchod Moch Daear 1992 yn bodoli, fel y gwyddoch, William, a rhaid dilyn y gyfraith honno.

O ran beth sydd wedi newid, nodais y sefyllfa o ran y profiad blaenorol, lle nad oedd yn bosibl inni fwrw ymlaen a mynd i'r afael â'r elfen bywyd gwyllt. Erbyn hyn, mae gennym yr adolygiad gwyddonol y gwnaethom ymrwymo i'w gynnal yn ein maniffesto a'n rhaglen lywodraethu. Mae hynny'n cyfeirio at gasglu tystiolaeth ar gyfer brechu. Yn wir, mae ein grŵp technegol ein hunain a sefydlwyd fel rhan o'n ffordd gynhwysfawr o fynd ati i ddileu TB yng Nghymru wedi cynnwys yr opsiwn o frechu mewn ardal endemig fel ffordd o ddatblygu ein ffordd gynhwysfawr yng Nghymru ac o fynd i'r afael â'r elfen bywyd gwyllt. Wrth gwrs, cydbenderfyniad gan y Llywodraeth yw hwn.

Joyce Watson: Diolch, Weinidog, am eich datganiad. Yn amlwg, rwyf yn ei groesawu. Roedd maniffesto'r Blaid Lafur ar gyfer etholiad y Cynulliad ym mis Mai yn addo ffordd o fynd i'r afael â TB buchol a gaiff ei harwain gan wyddoniaeth. Fe wŷr y Gweinidog fy mod wedi gwneud fy safbwynt yn glir sawl gwaith, yn ysgrifenedig ac mewn datganiadau llafar, sef fy mod yn cefnogi'r farn yr ydych wedi penderfynu arni. Gwyddom i gyd fod TB buchol yn glefyd ofnadwy a'i fod yn dinistrio teuluoedd a busnesau yn emosïynol ac yn economaidd. Nid oes unrhyw ddadl neu amwysedd ynghylch yr angen i ddileu TB buchol, ond mae'n rhaid inni wneud hynny mewn ffordd gost-effeithiol a chyfrifol sy'n gynaliadwy ac yn hirdymor. Caiff hynny ei gefnogi gan adroddiad heddiw. Yn fy marn i, Weinidog, rydych wedi dod i'r casgliad cywir nad oedd difa yn gynaliadwy yn y tymor hir ac y gallai—mae'n hollol amlwg—ledaenu TB buchol am o leiaf ddwy flynedd. Fodd bynnag, bydd rhaglen frechu yn dechrau lleihau nifer yr achosion o'r clefyd hwnnw bron ar unwaith. Mae'r brechlyn chwistrellu ar gael ac yn barod i'w ddefnyddio yn yr ardal a nodwyd lle mae TB ar ei waethaf.

Weinidog, rydych wedi rhoi mesurau newydd ar waith ar ochr y gwartheg dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. A wnewch chi werthuso effeithiolrwydd y mesurau hynny a'r defnydd llym ohonynt? Rwyf hefyd am

Powell has said; how will you try to ensure that individuals do not take things into their own hands and start to shoot and kill badgers or, if some of the evidence that I have is right, continue to shoot and kill badgers? I have to welcome this as someone who lives in Pembrokeshire and who has been opposed to it all along. I have to welcome it for that community, Minister. In my opinion, it would have been ripped apart and businesses would have been adversely affected by it, especially in a tourist destination hotspot. Thank you, Minister.

John Griffiths: I thank Joyce Watson for her recognition of the very serious impact of this disease on cattle-farming families and the wider rural community, which is very much the case. I also agree that this is a long-term eradication programme. As I said earlier, unfortunately, there are no quick and easy solutions. We must be in it for the long term and it must be a sustainable approach. Indeed, the science review talks about not raising expectations that there are any quick or easy solutions to this terrible disease because, sadly, that is not the case. We constantly evaluate the programme and learn lessons as we move forward and that will continue to be the case. That will include cattle measures and, indeed, there are some specific examples of that in the comprehensive framework for the next four years. I will reiterate what I said in responding to William Powell, that the Protection of Badgers Act is there for very good reason. It is the law, and it must be observed.

Elin Jones: Minister, your Government hoped that scientific evidence commissioned by you would provide you with evidence not to undertake a badger cull. It has done the reverse, and has confirmed the reduction in TB that results from the culling of badgers. Your scientists passed the decision back to you—the politicians in the Cabinet. Minister, you fund a programme to cull grey squirrels to protect red squirrels. You, as Minister, fund a programme to cull deer to protect new tree growth. Yet, today, you are not prepared to cull badgers in north Pembrokeshire to protect cattle and cattle farming. Farming is

ailadrodd yr hyn a ddywedodd William Powell; sut y byddwch yn ceisio sicrhau nad yw unigolion yn gofalu am bethau eu hunain ac yn dechrau saethu a lladd moch daear neu, os yw'r dystiolaeth sydd gennyf yn gywir, yn parhau i saethu a lladd moch daear? Rhaid imi groesawu hyn fel rhywun sy'n byw yn sir Benfro ac sydd wedi gwrthwynebu o'r cychwyn. Mae'n rhaid imi ei groesawu i'r gymuned honno, Weinidog. Yn fy marn i, byddai wedi cael ei rhwygo'n ddarnau a byddai effaith andwyol wedi bod ar fusnesau, yn enwedig mewn cyrchfan dwristiaeth hynod boblogaidd. Diolch, Weinidog.

John Griffiths: Diolch i Joyce Watson am gydnabod effaith ddifrifol iawn y clefyd hwn ar deuluoedd sy'n ffermio gwartheg a'r gymuned wledig ehangach, sy'n hollol wir. Rwyf hefyd yn cytuno bod hon yn rhaglen ddileu hirdymor. Fel y dywedais yn gynharach, nid oes unrhyw atebion cyflym a hawdd, yn anffodus. Rhaid inni ymrwymo i hyn yn y tymor hir a rhaid iddi fod yn ffordd gynaliadwy. Yn wir, mae'r adolygiad gwyddonol yn trafod peidio â chodi disgwyliadau bod unrhyw atebion cyflym neu hawdd i'r clefyd dychrynlyd hwn, oherwydd, yn anffodus, nid yw hynny'n wir. Rydym yn gwerthuso'r rhaglen yn gyson ac yn dysgu gwersi wrth inni symud ymlaen, a bydd hynny'n parhau i fod yn wir. Bydd hynny'n cynnwys mesurau'n ymwneud â gwartheg ac, yn wir, mae rhai enghreifftiau penodol o hynny yn y fframwaith cynhwysfawr ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Byddaf yn ailadrodd yr hyn a ddywedais wrth ymateb i William Powell, sef bod y Ddeddf Gwarchod Moch Daear yn bodoli am reswm da iawn. Mae'n gyfraith, a rhaid ei dilyn.

Elin Jones: Weinidog, gobaith eich Llywodraeth oedd y byddai'r dystiolaeth wyddonol a gomisiynwyd gennych yn darparu tystiolaeth i beidio â mynd ati i ddifa moch daear. Mae wedi gwneud y gwrthwyneb, ac wedi cadarnhau'r gostyngiad mewn TB sy'n deillio o ddifa moch daear. Rhoddodd eich gwyddonwyr y penderfyniad yn ôl i chi—y gwleidyddion yn y Cabinet. Weinidog, rydych yn ariannu rhaglen i ddifa gwiwerod llwyd i ddiogelu'r wiwer goch. Rydych chi, fel Gweinidog, yn ariannu rhaglen i ddifa ceirw i warchod tyfiant coed newydd. Eto i gyd, heddiw, nid ydych yn

of secondary importance to this Government.

Vaccination offers no protection to cattle from already diseased badgers, especially in an area such as north Pembrokeshire, where a high percentage of badgers are already infected with TB. Today, farmers have been severely let down by your Government. You are failing to allow them to protect their cattle from TB infection. Do you agree with me that farmers will now have to consider how best to protect their cattle? I, for one, would not blame them however they choose to do that.

Alun Davies: You cannot say that.

Elin Jones: I just did.

John Griffiths: May I begin by saying that I am very concerned and disappointed to hear Elin Jones's uncharacteristic closing remarks? As I have said earlier on at least two occasions in responding to Members, the law is there for very good reason. The Protection of Badgers Act is on the statute book and must be observed. We must be careful and guarded in remarks that we make with regard to that legislation and the protection that it rightly affords.

I do not accept in any way that we have let farmers down. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.'] I have already stated on a number of occasions that, previously, not a single badger was culled. Notwithstanding the very able Minister for Rural Affairs that we had in the last Government, the legal difficulties involved in these matters prevented a single badger being culled. We now have the science review, as I mentioned earlier, and it refers to various levels of uncertainty when it comes to any measure to deal with this disease. We also have the legal protections afforded by the Animal Health Act 2002 and some fairly substantial hurdles to be overcome before a cull is allowed to proceed. That is the background in terms of the science and the law.

barod i ddifa moch daear yng ngogledd sir Benfro er mwyn amddiffyn gwartheg a ffermio gwartheg. Eilaidd yw ffermio i'r Llywodraeth hon.

Nid yw brechu yn cynnig unrhyw amddiffyniad i wartheg rhag moch daear sydd eisoes wedi'u heintio, yn enwedig mewn ardal fel gogledd sir Benfro, lle mae canran uchel o foch daear wedi'u heintio â TB eisoes. Heddiw, mae ffermwyr wedi cael eu siomi'n ddifrifol gan eich Llywodraeth. Rydych yn methu â chaniatáu iddynt ddiogelu eu gwartheg rhag TB. A ydych yn cytuno â mi y bydd yn rhaid i ffermwyr yn awr ystyried y ffordd orau o ddiogelu eu gwartheg? Ni fyddwn i yn gweld bai arnynt, sut bynnag y maent yn dewis gwneud hynny.

Alun Davies: Ni allwch ddweud hynny.

Elin Jones: Rwyf newydd wneud.

John Griffiths: A gaf i ddechrau drwy ddweud fy mod yn bryderus iawn ac yn siomedig o glywed sylwadau annodweddiadol Elin Jones wrth gloi? Fel y dywedais yn gynharach ar o leiaf ddau achlysur wrth ymateb i'r Aelodau, mae rhesymau da dros gael y gyfraith. Mae'r Ddeddf Gwarchod Moch Daear ar y llyfr statudau, a rhaid ei dilyn. Mae'n rhaid inni fod yn ofalus ac yn wyliadwrus wrth wneud sylwadau o ran y ddeddfwriaeth honno a'r diogelwch a gaiff ei sicrhau ganddi, a hynny'n gywir ddigon.

Nid wyf yn derbyn mewn unrhyw ffordd ein bod wedi siomi ffermwyr. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.'] Rwyf wedi dweud ar sawl achlysur eisoes nad oedd yr un mochyn daear wedi'i ddifa cynt. Er gwaethaf y Gweinidog dros Faterion Gwledig galluog iawn oedd gennym yn y Llywodraeth ddiwethaf, roedd yr anawsterau cyfreithiol sy'n ymwneud â'r materion hyn wedi atal yr un mochyn daear rhag cael ei ddifa. Mae'r adolygiad gwyddonol gennym erbyn hyn, fel y soniais yn gynharach, ac mae'n cyfeirio at wahanol lefelau o ansicrwydd o ran unrhyw fesur i fynd i'r afael â'r clefyd hwn. Mae gennym hefyd y diogelwch cyfreithiol a roddir gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002 ac mae rhai rhwystrau eithaf sylweddol i'w goresgyn cyn y caniateir i raglen ddifa symud ymlaen.

Dyna'r cefndir o ran y wyddoniaeth a'r gyfraith.

What we can do is get on and do something for the cattle farmers in the intensive action area by having this vaccination programme. It will not help infected badgers, but we estimate that something like three out of four of the badgers in the intensive action area are not infected, and it will give a substantial degree of resistance to the disease to those uninfected badgers. The science review states that it is then logical to assume, in terms of expert opinion, that that will, over time, lead to a reduction in the incidence in cattle. It is quite clear that the Welsh Government regards farmers and cattle farmers in Wales as very important to Wales indeed. We will continue to work in partnership with them. We will get on and we will do something to address the wildlife element.

Yr hyn y gallwn ei wneud yw mynd ati i wneud rhywbeth ar gyfer y ffermwyr gwartheg yn yr ardal gweithredu dwys drwy gael y rhaglen frechu hon. Ni fydd yn helpu moch daear sydd wedi'u heintio, ond rydym yn amcangyfrif bod tua thri o bob pedwar o'r moch daear yn yr ardal gweithredu dwys heb gael eu heintio, a bydd yn sicrhau y gall y moch daear nad ydynt wedi'u heintio wrthsefyll y clefyd i raddau sylweddol. Dywed yr adolygiad gwyddonol ei bod yn rhesymegol, felly, o ran y farn arbenigol, y bydd hynny, ymhén amser, yn arwain at ostyngiad yn nifer yr achosion mewn gwartheg. Mae'n hollol glir bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ffermwyr a ffermwyr gwartheg yng Nghymru yn bwysig iawn i Gymru. Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â hwy. Byddwn yn bwrw ymlaen a byddwn yn gwneud rhywbeth i fynd i'r afael â'r elfen bywyd gwyllt.

Paul Davies: As someone who lives in the proposed intensive action area, I am extremely disappointed with the Minister's statement today. More importantly, farmers in my constituency will be very angry that there has been a substantial change in your TB eradication policy. We have heard the Minister quoting from the report of the bovine TB science review group. Let me quote something else that is stated in that report. It says that the randomised badger culling trial

Paul Davies: A minnau'n byw yn yr ardal gweithredu dwys arfaethedig, rwyf yn siomedig iawn gyda datganiad y Gweinidog heddiw. Yn bwysicach fyth, bydd ffermwyr yn fy etholaeth i yn ddiog iawn bod newid sylweddol yn eich polisi ar ddileu TB. Rydym wedi clywed y Gweinidog yn dyfynnu o adroddiad y grŵp adolygu gwyddonol ar TB buchol. Gadewch imi ddyfynnu rhywbeth arall sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad. Mae'n dweud bod yr hap-dreial difa moch daear

3.15 p.m.

'showed that proactive badger culling as conducted in the trial resulted in an overall beneficial effect on confirmed bTB cattle herd breakdowns compared with 'survey only' (no cull) areas'.

wedi dangos bod difa moch daear yn rhagweithiol, fel y gwnaed yn y treial, wedi arwain at fudd cyffredinol o ran achosion TB mewn buchesi gwartheg, o'i gymharu ag ardaloedd a gafodd eu harolygu yn unig a lle na fu difa.

Given that clear point in the report, can the Minister tell us why the culling of badgers is not included in his TB eradication policy now?

O gofio'r pwynt eglur hwnnw yn yr adroddiad, a all y Gweinidog ddweud wrthym pam nad yw difa moch daear bellach wedi'i gynnwys yn ei bolisi i ddileu TB?

I also note that, in one of his framework document action points, he states that he will

Nodaf hefyd ei fod yn datgan, yn un o bwyntiau gweithredu ei ddogfen fframwaith,

y bydd yn

‘continue to monitor levels of TB in other species and introduce new legislation where necessary to ensure appropriate powers to manage the TB breakdowns in those species’.

‘Parhau i fonitro lefelau TB mewn anifeiliaid eraill a chyflwyno deddfwriaeth newydd lle gwelir bod angen i sicrhau bod gennym y pwerau priodol i reoli’r achosion o TB yn yr anifeiliaid hynny’.

Will the Minister tell us what sort of new legislation and appropriate powers he is talking about?

A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym am ba fath o ddeddfwriaeth newydd a phwerau priodol y mae’n sôn?

In his action points, he talks a lot about vaccination. Indeed, in his framework document, he clearly states that

Yn ei bwyntiau gweithredu, mae’n sôn llawer am frechu. Yn wir, yn ei ddogfen fframwaith, mae’n datgan yn glir bod

‘developing an oral vaccine against TB for use in badgers is proving more difficult than originally hoped’.

‘datblygu brechlyn trwy’r geg yn erbyn TB ar gyfer moch daear wedi datblygu i fod yn waith anos na’r disgwyl’.

I remind the Minister, as has already been said, that vaccination prevents disease, but does not cure it. Does he accept, therefore, that badgers will have to be removed before vaccination has any chance of success? He makes it clear in his documents that vaccination and developing a vaccine will be extremely difficult. Given that this will take a long time, what specific effective measures will he take to help farmers in my constituency now? That is what farmers in my area want to know, because we have not heard anything from him today to that effect. The Minister has clearly let farmers down today.

Atgoffaf y Gweinidog, fel y dywedwyd eisoes, fod brechu yn atal clefyd, ond nid yw’n ei wella. A yw’n derbyn, felly, y bydd angen cael gwared arnynt cyn i’r brechu gael cyfle i lwyddo? Mae’n ei gwneud yn eglur yn ei ddogfennau y bydd brechu a datblygu brechlyn yn eithriadol o anodd. O ystyried y bydd hynny’n cymryd cryn amser, pa fesurau effeithiol penodol y bydd yn eu cymryd i helpu ffermwyr yn fy etholaeth yn awr? Dyna beth y mae’r ffermwyr yn fy ardal i eisiau ei wybod, oherwydd nid ydym wedi clywed unrhyw beth ganddo heddiw i’r perwyl hwnnw. Mae’n amlwg bod y Gweinidog wedi siomi ffermwyr heddiw.

John Griffiths: Already today, on numerous occasions, I have made the point that we will be getting on and doing something about the wildlife element, which has proved so difficult in the past. The science review uses a figure—of course, it is talking about the randomised badger cull trials rather than the intensive action area—of 16% over nine years as the benefit that could be expected from a cull. Given that, in the intensive action area, infection is something in the order of 23%, that 16% reduction would take the figure down from 23% to just below 20% after nine years. As I said earlier, there are no quick or easy solutions to this disease.

John Griffiths: Eisoes heddiw, ar sawl achlysur, rwyf wedi pwysleisio y byddwn yn gweithredu ar yr elfen bywyd gwyllt, sydd wedi bod mor anodd yn y gorffennol. Mae’r adolygiad gwyddonol yn nodi ffigur—wrth gwrs, mae’n sôn am yr hap-dreialon difa moch daear yn hytrach na’r ardal gweithredu dwys—sef 16%, dros naw mlynedd, o ran y budd y gellir ei ddisgwyl ar ôl difa. O ystyried mai 23% yw lefel yr heintiad yn yr ardal gweithredu dwys, byddai gostyngiad o 16% yn lleihau’r ffigur o 23% i ychydig o dan 20% ar ôl naw mlynedd. Fel y dywedais yn gynharach, nid oes atebion cyflym a hawdd yng nghyd-destun y clefyd hwn.

The vaccination programme will take some time to work. It is a matter of it being effective over time, as the science review

Bydd y rhaglen frechu yn cymryd amser i weithio. Bydd yn effeithiol dros amser, fel y nodwyd yn yr adolygiad gwyddonol. Mae’n

states; it also states that a cull would have little or no effect in the early years. It is always good not to be too selective when quoting from this documentation, but to look at the uncertainties of any course of action, which is the general position.

As I have also said on a number of occasions already today, this is a matter where the law is of central importance, as we have seen in the past. There are considerable legal difficulties to be overcome as far as a culling policy and the Animal Health Act are concerned. However, we can now get on with that five-year vaccination programme and we can begin it over the next couple of months. I know that all my officials and colleagues in the Welsh Government are keen to get on and do just that.

The Deputy Presiding Officer: I ask the remaining speakers to be focused, or I will not be able to call you all.

Angela Burns: Minister, hope is a funny old thing. Even when you suspect what the result will be, you always hope that you might get a better outcome. When this was filibustered out of the last Assembly term, we all thought that this would end up being the result and, today, that is the case. I have five straight questions to ask you—

The Deputy Presiding Officer: Order. Five are too many, Angela.

Angela Burns: Okay, in order of priority, you note that there has been a 3% drop in the live cattle herds registered. That is not surprising. I know of at least three farmers in my area who have given up because they could no longer cope with the TB restrictions under which they were constantly operating. Will you look at how you might be able to monitor that, and report back to us so that we can ensure that farming does not completely die over the next few years?

Will you also look at what funding you might be able to provide for counselling services? I

nodi hefyd na fyddai difa'n cael fawr o effaith, neu ddim effaith o gwbl, yn y blynyddoedd cynnar. Wrth ddyfynnu o'r ddogfen honno, dylid osgoi bod yn rhy ddethol; dylid yn hytrach edrych ar yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag unrhyw ffordd o weithredu, sef y safbwynt cyffredinol.

Fel yr wyf hefyd wedi dweud ar nifer o achlysuron heddiw, mae hwn yn fater lle mae'r gyfraith yn hollbwysig, fel y gwelsom yn y gorffennol. Mae anawsterau cyfreithiol sylweddol i'w goresgyn wrth ystyried polisi difa a'r Ddeddf Iechyd Anifeiliaid. Fodd bynnag, gallwn symud ymlaen yn awr â'r rhaglen frechu bum mlynedd a'i dechrau yn y misoedd nesaf. Gwn fod fy holl swyddogion a'm cydweithwyr o fewn Llywodraeth Cymru yn awyddus i fynd ati i wneud hynny.

Y Dirprwy Lywydd: Gofynnaf i'r siaradwyr sydd ar ôl gadw ffocws, neu ni fyddaf yn gallu galw arnoch i gyd.

Angela Burns: Weinidog, hen beth rhyfedd yw gobaith. Hyd yn oed pan fyddwch yn amau beth fydd y canlyniad, byddwch bob amser yn gobeithio cael canlyniad gwell. Pan fu herwddadlau ynghylch hyn a gafodd wared arno yn nhymor y Cynulliad diwethaf, roeddem i gyd o'r farn mai dyma fyddai'r canlyniad yn y pen draw, a daeth hynny'n wir heddiw. Mae gennyf bum cwestiwn pendant i'w gofyn ichi—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae pump yn ormod, Angela.

Angela Burns: Iawn, yn nhrefn blaenoriaeth, rydych yn nodi y bu gostyngiad o 3% yn nifer y buchesi gwartheg byw sy'n cael eu cofrestru. Nid yw hynny'n syndod. Gwn am o leiaf dri ffermwr yn fy ardal i sydd wedi rhoi'r gorau iddi am nad oeddent yn gallu ymdopi â'r cyfyngiadau TB yr oeddent yn gweithredu oddi tanynt drwy'r adeg. A wnewch chi edrych ar sut y gallech fonitro hynny, ac a wnewch adrodd yn ôl fel y gallwn sicrhau nad yw ffermio yn marw'n gyfan gwbl dros y blynyddoedd nesaf?

A wnewch chi hefyd edrych ar ba gyllid y gallech ei ddarparu ar gyfer gwasanaethau

heard a backbencher somewhere over there say that it is a good day for badgers; well, it is a very bad day for the 70% of farmers who cannot cope with seeing their prize herds exterminated in front of them. Farm Crisis Network and other charities need funding to be able to go out there to stand shoulder to shoulder with those farmers, giving them the counselling and support that they need when they are going through such a difficult time.

Your own report talks about the economic impact on those farmers, and I wonder whether you might be able to look at that in the future, to see—

The Deputy Presiding Officer: Order. Conclude now, please.

Angela Burns: Production is lower, farmers end up working for longer and farm income is lower. Could you see what you might be able to do about that? Having some money for a dead animal is simply not sufficient.

John Griffiths: I said previously that we all agree that this is a terrible disease and that it has to be eradicated. This is a long-term effort, but we can make substantial progress towards that long-term objective. In doing so, we have to address the wildlife element, and that is what the vaccination programme will be designed to do. We need to continue working in close co-operation with the farming industry and all major stakeholders. Of course, we recognise the impact on cattle-farming families. I mentioned earlier that part of our four-year strategy and framework going forward will be a new helpline service that will be about providing business and personal support. I hope that that will be effective.

In terms of the number of cattle herds registered in Wales, we know that the agriculture industry is a very important part of Wales. Wales is a very rural country, and farming is very important to us. That is why we were all very pleased in the Welsh Government to see strong performance in

cynghori? Clywais aelod o'r meinciau cefn rywle yn y fan acw yn dweud ei fod yn ddiwrnod da i foch daear; wel, mae'n ddiwrnod gwael iawn i'r 70% o ffermwyr sy'n methu ymdopi â gweld eu buchesi arobryn yn cael eu difodi o'u blaenau. Mae angen arian ar y Rhwydwaith Argyfwng Ffermio ac ar elusennau eraill i allu gweithredu gan sefyll ochr yn ochr â'r ffermwyr hynny, gan roi iddynt y cyngor a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt wrth iddynt brofi adeg mor anodd.

Mae eich adroddiad eich hun yn sôn am yr effaith economaidd ar y ffermwyr hynny; tybed a fydech yn gallu edrych ar hynny yn y dyfodol, i weld—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Dewch i gasgliad yn awr, os gwelwch yn dda.

Angela Burns: Mae llai o gynhyrchu, mae ffermwyr yn gorfod gweithio yn hwy, ac mae incwm ffermydd yn is. A allech chi edrych ar beth y gallech wneud am hynny? Nid yw cael rhywfaint o arian am anifail marw yn ddigonol.

John Griffiths: Rwyf eisoes wedi dweud ein bod i gyd yn gytûn bod hwn yn glefyd erchyll a bod yn rhaid ei ddileu. Mae hon yn ymdrech hirdymor, ond gallwn wneud cynnydd sylweddol tuag at yr amcan hirdymor hwnnw. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid inni fynd i'r afael â'r elfen bywyd gwyllt, a byddwn yn cynllunio'r rhaglen frechu i wneud hynny. Mae angen inni barhau i gydweithio'n agos â'r diwydiant ffermio a'r prif randdeiliaid i gyd. Wrth gwrs, rydym yn cydnabod yr effaith ar deuluoedd sy'n ffermio gwartheg. Soniais yn gynharach y bydd rhan o'n strategaeth bedair blynedd a'r fframwaith wrth symud ymlaen yn cynnwys gwasanaeth llinell gymorth newydd a fydd yn darparu cymorth busnes a chymorth personol. Rwy'n gobeithio y bydd hynny'n effeithiol.

O ran nifer y buchesi gwartheg sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru, gwyddom fod y diwydiant amaethyddiaeth yn rhan bwysig iawn o Gymru. Mae Cymru yn wlad wledig iawn, ac mae ffermio yn bwysig iawn inni. Dyna pam yr oedd pawb ohonom yn Llywodraeth Cymru yn falch iawn o weld

recent times from the agriculture industry in Wales, including the cattle industry.

Russell George: Minister, in a Government statement in 2010, the previous Minister said this:

‘While there are mixed views about the benefits of culling badgers in controlling the spread of TB, evidence from a number of studies shows that culling badgers can reduce TB in cattle. We have learnt lessons from the previous trials and will apply them in the pilot area.’

Why do you believe that vaccination on its own, rather than a two-pronged approach, with controlled culling, is a better option? That is my first question.

The last paragraph of the executive summary in today’s report says that the group recognises that, while the TB eradication programme should be informed by a science evidence base, the precise measures adopted will be a political judgment. Could you comment on that? The Farmers Union of Wales has released a press release stating that today’s decision goes against the science and marks a cowardly betrayal of north Pembrokeshire farmers and the Welsh farming industry as a whole. Could you comment on that press release?

The Deputy Presiding Officer: Order. Conclude now, please.

Russell George: Minister, will your proposed vaccine be an oral vaccine, and when do you estimate that the vaccine will be on the market? In 2010, the Government said that it would not be available until 2014 at the earliest.

John Griffiths: I will begin by addressing some of the more specific questions. The vaccine will be injected. It is currently available; in fact, it is being used. We know that this is doable. We know that the vaccine will give resistance to uninfected badgers. As I said earlier, the science review stated that it is logical to assume that creating resistance in uninfected badgers, over time, will result in

perfformiad cadarn y diwydiant amaethyddiaeth yng Nghymru yn ddiweddar, gan gynnwys y diwydiant gwartheg.

Russell George: Weinidog, mewn datganiad gan y Llywodraeth yn 2010, dywedodd y cyn-Weinidog:

Er bod barn gymysg am fuddion difa moch daear o ran rheoli lledaeniad TB, mae tystiolaeth o nifer o astudiaethau yn dangos y gallai difa moch daear leihau nifer yr achosion o TB mewn gwartheg. Rydym wedi dysgu’r gwersi o’r treialon blaenorol a byddwn yn eu rhoi ar waith yn yr ardal beilot.

Pam rydych yn credu bod brechu ar ei ben ei hun, yn hytrach na dull deublyg, gyda difa rheoledig, yn ddewis gwell? Dyna fy nghwestiwn cyntaf.

Mae paragraff olaf crynodeb gweithredol adroddiad heddiw yn nodi bod y grŵp yn cydnabod, er y dylai’r rhaglen i ddileu TB gael ei llywio gan sail dystiolaeth wyddonol, mai barn wleidyddol a fydd yn pennu’r union fesurau a fydd yn cael eu mabwysiadu. Beth yw eich sylw am hynny? Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi rhyddhau datganiad i’r wasg yn datgan bod penderfyniad heddiw yn mynd yn groes i’r wyddoniaeth a’i fod yn bradychu ffermwyr gogledd sir Benfro a diwydiant ffermio Cymru gyfan mewn ffordd lwfr. Beth yw eich sylw am y datganiad i’r wasg?

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Dewch i gasgliad yn awr, os gwelwch yn dda.

Russell George: Weinidog, a yw’r brechlyn arfaethedig yn frechlyn trwy’r geg, a beth yw eich amcangyfrif o ran pryd y bydd y brechlyn ar y farchnad? Yn 2010, dywedodd y Llywodraeth na fyddai ar gael cyn 2014.

John Griffiths: Dechreuaf drwy ateb rhai o’r cwestiynau mwy penodol. Bydd y brechlyn yn cael ei chwistrellu. Mae ar gael ar hyn o bryd; yn wir, mae’n cael ei ddefnyddio. Rydym yn gwybod bod modd gwneud hyn. Gwyddom y bydd y brechlyn yn rhoi ymwrthedd i foch daear nad ydynt wedi’u heintio. Fel y dywedais yn gynharach, nododd yr adolygiad gwyddonol ei bod yn

reduced incidence in cattle.

The Member referred to the previous Minister. As I said earlier, not a single badger was culled under the previous Government. We can now get on and vaccinate. It is a matter of looking at the science and the uncertainties of any course of action, and it is also very much a matter of looking at the legal considerations. The Member referred to the FUW press release. I believe that what I have announced today is the right thing to do and the best course of action.

Nick Ramsay: Minister, can you be very specific in your answer to the question of when you intend a vaccination process to start? Also, could you give us an idea of the estimated cost of the vaccination programme? Finally, the Minister with responsibility in this area in the previous Government had the confidence of farmers. As you will have gathered from comments made today, there is a great lack of confidence among our rural community that this will achieve the end that you hope for. I really hope that you are right, Minister, because you are clearly set on this course of action. How do you intend to restore the confidence of farmers and others in our rural community that has today been shattered?

John Griffiths: We are going to continue to work in very close partnership with the farming industry and other stakeholders by actually getting on and doing something. Vaccinating badgers in the intensive action area will start this summer. The cost is around £1 million per year, but we will have to revisit the figure as we implement the vaccination programme.

We are determined to continue working with the farming industry and all stakeholders in addressing this terrible disease and its unacceptable impacts on cattle farmers, the wider rural community and Welsh Government budgets. I very much hope that

rhesymegol tybio y bydd creu ymwrthedd mewn moch daear nad ydynt wedi'u heintio, dros amser, yn arwain at lai o achosion mewn gwartheg.

Cyfeiriodd yr Aelod at y cyn-Weinidog. Fel y dywedais yn gynharach, ni chafodd yr un mochyn daear ei ddifa o dan y Llywodraeth flaenorol. Gallwn fynd ati yn awr i frechu. Mae'n fater o ystyried y wyddoniaeth a'r ansicrwydd ynghylch unrhyw gamau gweithredu, ac mae hefyd, i raddau helaeth, yn fater o edrych ar yr ystyriaethau cyfreithiol. Cyfeiriodd yr Aelod at ddatganiad Undeb Amaethwyr Cymru i'r wasg. Credaf mai'r hyn yr wyf wedi'i gyhoeddi heddiw yw'r peth iawn i'w wneud a'r ffordd orau o weithredu.

Nick Ramsay: Weinidog, a allwch fod yn benodol iawn wrth ateb y cwestiwn ynghylch pryd rydych yn bwriadu dechrau'r broses frechu? Hefyd, a allech roi syniad i ni o'r amcangyfrif o gost y rhaglen frechu? Yn olaf, roedd gan ffermwyr hyder yn y Gweinidog a oedd â chyfrifoldeb am y maes hwn yn y Llywodraeth flaenorol. Fel y byddwch wedi nodi o'r sylwadau a wnaed heddiw, mae diffyg hyder mawr ymysg ein cymunedau gwledig y bydd y cynllun hwn yn cyflawni'r hyn rydych yn gobeithio amdano. Rwy'n mawr obeithio eich bod yn iawn, Weinidog, oherwydd mae'n amlwg eich bod yn mynd i lynu wrth y camau gweithredu hyn. Sut rydych yn bwriadu adfer hyder ffermwyr a phobl eraill sydd yn ein cymunedau gwledig, wedi i'r hyder hwnnw gael ei ddryllio heddiw?

John Griffiths: Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth agos iawn â'r diwydiant ffermio a rhanddeiliaid eraill gan symud ymlaen a gweithredu. Bydd brechu moch daear yn yr ardal gweithredu dwys yn dechrau yn yr haf. Bydd y gost tua £1 miliwn y flwyddyn, ond bydd yn rhaid inni ailedrych ar y ffigur wrth inni roi'r rhaglen frechu ar waith.

Rydym yn benderfynol o barhau i weithio gyda'r diwydiant ffermio a'r holl randdeiliaid wrth fynd i'r afael â'r clefyd erchyll hwn a'i effeithiau annerbyniol ar ffermwyr gwartheg, y gymuned wledig ehangach a chyllidebau Llywodraeth Cymru. Rwy'n mawr obeithio y

all of us—all partners and stakeholders—can now unite around this badger vaccine programme.

The Deputy Presiding Officer: Thank you, Minister. I realise that Members have deep and sincere opinions, and that many of them conflict on this matter. I do not believe that I heard anything that was out of order during that statement, but we are all obliged to ensure that any statement that we make in the Chamber could not easily be misconstrued by members of the public as to somehow condone unlawful or even illegal activity. Should I hear anything along those lines, it will of course be called out of order.

gallwn oll—pob partner a rhanddeiliad—ddod ynghyd yn awr ar y rhaglen brechu moch daear.

Y Dirprwy Lywydd: Diolch, Weinidog. Rwy'n sylweddoli bod gan bob Aelod farn angerddol a diffuant, ac y bydd llawer ohonynt yn gwrthdaro ar y mater hwn. Ni chredaf imi glywed unrhyw beth a oedd allan o drefn yn ystod y datganiad, ond rhaid inni i gyd sicrhau nad ydym yn datgan unrhyw beth yn y Siambr a allai gael ei gamddehongli gan aelodau'r cyhoedd i fod yn caniatáu gweithgarwch anghyfreithlon. Os byddaf yn clywed unrhyw beth felly, bydd, wrth gwrs, yn cael ei alw allan o drefn.

Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Awdurdodaeth Tribiwnlysoedd Eiddo Preswyl) (Cymru) 2012
The Mobile Homes Act 1983 (Jurisdiction of Residential Property Tribunals) (Wales) Order 2012

Cynnig NDM4941 Jane Hutt

Motion NDM4941 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Awdurdodaeth Tribiwnlysoedd Eiddo Preswyl) (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Chwefror 2012.

Approves that the draft The Mobile Homes Act 1983 (Jurisdiction of Residential Property Tribunals) (Wales) Order 2012 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 28 February 2012.

The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis): I move the motion.

Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis): Cynigiau y cynnig.

Park home site disputes are currently dealt with through the courts. This can be a convoluted and expensive route for people—people who, in many cases, are no longer working, having decided to live in this type of accommodation to fully enjoy the benefits of retirement. The sheer cost of going through the legal system, coupled with the length of time that the process can take, currently serves as a barrier to many people, allowing unsavoury practices to continue.

Mae anghydfodau yn ymwneud â safleoedd cartrefi mewn parciau yn cael eu trin drwy'r llysoedd ar hyn o bryd. Gall hynny fod yn llwybr cymhleth a chostus i bobl—pobl nad ydynt, mewn llawer o achosion, yn gweithio bellach, ar ôl penderfynu byw yn y math hwn o lety er mwyn mwynhau buddion ymdddol yn llawn. Mae'r gost o fynd drwy'r system gyfreithiol, ynghyd â'r amser y gall y broses ei gymryd, yn rhwystr i lawer o bobl ar hyn o bryd, sy'n caniatáu i arferion annymunol barhau.

The transfer of these disputes to the residential property tribunal will remove

Byddai trosglwyddo'r awdurdod am yr anghydfodau hyn i'r tribiwnlys eiddo preswyl

these barriers, enabling people to obtain resolution in a far more timely and cost-effective manner. The residential property tribunal is already experienced in obtaining results in many areas of property dispute in Wales, including leasehold and rent levels in the private rented sector. It is ready and willing to take on cases for park home owners. It is difficult to predict what the take-up will be, but what we are doing is giving people a better way of pursuing matters, should they wish to do so.

A joint England and Wales consultation was carried out, with responses published in 2010, and the widespread consensus was that the transfer of jurisdiction was a good thing. England subsequently transferred jurisdiction in April 2011, and I am informed that, so far, this has been a success.

As an aside, I would just make it clear that, for the time being at least, this Order does not include Gypsy and Traveller sites. A full consultation will be held later on this year to establish the merits of transferring jurisdiction for these sites. Subject to the outcome of that, there may well be a need to amend the regulations to include those sites.

Frankly, I am sure that we would not want to put park home owners in Wales at a disadvantage, so I am urging all Members this afternoon to support the Government in introducing this worthwhile and much needed change.

3.30 p.m.

Peter Black: I welcome this Order, which is long overdue and which I think could have been made before now. I welcome the fact that the Minister has acted as quickly as he could once this matter was drawn to his attention. Certainly, I think that this is a very valuable tool in protecting the owners of park homes in particular. I, of course, intend to bring forward a Member proposed Bill, which will change the role of the residential property tribunal. In the meantime, this will

yn dileu'r rhwystrau hynny, gan alluogi pobl i ddatrys achosion mewn ffordd lawer mwy amserol a chost-effeithiol. Mae'r tribiwnlys eiddo preswyl eisoes yn brofiadol o ran cael canlyniadau ar gyfer nifer o feysydd yng Nghymru lle y mae anghydfod ynghylch eiddo, gan gynnwys lefelau prydles a rhent yn y sector rhentu preifat. Mae'n barod i ymdrin ag achosion perchnogion cartrefi mewn parciau. Mae'n anodd rhagweld faint fydd yn manteisio ar hynny, ond rydym yn cynnig gwell ffordd i bobl geisio datrys materion, pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cyd yng Nghymru a Lloegr, ac fe gyhoeddwyd yr ymatebion yn 2010. Y consensws eang oedd bod trosglwyddo'r awdurdod yn beth da. Wedi hynny, trosglwyddodd Lloegr yr awdurdod ym mis Ebrill 2011, ac rwyf ar ddeall bod hynny, hyd yma, wedi bod yn llwyddiant.

Hefyd, rwy'n nodi er eglurder nad yw'r Gorchymyn, am y tro o leiaf, yn cynnwys safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Bydd ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal yn ddiweddarach eleni i ddarganfod rhinweddau trosglwyddo'r awdurdod ar gyfer y safleoedd hynny. Yn amodol ar ganlyniad hynny, efallai y bydd angen diwygio'r rheoliadau i gynnwys y safleoedd hynny.

Yn blwmp ac yn blaen, rwy'n siŵr nad ydym am roi perchnogion cartrefi mewn parciau yng Nghymru o dan anfantais, felly rwy'n annog yr holl Aelodau y prynhawn yma i gefnogi'r Llywodraeth i gyflwyno'r newid hwn, sy'n werth chweil, ac y mae ei angen yn fawr.

Peter Black: Rwyf yn croesawu'r Gorchymyn hwn, sy'n hir-ddisgwylidig ac y gallai, yn fy marn i, fod wedi cael ei wneud cyn hyn. Croesawaf y ffaith bod y Gweinidog wedi gweithredu mor gyflym ag y gallai ar ôl i'w sylw gael ei dynnu at y mater hwn. Yn sicr, credaf fod hwn yn offeryn gwerthfawr iawn o ran amddiffyn perchnogion cartrefi mewn parciau yn arbennig. Rwyf, wrth gwrs, yn bwriadu cyflwyno Bil arfaethedig Aelod, a fydd yn newid rôl y tribiwnlys eiddo

provide some safeguards for park home owners. It will also deal with matters outside my legislation in resolving disputes, which will not be covered by that Bill. Therefore, this is welcome.

When you look at some of the cases that have taken place in England in terms of resolution around increases in pitch fees, disputes over changes to the site itself, and many other matters that have come before the residential property tribunal in England, you can see the value of having this Order and of having it available to park owners. In some instances, they have ruled in favour of site owners where that has been appropriate. This is useful as it will provide a particular forum for dispute resolution. Furthermore, I hope that my Member proposed Bill will also provide a useful body for dealing with a number of matters contained in the legislation.

Julie James: I wanted to make a few remarks and ask the Minister to undertake to monitor some of the resulting cases in the tribunal. While I welcome this, along with all the remarks made by Peter Black about the potential Member proposed Bill, there have been other moves to tribunals from the courts in the past, notably, for example, the special educational needs tribunal, where the use of lawyers by defendants has escalated matters and caused the tribunal to look just like a court in a very short time. That is not the intention here. So, I ask the Minister to monitor that situation carefully, to ensure that advice and support are available to park home owners in the residential tribunal, as appropriate, pending the Member proposed Bill, which, of course, will seek to correct a number of other issues that we all know are causing problems in park homes.

The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis): I thank Members for their comments on the proposed changes to this legislation. Park home owners, we are all agreed, are being disadvantaged by the cost and the formality

preswyl. Yn y cyfamser, bydd hyn yn rhoi rhywfaint o ddiogelwch i berchnogion cartrefi mewn parciau. Bydd hefyd yn ymdrin â materion y tu allan i fy neddfwriaeth o ran datrys anghydfodau, na fydd yn cael eu cwmpasu gan y Bil hwnnw. Felly, mae hyn i'w groesawu.

Pan edrychwch ar rai o'r achosion sydd wedi digwydd yn Lloegr o ran datrys anghydfodau ynghylch cynnydd mewn ffioedd am leoedd ar safleoedd, anghydfodau ynghylch newidiadau i'r safleoedd eu hunain, a nifer o faterion eraill a ddaeth gerbron y tribiwnlys eiddo preswyl yn Lloegr, gallwch weld gwerth cael y Gorchymyn hwn a'i fod ar gael i berchnogion parciau. Mewn rhai achosion, maent wedi dyfarnu o blaid perchnogion safleoedd lle bu hynny'n briodol. Mae hyn yn ddefnyddiol gan y bydd yn darparu fforwm penodol ar gyfer datrys anghydfodau. Rwyf yn gobeithio y bydd fy Mil arfaethedig Aelod hefyd yn arwain at sefydlu corff defnyddiol i ymdrin â nifer o'r materion a geir yn y ddeddfwriaeth.

Julie James: Roeddwn am wneud ambell sylw a gofyn i'r Gweinidog addo monitro rhai o'r achosion sy'n mynd i'r tribiwnlys. Er fy mod yn croesawu hyn, ynghyd â'r holl sylwadau a wnaethpwyd gan Peter Black am y Bil arfaethedig Aelod posibl, bu trosglwyddiadau eraill i dribiwnlysoedd o'r llysoedd yn y gorffennol, yn benodol, er enghraifft, y tribiwnlys anghenion addysgol arbennig, lle mae'r defnydd o gyfreithwyr gan ddiffnyddion wedi ymestyn achosion a gwneud i'r tribiwnlys edrych yn union fel llys mewn amser byr iawn. Nid dyna'r bwriad yma. Felly, gofynnaf i'r Gweinidog fonitro'r sefyllfa yn ofalus, i sicrhau bod cyngor a chymorth ar gael i berchnogion tai mewn parciau yn y tribiwnlys preswyl, fel y bo'n briodol, hyd nes y ceir y Bil arfaethedig Aelod, a fydd, wrth gwrs, yn ceisio cywiro nifer o faterion eraill y gwyddom oll sy'n achosi problemau o ran cartrefi mewn parciau.

Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis): Diolch i'r Aelodau am eu sylwadau ar y newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth hon. Rydym i gyd yn gytûn bod perchnogion tai mewn parciau o dan anfantais oherwydd cost, ffurfioldeb y

of arrangements and the length of time it takes to pursue a case through the courts currently. Julie James is quite right to make the point that with all changes such as this, we must be wary of any unintended consequences. I will undertake to monitor the resulting cases that we no doubt will see in Wales to ensure that if such unintended consequences occur, then we act to right that situation as best we can.

I know that this change has been welcomed by park home residents up and down the country. Consumer Focus Wales has recently been doing extremely good work in looking into the problems being faced by a number of park home residents. I pay tribute to Peter Black and the work that he is doing in looking closely at problems in park home communities in relation to his upcoming Bill. With that degree of consensus across the Chamber, I feel confident that if we, as an Assembly, support this this afternoon, it would be a step in the right direction in protecting park home owners.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there is no objection. The proposal is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Daeth y Dirprwy Lywydd dros dro (Rhodri Glyn Thomas) i'r Gadair am 3.34 p.m
The temporary Deputy Presiding Officer (Rhodri Glyn Thomas) took the Chair at 3.34 p.m.

Adroddiad Blynyddol 2010-11 Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn)
The Annual Report for 2010-11 of Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales (Estyn)

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Mae'r Llywydd wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jocelyn Davies, gwelliannau 2, 3, 4 a 5 yn enw William Graham, a gwelliannau 6, 7, 8, 9, 10, 11 a 12 yn enw Peter Black.

Cynnig NDM4943 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

trefniadau a faint o amser y mae'n ei gymryd i ddwyn achos drwy'r llysoedd ar hyn o bryd. Mae Julie James yn llygad ei lle i ddweud y dylem, gyda phob newid fel hwn, fod yn wylriadwrus o unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Byddaf yn ymgymryd i fonitro'r achosion dilynol y byddwn yn sicr yn eu gweld yng Nghymru i sicrhau, os bydd canlyniadau anfwriadol o'r fath yn digwydd, ein bod yn gweithredu i ddatrys y sefyllfa yn y modd gorau y gallwn.

Gwn fod y newid hwn wedi cael ei groesawu gan y bobl sy'n byw mewn cartrefi mewn parciau ledled y wlad. Bu Llais Defnyddwyr Cymru yn gwneud gwaith arbennig o dda yn ddiweddar wrth edrych ar y problemau a wynebir gan nifer o breswylwyr cartrefi mewn parciau. Hoffwn dalu teyrnged i Peter Black a'r gwaith y mae'n ei wneud i edrych yn ofalus ar broblemau mewn cymunedau cartrefi mewn parciau mewn perthynas â'i Fil sydd ar ddod. Gan fod cymaint o gonsensws ar draws y Siambr, rwyf yn ffyddiog, os byddwn ni, fel Cynulliad, yn cefnogi'r cynnig hwn y prynhawn yma, y byddai'n gam i'r cyfeiriad cywir i ddiogelu perchnogion cartrefi mewn parciau.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw ein bod yn derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Mae'r cynnig felly wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

The Temporary Deputy Presiding Officer: The Presiding Officer has selected amendment 1 in the name of Jocelyn Davies, amendments 2, 3 4 and 5 in the name of William Graham, and amendments 6, 7, 8, 9, 10, 11 and 12 in the name of Peter Black.

Motion NDM4943 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for

yn:

Nodi adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2010-11.

The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews): I move the motion.

I am pleased to open this this debate on the 2010-11 annual report of the Chief Inspector of Education and Training in Wales. I would like to place on record my thanks to Ann Keane and her team for their work in producing this report. This is the first report produced from findings from inspections carried out under the new common inspection framework. As such, it is difficult to draw direct comparisons with previous years. It can, though, help to set a benchmark for the full six years of the current inspection cycle, to 2016. I have to say that I do not think that there are any real surprises in the report.

At primary level, performance and standards are good or better in around 80% of schools. At secondary level, performance is good or better in around 65% of schools, and standards are good or better in some 60% of schools. At further education level, there is more of a mixed bag, with performance and standards ranging from excellent to unsatisfactory. In work-based learning, performance and standards are good in 75% of providers inspected. Therefore, the report confirms what we already know: that ours is a fair system aiming to be good. One of the values of the report is its contribution to a comprehensive evidence base across the education sector, which helps us to see how our policies are impacting on learners. Over recent years, the Chief Inspector's annual reports have helped to formulate my thinking and have directly led to the measures that we have taken to strengthen accountability. In particular, they have shown us that our policies need to focus on getting the basics right—particularly literacy and numeracy. This year's report shows that some 40% of pupils arrive at secondary schools with reading ages six months below their chronological age. That is not acceptable. At FE level, just under 20% of learners were assessed at below the basic level. Standards

Wales:

Notes the annual report for 2010-11 of Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales.

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews): Cynigiau y cynnig.

Mae'n bleser gennyf agor y ddadl hon ar adroddiad blynyddol 2010-11 y Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Hoffwn ddiolch i Ann Keane a'i thîm am eu gwaith yn llunio'r adroddiad hwn. Dyma'r adroddiad cyntaf a luniwyd o ganfyddiadau arolygiadau a gynhaliwyd o dan y fframwaith arolygu cyffredin newydd. Bydd yn anodd felly gwneud cymariaethau uniongyrchol gyda blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, gall helpu i osod meincnod ar gyfer chwe blynedd lawn y cylch arolygu cyfredol, hyd at 2016. Rhaid i mi ddweud nad wyf yn credu bod unrhyw beth gwirioneddol annisgwyl yn yr adroddiad.

Ar lefel gynradd, mae'r perfformiad a'r safonau yn dda neu'n well mewn tua 80% o ysgolion. Ar lefel uwchradd, mae'r perfformiad yn dda neu'n well mewn tua 65% o ysgolion, a'r safonau yn dda neu'n well mewn tua 60% o ysgolion. Mae'n fwy cymysg ar lefel addysg bellach, gyda pherfformiad a safonau yn amrywio o ardderchog i anfoddfaol. O ran dysgu yn y gwaith, mae perfformiad a safonau yn dda gan 75% o'r darparwyr a arolygwyd. Felly, mae'r adroddiad yn cadarnhau yr hyn a wyddom eisoes: sef bod gennym system weddol sy'n anelu i fod yn dda. Un o werthoedd yr adroddiad yw ei gyfraniad at sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr ar draws y sector addysg, sy'n ein helpu i weld sut mae ein polisiau yn effeithio ar ddysgwyr. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae adroddiadau blynyddol y Prif Arolygydd wedi helpu i lunio fy meddylfryd ac wedi arwain yn uniongyrchol at y mesurau yr ydym wedi'u rhoi ar waith i gryfhau atebolrwydd. Yn benodol, maent wedi dangos i ni fod angen i'n polisiau ganolbwyntio ar gael y sylfeini'n iawn—yn enwedig llythrennedd a rhifedd. Mae adroddiad eleni yn dangos bod tua 40% o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol uwchradd gydag oed darllen sydd chwe mis yn is na'u hoedran cronolegol. Nid yw hynny'n

of literacy and numeracy need to be improved during primary school so that all children have a level playing field when they start their secondary education.

There is still much scope for improvement. Some 23% of primary and secondary schools were judged as in need of follow-up visits from Estyn, and a further 21% of primary and 19% of secondary schools as in need of follow-up visits from their local authority. Local authorities need to take a more proactive role, which is particularly important when we note that just four of the 11 local authorities that were inspected have been given 'good' judgments for performance. Clearly, we still have some way to go before we secure the improvements we seek. My aim to have no unsatisfactory schools in Wales is not going to be achieved just yet. We are not going to turn the situation around overnight and we should not expect to see significant improvement next year. That is disappointing, but I believe that the 20-point action plan that I have outlined puts us on the right track.

The Estyn report recognises our flagship policies such as the foundation phase and our wellbeing initiatives. It recognises that active learning approaches are helping children to become increasingly independent, confident and creative, which has resulted in improvements in wellbeing, behaviour and physical development. It notes that boys, in particular, are benefitting from this approach and that standards of wellbeing are improving across the board. Learners feel safe and secure in their learning environment and can therefore focus on learning. There have been improvements in other areas too, including, for example, Welsh as a second language, where there was a small improvement on last year. Our policies are beginning to take effect, but there is some way to go before we move from 'fair' to 'good' and from there to 'excellent'.

The report shows that we already have pockets of excellent practice, with 5% of primary schools, 13% of secondary schools and one in four FE providers judged as

dderbyniol. Ar lefel addysg bellach, aseswyd bod ychydig o dan 20% o ddysgwyr yn is na'r lefel sylfaenol. Mae angen gwella safonau llythrennedd a rhifedd yn ystod y cyfnod ysgol gynradd fel bod pob plentyn yn cael yr un chwarae teg pan fyddant yn dechrau eu haddysg uwchradd.

Mae llawer o le i wella o hyd. Barnwyd bod tua 23% o ysgolion cynradd ac uwchradd angen ymweliadau dilynol gan Estyn, a bod 21% o ysgolion cynradd ac 19% o ysgolion uwchradd angen ymweliadau dilynol gan eu hawdurdod lleol. Mae angen i awdurdodau lleol gymryd rôl fwy rhagweithiol, sy'n arbennig o bwysig pan welwn mai dim ond perfformiad pedwar o'r 11 awdurdod lleol a archwiliwyd a ddyfarnwyd yn 'dda'. Mae'n amlwg bod gennym gryn ffordd i fynd cyn i ni sicrhau'r gwelliannau rydym yn eu ceisio. Ni fydd fy nod o beidio â chael unrhyw ysgolion anfoddfaol yng Nghymru yn cael ei wireddu eto. Nid ydym yn mynd i wyrddroi'r sefyllfa dros nos, ac ni ddylem ddisgwyl gweld gwelliant sylweddol y flwyddyn nesaf. Mae hynny'n siomedig, ond credaf fod y cynllun gweithredu 20 pwynt a amlinellais yn ein rhoi ar y trywydd iawn.

Mae adroddiad Estyn yn cydnabod ein polisiau blaenllaw fel y cyfnod sylfaen a'n mentrau lles. Mae'n cydnabod bod dulliau dysgu gweithredol yn helpu plant i ddod yn fwyfwy annibynnol, hyderus a chreadigol, sydd wedi arwain at welliannau mewn lles, ymddygiad a datblygiad corfforol. Mae'n nodi bod bechgyn, yn arbennig, yn elwa ar y dull hwn a bod safonau lles yn gwella ar y cyfan. Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd dysgu ac felly'n gallu canolbwyntio ar ddysgu. Bu gwelliannau mewn meysydd eraill hefyd, gan gynnwys, er enghraifft, Cymraeg fel ail iaith, lle bu gwelliant bach ers y llynedd. Mae ein polisiau yn dechrau cael effaith, ond mae dipyn o ffordd i fynd eto cyn i ni symud o 'gweddol' i 'da' ac oddi yno i 'rhagorol'.

Mae'r adroddiad yn dangos bod gennym eisoes bocedi o arfer rhagorol, gyda 5% o ysgolion cynradd, 13% o ysgolion uwchradd ac un o bob pedwar o ddarparwyr AB wedi

excellent overall. This confirms that we have world-class teachers and lecturers in Wales. However, we need to do more to spread that best practice and to learn lessons from what they are doing. Estyn's report includes case studies showing exemplars of best practice. For example, Sandfields Comprehensive School in Port Talbot has highly effective transition procedures and pupil tracking. The school works very closely with all its feeder primary schools and has a teacher dedicated to developing highly effective processes for the introduction of pupils in year 7.

My officials have developed best practice case studies for our website, and we are working closely with Estyn. Estyn is developing further good practice work. One school which was inspected in May 2009 and found to be in need of significant improvement was Mary Immaculate High School in Cardiff. Following that inspection, the current headteacher took up post. The school was re-inspected in January 2011 and found to have made good progress, and it was therefore removed from this category. The school attributes its improvement to its use of detailed pupil tracking systems, and we have seen an extraordinary boost to its results, as I referred to in a speech on 8 March. At further education level, the Estyn report includes a case study about Pembrokeshire College working with the energy and engineering sectors to deliver the highest quality education and training. We need to focus on these exemplars going forward and ensure that others learn from them.

Earlier this month, I announced the creation of a practitioners' panel to advise me and my department on best practice and the exchange of ideas between teachers and headteachers. The panel will have input into the design of the new Learning Wales website, which we will be developing this year and which will demonstrate good practice. Estyn, too, is holding a series of conferences aimed at promoting best practice in developing pupils' literacy skills across the curriculum in key stages 2 and 3. I am pleased that we see in this report that Estyn is putting its findings to

eu barnu yn rhagorol ar y cyfan. Mae hyn yn cadarnhau bod gennym athrawon a darlithwyr yng Nghymru o'r safon uchaf. Fodd bynnag, mae angen i ni wneud mwy i ledaenu'r arfer gorau hwnnw ac i ddysgu gwersi o'r hyn y maent yn ei wneud. Mae adroddiad Estyn yn cynnwys astudiaethau achos sy'n dangos enghreifftiau o arfer gorau. Er enghraifft, mae gan Ysgol Gyfun Sandfields ym Mhort Talbot weithdrefnau trosglwyddo ac olrhain disgyblion effeithiol iawn. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos iawn gyda'r holl ysgolion cynradd sy'n ei bwydo, ac mae ganddi athro sy'n canolbwyntio ar ddatblygu prosesau hynod effeithiol i gyflwyno disgyblion ym mlwyddyn 7.

Mae fy swyddogion wedi datblygu astudiaethau achos arfer gorau i'n gwefan, ac rydym yn gweithio'n agos gydag Estyn. Mae Estyn yn datblygu rhagor o waith ar arfer da. Un ysgol a arolygwyd ym mis Mai 2009 ac y canfuwyd bod angen ei gwella'n sylweddol oedd Ysgol Uwchradd Mary Immaculate yng Nghaerdydd. Yn dilyn yr arolygiad hwnnw, daeth y pennaeth presennol i'w swydd. Cafodd yr ysgol ei hail-arolygu ym mis Ionawr 2011 a chanfuwyd ei bod wedi gwneud cynnydd da, ac felly fe'i tynnwyd o'r categori hwn. Mae'r ysgol yn priodoli ei gwelliant i'w defnydd o systemau olrhain disgyblion manwl, ac rydym wedi gweld gwelliant sylweddol yn ei chanlyniadau, fel y soniais mewn araith ar 8 Mawrth. Ar lefel addysg bellach, mae adroddiad Estyn yn cynnwys astudiaeth achos am Goleg Sir Benfro yn gweithio gyda'r sectorau ynni a pheirianneg i ddarparu addysg a hyfforddiant o'r safon uchaf. Mae angen i ni ganolbwyntio ar yr enghreifftiau hyn wrth symud ymlaen a sicrhau bod eraill yn dysgu oddi wrthynt.

Yn gynharach y mis hwn, cyhoeddais y byddwn yn creu panel ymarferwyr i roi cyngor i mi a'm hadran ar arfer gorau a sut i gyfnewid syniadau rhwng athrawon a phenaethiaid. Bydd y panel yn cyfrannu at ddyluniad gwefan newydd Dysgu Cymru, y byddwn yn ei datblygu eleni ac a fydd yn arddangos arfer da. Mae Estyn hefyd yn cynnal cyfres o gynadleddau gyda'r bwriad o hyrwyddo arfer gorau wrth ddatblygu sgiliau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Rwyf yn falch ein bod yn gweld yn yr

good use and promoting best practice across Wales. Reports from Estyn help to inform the policies that we develop and will help us to drive up improvements in the future.

Gwelliant 1 Jocelyn Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Nodi ymhellach fod yr adroddiad yn dweud bod 'lefel isel y medrau llythrennedd yn dal i beri problemau yng Nghymru' ac nad yw 'gwella llythrennedd y disgyblion yn cael rhan ddigon canolog yn y gwaith o gynllunio cwricwlwm yr ysgol.'

Simon Thomas: Cynigiau welliant 1 yn enw Jocelyn Davies.

Hoffwn ddiolch i Estyn ac Ann Keane am eu hadroddiad, sy'n fodel o eglurdeb a chrynodder. Mae'n flin gennyf na allwn fod mor gryno ynglŷn â'r gwelliannau rydym yn eu trafod yn y ddadl hon. Rwy'n cofio athrawon yn dweud wrthyf yn yr ysgol nad hyd y traethawd oedd yn bwysig, ond yr ansawdd, ond mae nifer fawr o welliannau wedi'u cyflwyno i'r cynnig hwn. Nid yw Plaid Cymru'n anghytuno â'r rhan fwyaf ohonynt, ond byddai'n wastraff amser imi fynd drwyddynt fesul un. Serch hynny, rwyf am ddweud nad ydym yn gweld pwrpas mewn ymateb ysgrifenedig blynyddol gan y Llywodraeth i adroddiad blynyddol Estyn. Un peth rwy'n ei wybod yw bod y Llywodraeth a'i gweision sifil yn gallu ysgrifennu adroddiadau. Yr hyn rwyf am ei weld yw gweithredu gan y Llywodraeth ar adroddiad Estyn, a dyna'r hyn rwyf eisiau ffocysu arno y prynhawn yma, yn ogystal â'r gwelliannau sydd gan Blaid Cymru.

Mae gwelliannau Plaid Cymru yn tynnu sylw at y ffaith bod adroddiad Estyn yn dal i ganfod bod lefelau isel o lythrennedd yn broblem i'n cenedl ac nad yw gwella llythrennedd disgyblion yn ddigon canolog i waith ein hysgolion ac i'r cwricwlwm. Mae hynny yn ganfyddiad eithaf syfrdanol—ein bod yn dal i ganfod hynny yn ein hysgolion 10 mlynedd ar ôl datganoli a phum mlynedd ar ôl inni sicrhau'r atebolrwydd dros addysg.

adroddiad hwn fod Estyn yn rhoi ei ganfyddiadau ar waith ac yn hyrwyddo arfer gorau ledled Cymru. Mae adroddiadau gan Estyn yn helpu i lywio'r polisiau rydym yn eu datblygu a bydd yn ein helpu i sicrhau gwelliannau yn y dyfodol.

Amendment 1 Jocelyn Davies

Add as new point at end of motion:

Further notes that the report says that 'Wales still has problems of low level literacy' and 'improving pupils' literacy is not central enough to the design of the school curriculum.'

Simon Thomas: I move amendment 1 in the name of Jocelyn Davies.

I would like to thank Estyn and Ann Keane for their report, which is a model of clarity and succinctness. I am sorry that we cannot be as succinct in terms of the amendments to this motion. I remember teachers telling me in school that it was not the length of the essay that was important, but the quality, yet there are a great many amendments tabled this afternoon. Plaid Cymru does not disagree with most of them, but it would be a waste of time for me to go through them one by one. However, I would say that we do not see any purpose in an annual written response by the Government to Estyn's report. One thing I do know is that civil servants and the Government can write reports. What I want to see is action by the Government on the Estyn report, and that is what I want to focus on this afternoon, along with the amendments from Plaid Cymru.

The Plaid Cymru amendments highlight the fact that the Estyn report still finds low level literacy to be a problem within our nation, and says that improving pupils' literacy is not central enough to the work of our schools and to the curriculum. That is quite a staggering finding—that we are still finding that that is the case 10 years after devolution and five years after we secured accountability for education. We are all responsible in different

Rydym i gyd yn gyfrifol, yn ein gwahanol ffyrdd, am y sefyllfa hon, ac rwy'n croesawu nifer o'r camau mae'r Llywodraeth bresennol yn eu cymryd i wella'r sefyllfa.

Hoffwn ganolbwytio ar ddau beth. Yn gyntaf, mae'n amlwg bod y cyfnod sylfaen yn dechrau gweithio a'i fod, fel y dywedodd y Gweinidog, yn dechrau gwella disgwyliadau pobl ifanc a phlant, ac yn dechrau gwella cyrhaeddiad bechgyn. Mae hynny i'w groesawu. Yr hyn nad yw mor glir yn yr adroddiad, nac ychwaith yn natganiad y Gweinidog, yw sut rydym yn delio â disgyblion sy'n symud o'r cyfnod sylfaen i'r cyfnod nesaf, yn enwedig y trosi o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd. Fel y dywed yr adroddiad, yn y trosi hwnnw rydym yn canfod bod 40% o ddisgyblion yn mynd i ysgolion uwchradd ag oedran darllen sydd chwe mis ar ei hôl hi, a bod 20% o ddisgyblion ag oedran darllen sydd rhyw 18 mis ar ei hôl hi. I bob pwrpas, felly, mae adroddiad Estyn yn eu hystyried yn anlythrennog. Mae gweld 20% o'n pobl ifanc yn mynd i'r ysgol uwchradd eisoes yn cael eu disgrifio'n anlythrennog yn wendid sylfaenol—ym maes addysg, wrth gwrs, ond hefyd i'r economi. Os ydym am wella ein heconomi a'n sgiliau, mae angen delio â hyn, oherwydd, fel y dywedodd y Gweinidog, yr un plant a phobl ifanc sydd yna'n cyrraedd ein colegau addysg bellach ag arnynt angen gwaith caib a rhaw sylfaenol ar eu sgiliau darllen a rhifedd cyn iddynt allu ymgodymu yn llwyr â chyrtsiau addysg bellach.

3.45 p.m.

Mae hynny'n golygu, ac yn arwain at y ffaith, bod gennym yng Nghymru gyfran uwch na'r Deyrnas Gyfunol ar gyfartaledd o oedolion oedran gweithio nad oes ganddynt unrhyw fath o gymhwyster—12.1% yn hytrach na 10%. Mae hynny'n cael ei adlewyrchu drwy'r economi. Os nad ydym yn gallu sicrhau bod ein pobl ifanc yn meddu ar y sgiliau cywir ac ar y sgiliau sylfaenol, ni allwn wella'r economi. Mae gwella llythrennedd, rhifedd a sgiliau TG yn hollbwysig i wella economi Cymru.

Mae gennyf gwpwl o gwestiynau i'r Gweinidog, gan obeithio bydd cyfle iddo ymateb iddynt yn ystod y ddadl. Yn gyntaf,

ways for this situation, and I welcome the steps that the current Government is taking to address this situation.

I would like to concentrate on two things. First, the foundation phase is clearly starting to have an impact, and as the Minister said, it is starting to improve expectations among children and young people, and is starting to improve the achievements of boys. That is to be welcomed. What is not so clear in the report or in the Minister's statement is how we deal with the pupils who move from the foundation phase to the next stage, particularly the transition from the primary sector to the secondary sector. As the report says, in that transition we find that 40% of children are going into secondary school with reading ages that are six months behind their actual age, and that 20% have reading ages that are 18 months behind their actual age. They are identified, to all intents and purposes, by Estyn, therefore, as being illiterate. Seeing 20% of our young people going into secondary school already being described as illiterate is a fundamental flaw—for education, of course, but also for our economy. If we are to improve the economy and our skills, we need to address this, because, as the Minister said, it is the same children and young people who then reach our FE colleges needing fundamental work on their literacy and numeracy skills before they can become fully conversant with FE courses.

That means, and leads to the fact, that we have in Wales a higher percentage than the United Kingdom average of adults of working age without any qualifications—12.1% compared with 10%. That is reflected throughout the economy. If we cannot ensure that our young people have the right skills and the basic skills, we cannot improve the economy. Improving numeracy, literacy and IT skills is vital if we are to improve the Welsh economy.

I have a couple of questions to the Minister, in the hope that he will be able to respond to them during the debate. First, as he said,

mae Estyn, fel y dywedodd, yn adolygu ac arolygu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan awdurdodau addysg. Hoffwn wybod a fydd Estyn yn edrych ar y consortia yn ogystal â'r awdurdodau yn y dyfodol. Credaf fod hynny'n bwysig. Mae'n bwysig hefyd ein bod yn cydnabod bod yr holl broses yn mynd i gymryd amser. Dyna pam nad wyf yn derbyn bod yn rhaid cael targedau dros dro, fel yr awgrymir yn un o'r gwelliannau. Fodd bynnag, mae'n hanfodol i ni sylweddoli bod dulliau dysgu ac asesu wedi eu canfod yn annigonol mewn gormod o'n hysgolion ac nad yw'n disgyblion yn gallu trosglwyddo sgiliau mewn un pwnc i bwnc arall. Dyna sy'n hanfodol i lwyddo yn asesiadau Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr, ac felly mae'n hanfodol bod y Llywodraeth yn mynd i'r afael â hynny fel mater o frys. Mae athrawon da yn ein hysgolion—

Estyn inspects and reviews the work done by education authorities. I would like to know whether, in future, Estyn will look at the consortia as well as the education authorities. I think that that is important. It is also important that we acknowledge that the whole process will take time. That is why I do not accept that we need interim targets, as is suggested in one of the amendments. However, it is vital that we realise that teaching and assessment methods have been found lacking in too many of our schools and that our pupils are unable to transfer skills from one subject to another. That is what is needed in order to succeed in PISA assessments, so it is essential that the Government tackles this as a matter of urgency. There are good teachers in our schools—

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Trefn. A wnewch ddod â'ch sylwadau i ben?

The Temporary Deputy Presiding Officer: Order. Conclude, please.

Simon Thomas: Ond nid oes digon o gysondeb yn y system addysg.

Simon Thomas: However, there is not enough consistency in the education system.

Gwelliant 2 William Graham

Amendment 2 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Gresynu wrth ganfyddiadau yn yr adroddiad blynyddol sy'n awgrymu bod gan 4 disgybl o bob 10 sy'n mynd i ysgol uwchradd oed darllen sydd o leiaf 6 mis o dan eu gwir oedran.

Regrets findings in the annual report which suggest 4 in 10 pupils entering secondary school have a reading age of at least 6 months below their actual age.

Gwelliant 3 William Graham

Amendment 3 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Mynegi pryder difrifol bod pump y cant o'r ysgolion a arolygwyd wedi achosi 'pryder difrifol' i Estyn, a bod angen ymweliadau dilynol ar 25 y cant.

Expresses deep concern that 5% of schools inspected caused Estyn 'serious concern', whilst 25% required follow-up visits.

Gwelliant 4 William Graham

Amendment 4 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Gresynu wrth ganfyddiadau gan Estyn sy'n awgrymu nad yw 'gwella llythrennedd y

Regrets findings from Estyn suggesting that in many schools improving pupils' literacy is

disgyblion yn cael rhan ddigon canolog yn y gwaith o gynllunio cwricwlwm yr ysgol' mewn nifer o ysgolion.

Gwelliant 5 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Gresynu wrth ganfyddiadau yn yr adroddiad blynyddol sy'n awgrymu bod safonau dysgu'n amrywio'n sylweddol ledled Cymru.

Angela Burns: I move amendments 2, 3, 4 and 5 in the name of William Graham.

Minister, I thank you for your measured comments in opening this debate on the Estyn report. I, too, would like to thank Ann Keane and her team. This report is a mixed bag; it talks about good practice, and about areas, schools and sectors of the teaching and education profession that have done very well, and it also talks about the areas where we have done less well. When you read the Estyn report, it breaks down into three key areas. It talks about the performance of schools and what we need to do to improve that, the consistency of standards and the translation of best practice, and academic performance, whether in literacy or numeracy, the Welsh language, and learners with different needs. There is much to say on this, but we have tabled our three amendments to focus on the key areas that we feel that we need to concentrate on.

Like the spokesman for Plaid Cymru, I, too, am lukewarm about the notion of having to ask the Government to put forward a statutory report on Estyn. There is a very good convention in place, which works for the Children's Commissioner for Wales, the Commissioner for Older People in Wales, and which will work for the Welsh Language Commissioner, and it is also our job here to scrutinise. I would like to ask a few questions on some of the main sectors covered in the report. Turning our attention for a moment to primary schools, we can all rehearse the debate about the fact that the standards of reading and writing in 30% of schools remain a concern. However, what concerns me most are the facts that, in around one fifth of schools, teaching is generally no better than

not central enough to the design of the school curriculum.

Amendment 5 William Graham

Add as new point at end of motion:

Regrets findings in the annual report which suggest a wide variation in teaching standards across Wales.

Angela Burns: Cynigiau welliannau 2, 3, 4 a 5 yn enw William Graham.

Weinidog, diolch i chi am eich sylwadau pwylllog wrth agor y ddadl hon ar adroddiad Estyn. Rwyf innau hefyd yn diolch i Ann Keane a'i thîm. Mae'r adroddiad hwn yn gymysgedd sy'n sôn am arfer da, ac am ardaloedd, ysgolion a sectorau'r proffesiwn addysgu ac addysg sydd wedi gwneud yn dda iawn, ac mae hefyd yn sôn am y meysydd lle nad ydym wedi gwneud crystal. Mae adroddiad Estyn yn rhannu'n dri maes allweddol. Mae'n sôn am berfformiad ysgolion a'r hyn sydd angen ei wneud i wella hynny, cysondeb y safonau a throsi arfer gorau, a pherfformiad academiaidd, boed mewn llythrennedd neu rifedd, y Gymraeg, a dysgwyr sydd ag anghenion gwahanol. Mae llawer i'w ddweud am hyn, ond rydym wedi cyflwyno ein tri gwelliant i ganolbwyntio ar y meysydd allweddol y teimlwn y mae angen i ni ganolbwyntio arnynt.

Yn yr un modd â llefarydd Plaid Cymru, rwyf innau hefyd yn teimlo'n llugoer am y syniad o orfod gofyn i'r Llywodraeth gyflwyno adroddiad statudol ar Estyn. Mae confensiwn da iawn ar waith, sy'n gweithio i Gomisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, ac a fydd yn gweithio i Gomisiynydd y Gymraeg, a'n gwaith ni yma hefyd yw craffu. Hoffwn ofyn ychydig o gwestiynau am rai o'r prif sectorau a gynhwysir yn yr adroddiad. Gan droi ein sylw am eiliad at ysgolion cynradd, gallwn i gyd ymarfer y ddadl am y ffaith bod safonau darllen ac ysgrifennu mewn 30% o ysgolion yn dal i beri pryder. Fodd bynnag, y pryder mwyaf i mi yw'r ffaith nad yw addysgu, mewn tua un rhan o bump o ysgolion, yn ddim gwell, ar y cyfan, na digonol; yn ystod

adequate; during the foundation phase, around one in 10 schools do not do enough to utilise the outdoor environment; and, in a quarter of schools, senior management does not address the underperformance of individual teachers sufficiently. If we combine that with other debates that we have had here about how we have trained people to deliver the foundation phase, can you give us further information on what else can be put in place to ensure that the teachers who are being trained in the foundation phase understand that it is not simply a play agenda, but that it is about learning—reading, writing and comprehension—using play as one of many tools to enable that learning to happen? Can you also give us information on what we can do to ensure that headteachers, many of whom who have not attended foundation phase training, understand the principles and practices and are therefore able to monitor, guide and manage the performance of their staff to ensure that it is delivered correctly?

Turning our attention to secondary schools, again, there is the issue of numeracy and literacy, which are weak in about one fifth of schools, and, in around a third of schools, the gap between the performance of boys and of girls is very significant. Again, what comes out of the report is that there are issues with pastoral care and how we handle students with disruptive patterns of behaviour. We are not talking about behaviour that is so obviously disruptive that it is a case of marching the students out, excluding them and moving them into other institutions to help them gain an education, but about the low-level disruptive behaviour that can really skew a class. You may have teachers who are not that confident, who are perhaps new to the job. I know that you are introducing the Master's qualification and all the rest of it, but this is about leadership and about the existing headteachers being able to stand shoulder to shoulder with these teachers and ensuring that they understand what they do. Again, it is about performance management. Another issue identified regarding secondary schools was parental involvement, and what can be done to ensure that parents are truly involved in their children's secondary school education.

y cyfnod sylfaen, nid yw tua un o bob 10 o ysgolion yn gwneud digon i ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored; ac, mewn chwarter o'r ysgolion, nid yw'r uwch reolwyr yn mynd i'r afael â thanberfformiad athrawon unigol yn ddigonol. Os byddwn yn cyfuno hynny â dadleuon eraill yr ydym wedi'u cael yma am sut rydym wedi hyfforddi pobl i gyflwyno'r cyfnod sylfaen, a allwch chi roi rhagor o wybodaeth am beth arall y gellir ei roi ar waith i sicrhau bod yr athrawon sy'n cael eu hyfforddi yn y cyfnod sylfaen yn deall nad agenda chwarae yn unig ydyw, ond ei fod yn ymwneud â dysgu—darllen, ysgrifennu a deall—gan ddefnyddio chwarae fel un o nifer o ddulliau i alluogi'r dysgu hwnnw i ddigwydd? A allwch chi hefyd roi gwybodaeth i ni am yr hyn y gallwn ei wneud i sicrhau bod penaethiaid, nad yw nifer ohonynt wedi cael hyfforddiant ar y cyfnod sylfaen, yn deall yr egwyddorion a'r arferion ac felly'n gallu monitro, arwain a rheoli perfformiad eu staff i sicrhau y caiff ei gyflwyno'n gywir?

Gan droi ein sylw at ysgolion uwchradd, unwaith eto, ceir y mater o rifedd a llythrennedd, sy'n wan mewn tua un rhan o bump o ysgolion, ac, mewn tua thraean o ysgolion, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn arwyddocaol iawn. Unwaith eto, yr hyn a ddaw allan o'r adroddiad yw bod problemau gyda gofal bugeiliol a sut rydym yn trin myfyrwyr sydd â phatrymau ymddygiad aflonyddgar. Nid ydym yn sôn am ymddygiad sydd mor amlwg yn aflonyddgar fel ei fod yn golygu hebrwng y myfyrwyr allan, eu heithrio a'u symud i sefydliadau eraill i'w helpu i gael addysg, ond am ymddygiad aflonyddgar lefel isel sy'n gallu effeithio'n wirioneddol ar ddsbarth. Efallai bod gennych athrawon nad ydynt yn hyderus iawn, sy'n newydd i'r swydd, efallai. Gwn eich bod yn cyflwyno'r cymhwyster Meistr ac yn y blaen, ond mae hyn yn ymwneud ag arweinyddiaeth ac am allu penaethiaid presennol i sefyll ysgwydd yn ysgwydd â'r athrawon hyn a sicrhau eu bod yn deall beth y maent yn ei wneud. Unwaith eto, mae'n ymwneud â rheoli perfformiad. Mater arall a nodwyd o ran ysgolion uwchradd yw cynhwysiant rhieni, a beth y gellir ei wneud i sicrhau bod rhieni yn cymryd rhan wirioneddol yn addysg eu plant yn yr ysgol uwchradd.

On school performance and our amendment 2, we have a real concern that there seems to be a lack of consistency across schools. I would therefore be interested to know how you intend to drive best practice forward. Will you be going through the consortia route or will you be taking teachers or headteachers out of the schools that have achieved good practice and getting them to tell their stories and to do the training? This is about hands-on stuff; it is not about people receiving a piece of paper in the post stating what they need to do. It is about them learning from experience and from examples.

O ran perfformiad ysgol a gwelliant 2 a gyflwynir gennym, mae gennym bryder gwirioneddol ei bod yn ymddangos bod diffyg cysondeb ar draws ysgolion. Byddai gennyf ddi-ddordeb, felly, mewn gwybod sut rydych yn bwriadu gyrru arfer gorau yn ei flaen. A fyddwch yn dilyn y llwybr consortia neu a fyddwch yn cymryd athrawon neu benaethiaid allan o'r ysgolion sydd wedi sicrhau arfer da ac yn eu cael i ddweud eu straeon a gwneud yr hyfforddiant? Pethau ymarferol yw'r rhain; nid yw'n ymwneud â phobl yn cael darn o bapur drwy'r post yn dweud beth sydd angen iddynt ei wneud. Mae'n ymwneud â hwy yn dysgu drwy brofiad ac o enghreifftiau.

I was lukewarm about the Liberal Democrat amendment on interim targets. We will support the amendment, but that is more because we have such a big objective for 2015 that I want to know how you intend to monitor between now and 2015, Minister, that we are reaching the milestones necessary to achieve the good PISA results that we are all looking for in order to move the education system forward in Wales.

Roeddwn yn llugoer am welliant y Democratiaid Rhyddfrydol ar dargedau interim. Byddwn yn cefnogi'r gwelliant, ond mae hynny'n fwy gan fod gennym amcan mor fawr ar gyfer 2015 fel fy mod am gael gwybod sut rydych yn bwriadu monitro rhwng nawr a 2015, Weinidog, ein bod yn cyrraedd y cerrig milltir sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau PISA da rydym i gyd yn edrych amdanynt er mwyn symud y system addysg yn ei blaen yng Nghymru.

Gwelliant 6 Peter Black

Amendment 6 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as a new point at end of motion:

Gresynu nad oes yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu ymateb ysgrifenedig i adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Regrets that the Welsh Government is not required to provide a written response to the annual report of Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales.

Gwelliant 7 Peter Black

Amendment 7 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as a new point at end of motion:

Galw ar Lywodraeth Cymru i greu gofyniad cyfreithiol iddi ymateb yn ffurfiol, yn ysgrifenedig, i adroddiadau blynyddol Estyn yn y dyfodol.

Calls on the Welsh Government to create a legal requirement for it to respond formally, in writing, to future Estyn annual reports.

Gwelliant 8 Peter Black

Amendment 8 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as a new point at end of motion:

Croesawu cyflwyno'r Grant Amddifadedd Disgyblion yng Nghymru a'r potensial i wella cyflawniad i ddisgyblion sy'n cael pryddau ysgol am ddim. *Welcomes the introduction of the Pupil Deprivation Grant in Wales and the potential for improving achievement for pupils in receipt of free school meals.*

Gwelliant 9 Peter Black

Amendment 9 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig: *Add as a new point at end of motion:*

Gresynu mai ychydig iawn fydd bandio ysgolion yn ei wneud i fynd i'r afael â datganiad y Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant sef 'Hyd yn oed lle mae ysgol wedi cael ei barnu'n "dda" ar y cyfan, mae ansawdd yr addysgu neu'r dysgu'n aml yn wael yn rhai o'r gwersi neu'r adrannau unigol'. *Regrets that the banding of schools will do little to address the Chief Inspector of Education and Training's statement that, 'Even where a school is judged "good" overall, there are often individual lessons or departments where the quality of teaching or learning is poor'.*

Gwelliant 10 Peter Black

Amendment 10 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig: *Add as a new point at end of motion:*

Gresynu wrth y dystiolaeth yn yr Adroddiad sy'n awgrymu nad oes nifer o awdurdodau lleol yn ymwybodol o berfformiad eu hysgolion a bod rhai ysgolion 'wedi cael tanberfformio dros gyfnod hir'. *Regrets the evidence in the Report which suggests that several local authorities are unaware of how their schools are performing and that some schools have been 'allowed to under-perform over a long period of time'.*

Gwelliant 11 Peter Black

Amendment 11 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig: *Add as a new point at end of motion:*

Gresynu wrth y ffaith bod yr amserlenni ar gyfer gwella addysg a luniwyd gan Lywodraeth Cymru yn anghyson. *Regrets the fact that timescales for educational improvement set by the Welsh Government are inconsistent.*

Gwelliant 12 Peter Black

Amendment 12 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig: *Add as a new point at end of motion:*

Galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno targedau dros dro i sicrhau ei bod yn cyrraedd ei tharged cyffredinol sef bod system ysgolion Cymru ymysg 20 uchaf y byd erbyn 2015. *Calls on the Welsh Government to introduce interim targets to ensure that it meets its overall target for the Welsh schools system to be in the world's top 20 by 2015.*

Aled Roberts: I move amendments 6, 7, 8, 9, 10, 11 and 12 in the name of Peter Black. **Aled Roberts:** Cynigiau welliannau 6, 7, 8, 9, 10, 11 a 12 yn enw Peter Black.

I apologise for the number of amendments, Ymddiheuraf am nifer y gwelliannau, er bod

although the comments from the Conservatives and Plaid Cymru perhaps mean that at least two of them will not get any favour this afternoon. The amendments reflect frustration on our part about the pace of progress, with reference to Angela Burns's last comments. As someone who was previously involved at local authority level, I can say that it was difficult to budge a number of schools and get them moving along the road to improvement. The number of amendments this afternoon reflects cross-party recognition of the problem that we face and, more importantly, the commitment to drive through improvements.

We need to welcome the report from the chief inspector and to thank her and her team for their diligence. It is fair to say that the new framework provides us with a bit more confidence about the road to improvement than was previously the case. It is a sad state of affairs that the Welsh Local Government Association, in its response to the report, recognises that the whole system is, as we know, underperforming. It does, however, cite signs of improvement and scope for some optimism.

In amendments 6 and 7, we are trying to address the need, as we see it, for greater transparency and openness about the journey that we will be taking, so that Assembly Members, educationists and the public have documentary evidence about the journey that the Welsh Government is taking us on. From my experience in Wrexham, I know that it is all very well having an end point in 2015, but we need to have some reassurance along the way that we are getting to where we expect to be. However, I accept that targets are perhaps not necessarily always the way to do things.

We need to recognise that there are schools that are doing things well, but there is also a need to recognise that providing examples of best practice, whether on websites or in documents, might not always be the best way forward. Therefore, in supporting the amendments from the Conservatives and Plaid Cymru, we would want to know why, for example, there are instances where classroom observations are not readily

y sylwadau gan y Ceidwadwyr a Phlaid Cymru efallai yn golygu na fydd o leiaf dau ohonynt yn cael unrhyw gefnogaeth y prynhawn yma. Mae'r gwelliannau yn adlewyrchu rhwystredigaeth ar ein rhan ni am gyflymder y cynnydd, gan gyfeirio at sylwadau diwethaf Angela Burns. Fel un a fu'n ymwneud yn flaenorol ar lefel awdurdod lleol, gallaf ddweud ei bod yn anodd dylanwadu ar nifer o ysgolion a'u cael i symud tuag at wella. Mae nifer y gwelliannau y prynhawn yma yn adlewyrchu cydnabyddiaeth drawsbleidiol o'r broblem rydym yn ei hwynebu ac, yn bwysicach na hynny, yr ymrwymiad i yrru'r gwelliannau hyn yn eu blaenau.

Mae angen i ni groesawu'r adroddiad gan y prif arolygydd a diolch iddi hi a'i thîm am eu diwydrwydd. Mae'n deg dweud bod y fframwaith newydd yn rhoi ychydig mwy o hyder i ni nag o'r blaen am y ffordd i wella. Mae'n sefyllfa drist bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad, yn cydnabod bod y system gyfan, fel y gwyddom, yn tanberfformio. Mae, fodd bynnag, yn cyfeirio at arwyddion o welliant a lle i obeithio rhywfaint.

Yng ngwelliannau 6 a 7, rydym yn ceisio mynd i'r afael â'r angen, fel y'i gwelwn, am fwy o dryloywder a bod yn agored am y daith y byddwn yn ei dilyn, fel bod gan Aelodau'r Cynulliad, addysgwyr a'r cyhoedd dystiolaeth ddogfennol am y daith y mae Llywodraeth Cymru yn ei dilyn. O'm profiad i yn Wrecsam, gwn yn iawn pa mor hawdd yw edrych ar 2015 fel man terfyn, ond mae angen rhywfaint o sicrwydd ar y ffordd ein bod yn mynd i'r cyfeiriad cywir. Fodd bynnag, rwy'n derbyn efallai nad targedau o reidrwydd yw'r ffordd orau o wneud pethau bob amser.

Mae angen i ni gydnabod bod rhai ysgolion yn gwneud pethau'n dda, ond mae angen cydnabod hefyd efallai nad darparu enghreifftiau o arfer gorau, p'un ai ar wefannau neu mewn dogfennau, yw'r ffordd orau ymlaen bob amser. Felly, wrth gefnogi gwelliannau'r Ceidwadwyr a Phlaid Cymru, hoffem wybod pam, er enghraifft, mae achosion lle nad yw arsylwadau ystafell ddosbarth yn cael eu derbyn mor rhwydd

accepted within certain schools and why the local education authorities perhaps do not take the opportunity to engage with governing bodies in governing-body meetings where there are clearly difficulties in ensuring that the governing bodies and headteachers are responding to the improvement plans that they have set out to the local authorities. The reality is that, for the last 12 years, we have singularly failed to improve the situation in Wales, and while we may think that things move on from year to year, for each year that we fail to move the agenda forward, that is another cohort of pupils failed by the system. That cannot be right.

We believe that the use of the pupil premium, or the pupil deprivation grant, provides further opportunities for schools to respond to the needs of disadvantaged children. In England, there is a need for schools to publish information on how they are using that grant. I am not aware of any proposals at the moment to have that transparency with regard to the use of that grant in individual schools. I accept that the Minister has responded to me by saying that the school improvement plans will be made public. I hope that that will be the case, and that there will be additional attention given to that in the particular circumstances of each school.

There is also a situation in relation to the current banding system, in that, even if a school is in band 3, there may be departments or individual subjects in that school that are in clear need of improvement, and I am not convinced about the attention that we have given to schools in band 4 and 5. I recognise the extra cash that they have been given to help with their school improvement journey. However, what will happen in the schools where the quality of teaching in individual lessons or departments is judged to be poor?

The real issue for me is that there is a need for us to understand the journey that the Government is taking us on. There was a conflict highlighted last week in that—you reiterated this again this afternoon, Minister—you stated that we might not see

mewn ysgolion penodol a pham, efallai, nad yw'r awdurdodau addysg lleol yn manteisio ar y cyfle i ymgysylltu â chyrrff llywodraethol mewn cyfarfodydd cyrrff llywodraethol, lle mae anawsterau amlwg o ran sicrhau bod y cyrrff llywodraethol a phenaethiaid yn ymateb i'r cynlluniau gwella y maent wedi'u cyflwyno i'r awdurdodau lleol. Y gwir amdani yw ein bod, am y 12 mlynedd diwethaf, wedi methu'n llwyr â gwella'r sefyllfa yng Nghymru, ac er ein bod yn meddwl fod pethau'n symud yn eu blaenau o flwyddyn i flwyddyn, mae'n golygu, ar gyfer pob blwyddyn yr ydym yn methu â symud yr agenda yn ei flaen, bod carfan arall o ddisgyblion yn cael eu gadael i lawr gan y system. Ni all hynny fod yn iawn.

Rydym yn credu bod y defnydd o'r premiwm disgybl, neu'r grant amddifadedd disgyblion, yn cynnig cyfleoedd pellach i ysgolion ymateb i anghenion plant o dan anfantais. Yn Lloegr, mae angen i ysgolion gyhoeddi gwybodaeth am sut maent yn defnyddio'r grant hwnnw. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gynigion ar hyn o bryd i gael tryloywder o'r fath o ran defnyddio'r grant hwnnw mewn ysgolion unigol. Rwy'n derbyn bod y Gweinidog wedi ymateb i mi drwy ddweud y bydd y cynlluniau gwella ysgolion yn cael eu cyhoeddi. Gobeithio mai felly y bydd, ac y bydd sylw ychwanegol yn cael ei roi i hynny o dan amgylchiadau penodol pob ysgol.

Mae sefyllfa hefyd mewn perthynas â'r system fandio bresennol, sef, hyd yn oed os yw ysgol ym mand 3, efallai y bydd adrannau neu bynciau unigol yn yr ysgol honno y mae'n amlwg sydd angen eu gwella, ac nid wyf wedi fy argyhoeddi ynghylch y sylw yr ydym wedi'i roi i ysgolion ym mandiau 4 a 5. Rwy'n cydnabod yr arian ychwanegol a gawsant i'w helpu gyda'r daith o wella'r ysgol. Fodd bynnag, beth fydd yn digwydd yn yr ysgolion lle mae ansawdd yr addysgu yn cael ei ystyried yn wael mewn gwersi unigol neu mewn adrannau?

Y gwir ystyriaeth i mi yw bod angen i ni ddeall y daith y mae'r Llywodraeth yn ein harwain arni. Tynnwyd sylw yr wythnos diwethaf at anghydfod—y cyfeiriasoch ato eto'r prynhawn yma, Weiniidog—a dywedasoch ei bod yn bosibl na fuasem yn

improvement this year, and yet there was the implied suggestion to local education authorities that, if we do not see improvements six months into the operation of the consortia, we would be looking at restructuring again. We need to set out on this journey and ensure that we support Estyn in this Assembly—

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Trefn. Diolch, Aled, mae eich amser wedi dod i ben.

Jenny Rathbone: We can all agree that across the Chamber there is a great deal of focus on how well our schools are doing, because we all recognise just how important that is for our young people and for the future of our country.

I am particularly keen to understand how well Estyn is celebrating and publicising the sector-leading practice that it has emphasised, so that headteachers know where they can encourage their staff to go to look at how they might improve their own practice, based on what has been acknowledged as excellent elsewhere in our country.

One of the most important things to get right is ensuring that the foundation phase is excellent for all our children. We have an excellent curriculum base for doing that. The report emphasises the importance of outdoor play, particularly for boys, children with behavioural difficulties and children who are shy, in encouraging children to test their abilities and to try out things that they may not be confident about, and to enable them to settle down when they get back into the classroom. Outdoor play is crucial. Too many of our schools still have concrete spaces to confine children in, rather than learning environments in which they can express their awe and wonder of the natural world.

Schools are also crucial places in which we can address the public health agenda on obesity, lifestyle-related diabetes and mental ill-health, which will bankrupt the NHS unless we tackle them.

4.00 p.m.

gweld gwelliant eto eleni, ac eto awgrymwyd wrth awdurdodau addysg lleol y buasem yn ystyried ailstrwythuro eto, os na welir gwelliannau ymhen chwe mis i ddechrau gweithredu'r consortia. Mae'n rhaid i ni gychwyn ar y daith hon a sicrhau ein bod yn cefnogi Estyn yn y Cynulliad hwn—

The Temporary Deputy Presiding Officer: Order. Thank you, Aled, your time is up.

Jenny Rathbone: Gallwn i gyd gytuno bod llawer iawn o ffocws ar draws y Siambr ar ba mor dda y mae ein hysgolion yn perfformio, oherwydd ein bod i gyd yn cydnabod pa mor bwysig yw hynny ar gyfer ein pobl ifanc ac er mwyn dyfodol ein gwlad.

Yr wyf yn arbennig o awyddus i ddeall pa mor dda y mae Estyn yn dathlu'r arfer o arwain y sector a gaiff ei bwysleisio ganddo ac yn rhoi cyhoeddusrwydd iddo, fel bod penaethiaid yn gwybod lle y gallant annog eu staff i chwilio am sut y gallant wella eu harfer eu hunain, yn seiliedig ar yr hyn sydd wedi cael ei gydnabod fel arfer ardderchog mewn mannau eraill yn ein gwlad.

Un o'r pethau pwysicaf i'w gael yn iawn yw sicrhau bod y cyfnod sylfaen yn rhagorol ar gyfer ein holl blant. Mae gennym sail cwricwlwm rhagorol ar gyfer gwneud hynny. Mae'r adroddiad yn pwysleisio pwysigrwydd chwarae yn yr awyr agored, yn enwedig i fechgyn, plant sydd ag anawsterau ymddygiad a phlant swil, o ran annog plant i brofi eu gallu a rhoi cynnig ar bethau efallai nad ydynt yn hyderus amdanynt, ac i'w galluogi i dawelu pan fyddant yn mynd yn ôl i'r ystafell ddosbarth. Mae chwarae yn yr awyr agored yn hanfodol. Mae gan ormod o'n hysgolion fannau concriid i gyfyngu plant iddynt, yn hytrach nag amgylcheddau dysgu lle y gallant fynegi eu syfrdan a'u rhyfeddod ynghylch y byd naturiol.

Mae ysgolion hefyd yn fannau hanfodol lle y gallwn fynd i'r afael â'r agenda iechyd cyhoeddus ynghylch gordewdra, diabetes sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw a salwch meddwl, a fydd yn mynd â'r GIG â'i ben iddo oni bai ein bod mynd i'r afael â hwy.

I particularly welcome the focus of the common assessment framework in looking at how well schools are supporting disadvantaged learners: those on free school meals, Gypsy Travellers, looked-after children and children with special needs. It is important to understand that, if we are doing well with the disadvantaged learners in our schools, it probably means that we are also doing well with our most able learners, because it is about having a focus on the individual learning outcomes of children, which has to be the way in which teachers are planning their lessons and ensuring that children move forward from where they are and not where they are supposed to be.

I had the privilege last week to speak to the parents of adopted children as part of the inquiry that the Children and Young People Committee is undertaking into adoption. I was somewhat disturbed at some of the stories that they told us about how the schools attended by their children were not at all mindful of the particular needs of the individual children, who obviously had many disturbing early experiences that were affecting their emotional and behavioural development. If, year after year, a parent has to tell the class teacher that their child is adopted and therefore it is not appropriate for the teacher to ask the class to bring in birth photographs when these do not exist for an adopted child, it means that the school as a whole is not planning for the individual needs of its pupils. Some of that is reflected in some of what is said in the Estyn report. For example, it states that,

‘In the best schools, there is a systematic approach to developing pupils’ literacy skills across all areas of the curriculum’.

That means that, in most schools, there is not that focus. Indeed, Estyn confirms that,

‘Cross-curriculum planning is weak in most schools... In-school variation in standards and in the quality of teaching and learning is

Croesawaf yn arbennig y ffaith bod y fframwaith asesu cyffredin yn edrych ar ba mor dda mae ysgolion yn cefnogi dysgwyr sydd dan anfantais: y rhai ar brydau ysgol am ddim, Sipsiwn-Teithwyr, plant sy’n derbyn gofal a phlant ag anghenion arbennig. Mae’n bwysig deall, os ydym yn gwneud yn dda gyda’r dysgwyr dan anfantais yn ein hysgolion, ei bod yn debyg ein bod hefyd yn gwneud yn dda gyda’n dysgwyr mwyaf galluog, gan ei bod yn ymwneud â chanolbwyntio ar ganlyniadau dysgu unigol plant. Dyna’r ffordd y mae’n rhaid i athrawon gynllunio’u gwersi a sicrhau bod plant yn symud ymlaen o ble y maent, ac nid lle y dylent fod.

Cefais y fraint yr wythnos diwethaf o siarad â rhieni plant a fabwysiadwyd fel rhan o’r ymchwiliad y mae’r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn ei gynnal i fabwysiadu. Cefais fy ysgwyd rywfaint o glywed rhai o’r straeon y gwnaethant eu hadrodd wrthym, gan ddweud nad oedd yr ysgolion a fynychwyd gan eu plant yn cadw mewn cof anghenion penodol y plant unigol mewn unrhyw fodd; roedd y plant hyn yn amlwg wedi cael llawer o brofiadau cynnar ysgytwol a oedd yn effeithio ar eu datblygiad emosiynol ac ymddygiadol. Os yw rhiant, flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn gorfod dweud wrth yr athro dosbarth bod eu plentyn wedi cael ei fabwysiadu ac felly nad yw’n briodol i’r athro ofyn i’r dosbarth ddod â ffotograffau genedigaeath pan nad yw’r rhain yn bodoli ar gyfer plentyn a fabwysiadwyd, mae’n golygu nad yw’r ysgol yn ei chyfanrwydd yn cynllunio ar gyfer anghenion unigol ei disgyblion. Adlewyrchir rhywfaint o hynny yn yr hyn a ddywedir yn adroddiad Estyn. Er enghraifft, mae’n dweud,

‘Mae’r ysgolion gorau wedi rhoi dull systematig ar waith i ddatblygu medrau llythrennedd y disgyblion ym mhob un o feysydd y cwricwlwm.’

Mae hynny’n golygu nad oes y ffocws hwnnw yn y rhan fwyaf o ysgolion. Yn wir, mae Estyn yn cadarnhau bod

‘...cynllunio ar draws y cwricwlwm yn wan yn y rhan fwyaf o ysgolion... Un o nodweddion cyffredin y rhan fwyaf o

a common feature in most schools.'

I know from my experience of being a school governor in a couple of schools that that is going on in many schools. It is essential to ensuring that teachers, senior management and governors are fully aware of how we are addressing the weaknesses we have in order to better meet the needs of our pupils. Therefore, the Estyn report is a crucial tool to help us to ensure that we know how well we are doing, but also the journey that we have to travel in order to get to where we all want us to be.

Darren Millar: I welcome the Estyn report and I am glad that we are having this debate today, because in order to ensure that there is continuous improvement in schools in Wales, we need frank and fair assessments of where we are at the moment, and this report certainly gave us a very frank and honest evaluation of where the school system stands in Wales and I welcome the chief inspector's drawing of her conclusions in this particular way.

There is a lot of good news in the report in terms of the improvements that have been seen in some areas, but some parts of the report are particularly disappointing. The literacy and writing issues in particular were disappointing, particularly for those children moving from primary school into secondary school. The report made reference to the fact that far too many—about 40% of pupils—enter secondary school with a reading age that is six months lower than their actual age, which is clearly unacceptable and needs to improve significantly. Some of the key indicators, such as those at key stage 2, including English, Welsh and mathematics have shown some improvement, which I welcome.

Rather than discussing the more general issues, I would like to turn my attention to some specific parts of the report. I was particularly pleased to see the inclusion of wellbeing. Very often, we pay lots of attention to the academic outcomes in our schools—and quite rightly so, because they

ysgolion yw'r amrywiaeth o fewn yr ysgol o ran safonau ac ansawdd addysgu a dysgu.'

Gwn o'm profiad o fod yn llywodraethwr ysgol mewn ambell ysgol fod hynny'n digwydd mewn llawer o ysgolion. Mae'n hanfodol er mwyn sicrhau bod athrawon, uwch-reolwyr a llywodraethwyr yn gwbl ymwybodol o sut rydym yn mynd i'r afael â'r gwendidau sydd gennym er mwyn diwallu anghenion ein disgyblion yn well. Felly, mae adroddiad Estyn yn offeryn hanfodol i'n helpu i sicrhau ein bod yn gwybod pa mor dda rydym yn ei wneud, ond hefyd y daith yr ydym yn gorfod mynd arni i gyrraedd lle rydym i gyd am fod.

Darren Millar: Rwyf yn croesawu adroddiad Estyn ac rwyf yn falch ein bod yn cael y ddadl hon heddiw, oherwydd er mwyn sicrhau bod gwelliant parhaus mewn ysgolion yng Nghymru, mae arnom angen asesiadau gonest a theg o ble rydym ar hyn o bryd, ac mae'r adroddiad hwn yn sicr yn rhoi gwerthusiad gonest iawn o sefyllfa'r system ysgolion yng Nghymru, a chroesawaf y ffordd y mae'r prif arolygydd wedi llunio ei chasgliadau yn y modd arbennig hwn.

Mae llawer o newyddion da yn yr adroddiad o ran y gwelliannau a welwyd mewn rhai meysydd, ond mae rhai rhannau o'r adroddiad yn arbennig o siomedig. Yn benodol, roedd llythrennedd ac ysgrifennu yn siomedig, yn enwedig ymysg y plant hynny sy'n symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Cyfeiriodd yr adroddiad at y ffaith bod llawer gormod—tua 40% o ddisgyblion—yn cyrraedd ysgol uwchradd gan feddu ar oedran darllen chwe mis yn is na'u hoed gwirioneddol, sy'n amlwg yn annerbyniol ac sydd angen ei wella'n sylweddol. Mae rhai o'r dangosyddion allweddol, fel y rhai yng nghyfnod allweddol 2, gan gynnwys Saesneg, Cymraeg a mathemateg, wedi dangos rhywfaint o welliant, a chroesawaf hynny.

Yn hytrach na thrafod y materion mwy cyffredinol, hoffwn droi fy sylw at rai rhannau penodol o'r adroddiad. Roeddwn yn falch iawn o weld lles yn cael ei gynnwys. Yn aml iawn, rydym yn rhoi llawer o sylw i ganlyniadau academiaidd yn ein hysgolion—a hynny'n gwbl briodol, gan eu bod yn bwysig

are very important—but the issue of pupils' wellbeing is something to which we have not traditionally paid a lot of attention, so I was particularly pleased to read that the wellbeing of pupils in schools is generally in very good shape and that there are some schools with some outstanding practices. I wonder, Minister, whether in your response to the debate today you might touch on the issue of pastoral care in particular, because I know that there are very good examples of pastoral care being delivered in my constituency, both within the school and by people in the wider community who care for the children who go to the school in their area. We know that there are problems with eating disorders among teenagers, for example. There has been almost a self-harm epidemic in some schools, and I wonder whether a more significant focus on pastoral care in future might help to meet those particular challenges.

There was a small reference in the chief inspector's report to able and talented pupils, and I think that we need to do more to focus some attention and resources on really helping children with special talents to reach and fulfil their potential. Minister, what are you doing to ensure that primary schools in particular are able to identify these pupils? That was a shortcoming identified in the report, and, clearly, the sooner you are able to identify pupils with those skills and abilities the more likely it is that they will have a successful life.

The report touched on some of the challenges faced by governing bodies over the next few years. Indeed, it talked about some of the best practice the inspectors had seen. I think that it referred to a school in Rhyl with regard to governing bodies and their leadership of schools. Minister, I know that you are hoping to introduce some mandatory training for governors, which is something I support. However, how are you going to measure the success of that mandatory training for governing bodies in future? Clearly, it is one thing to put on a training session, but you need to constantly refresh and evaluate the success of these things to ensure that they are effective in future.

iawn—ond mae lles disgyblion yn rhywbeth nad ydym yn draddodiadol wedi rhoi llawer o sylw iddo. Felly, rwyf yn arbennig o falch o ddarllen bod lles disgyblion mewn ysgolion yn gyffredinol mewn cyflwr da iawn a bod gan rai ysgolion arferion rhagorol. Efallai, Weinidog, yn eich ymateb i'r ddadl heddiw, y gallech sôn am ofal bugeiliol yn benodol, gan y gwn fod enghreifftiau da iawn o ofal bugeiliol yn cael ei weithredu yn fy etholaeth i, o fewn yr ysgol a chan bobl yn y gymuned ehangach sy'n gofalu am y plant sy'n mynd i'r ysgol yn eu hardal. Gwyddom fod problemau anhwylderau bwyta ymhlith plant yn eu harddegau, er enghraifft. Bu bron â bod epidemig hunan-niweidio mewn rhai ysgolion, a thybed a allai ffocws mwy sylweddol ar ofal bugeiliol yn y dyfodol helpu i gwrdd â'r heriau penodol hynny.

Roedd cyfeiriad bach yn adroddiad y prif arolygydd at ddisgyblion galluog a thalentog, ac rwyf o'r farn bod angen inni wneud mwy i ganolbwyntio rhywfaint o sylw ac adnoddau ar helpu plant sydd â thalentau arbennig i gyrraedd a chyflawni eu potensial. Weinidog, beth yr ydych yn ei wneud i sicrhau bod ysgolion cynradd yn arbennig yn gallu adnabod y disgyblion hyn? Roedd hwnnw'n ddiffyg a nodwyd yn yr adroddiad, ac, yn amlwg, po gynharaf y gallwch adnabod disgyblion sydd â'r sgiliau a'r galluoedd hynny, mwyaf tebygol yw hi y bydd ganddynt fywyd llwyddiannus.

Cyffyrddodd yr adroddiad â rhai o'r heriau sy'n wynebu cyrff llywodraethu dros y blynyddoedd nesaf. Yn wir, mae'n sôn am rai o'r arferion gorau a welodd arolygwyr. Credaf ei fod yn cyfeirio at ysgol yn y Rhyl o ran cyrff llywodraethu a'u harweinyddiaeth o ysgolion. Weinidog, gwn eich bod yn gobeithio cyflwyno hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr, sy'n rhywbeth a gefnogaf. Fodd bynnag, sut y byddwch yn mesur llwyddiant yr hyfforddiant gorfodol hwnnw ar gyfer cyrff llywodraethu yn y dyfodol? Yn amlwg, mae'n un peth cynnal sesiwn hyfforddi, ond mae angen ichi adnewyddu a gwerthuso llwyddiant y pethau hyn drwy'r adeg i sicrhau eu bod yn effeithiol yn y dyfodol.

I wish to touch on the situation in Denbighshire for a few moments before closing. Clearly, there were huge challenges a few years ago in Denbighshire when the local authority was deemed to be failing in the way it was leading schools. However, I think that things have improved significantly there. The latest inspection report from Estyn clearly demonstrated that, and I was very pleased to read some of the references in the chief inspector's report to Denbighshire. There were some very good individual examples of schools performing well. Not only that, but one of the league tables presented in the report showed that, in Denbighshire, the number of schools requiring follow-up following an inspection was among the lowest in Wales. There is a good news story to be celebrated in this Chamber about the fact that, when people come together to work on improving schools and the education system, we can really make a difference. I want to commend Denbighshire to the Minister—

Rhodri Glyn Thomas: Order. Thank you, Darren; you have exceeded your time. Diolch yn fawr.

Christine Chapman: There is certainly a great deal to applaud in Estyn's annual report. It rightly shows that there are many examples of excellence in Welsh schools and these should be celebrated. The report allows us to take stock and to ensure that best practice is shared, which is vital if we are to bring about fundamental qualitative change. Like others, I was really pleased with the report's assessment of the foundation phase. The vast majority of children enjoy it, and that is leading to real improvements in their physical, intellectual and emotional wellbeing, leaving them better equipped for life, by improving their skills and confidence. I welcome this; it will certainly pay dividends in years to come.

However, there are also challenges in the report and I want to touch upon two today. One of Estyn's findings is that many of the problems that arise can be traced back to failures of leadership within the education community. We know that most of our school

Hoffwn sôn am y sefyllfa yn sir Ddinbych am funud neu ddwy cyn cloi. Yn amlwg, roedd heriau enfawr ychydig flynyddoedd yn ôl yn sir Ddinbych pan ystyriwyd bod yr awdurdod lleol yn methu yn y ffordd yr oedd yn arwain ysgolion. Fodd bynnag, credaf fod pethau wedi gwella'n sylweddol yno. Dangoswyd hynny'n glir yn yr adroddiad arolygu diweddaraf gan Estyn, ac roeddwn yn falch iawn o ddarllen rhai o'r cyfeiriadau at sir Ddinbych yn adroddiad y prif arolygydd. Cafwyd rhai enghreifftiau unigol da iawn o ysgolion yn perfformio'n dda. Ar ben hynny, dangosodd un o'r tablau cynghrair yn yr adroddiad bod y nifer o ysgolion yn sir Ddinbych sydd angen ymweliad yn dilyn arolygiad ymhlith yr isaf yng Nghymru. Mae stori dda i'w dathlu yn y Siambr hon am y ffaith y gallwn, pan fydd pobl yn dod at ei gilydd i weithio ar wella ysgolion a'r system addysg, wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Rwyf am gymeradwyo sir Ddinbych i'r Gweinidog—

Rhodri Glyn Thomas: Trefn. Diolch ichi, Darren; rydych dros eich amser. Diolch yn fawr.

Christine Chapman: Yn sicr, mae llawer iawn i'w gymeradwyo yn adroddiad blynyddol Estyn. Mae'n dangos yn ddigon priodol fod sawl enghraifft o ragoriaeth yn ysgolion Cymru ac y dylai'r rhain gael eu dathlu. Mae'r adroddiad yn ein galluogi i fwrw golwg ar y sefyllfa sydd ohoni ac i sicrhau bod arfer gorau yn cael ei rannu, sy'n hanfodol os ydym am greu newid sylfaenol o ran ansawdd. Roeddwn i, fel eraill, yn falch iawn gydag asesiad yr adroddiad o'r cyfnod sylfaen. Mae'r mwyafrif helaeth o blant yn ei fwynhau, ac mae hynny'n arwain at welliannau gwirioneddol yn eu lles corfforol, deallusol ac emosiynol, gan eu paratoi'n well ar gyfer bywyd, drwy wella eu sgiliau a'u hyder. Rwyf yn croesawu hyn; bydd yn sicr yn talu ar ei ganfed yn y blynyddoedd i ddod.

Fodd bynnag, mae hefyd heriau yn yr adroddiad ac rwyf am grybwyll dwy ohonynt heddiw. Un o ganfyddiadau Estyn yw y gellir olrhain llawer o'r problemau yn ôl i fethiannau arweinyddiaeth yn y gymuned addysg. Gwyddom fod y rhan fwyaf o'n

leaders do a great job, but if we are to ensure that all our young people reach their potential, we must expect and achieve the best. The Welsh Government's performance management regulations are welcome. These will support those at the chalk face—a very old-fashioned term these days—and they will help practitioners to deliver the best for learners. Leadership is also about governors. I want to put on record my tribute to the excellent work that governors do across Wales. However, the role of governors must be about holding schools to account and ensuring that they provide the best educationally stimulating environments for our young people, because our young people in Wales deserve nothing but the best. Certainly, I welcome the statutory training for governors that will be in the education Bill. I am sure that many of us here will have been, or are, governors.

On the second point, I know that Estyn mentions meeting the needs of the economy and it is clear that there is still far too much silo working among providers and sectors. Estyn says that,

'Too often the links that further education institutions have with employers have been based on continuing historical relationships rather than on planning to meet new and emerging regional or national needs.'

This strikes me as being unacceptably complacent and I think that we need to be far more innovative and collaborative. If we are not, we will not just be letting our young people down, but the future of the Welsh economy will also be at risk.

In conclusion, I ask the Minister to respond to those two points. It has been said that education provides us with the answer to all the problems in the world. I firmly believe that and I think that it is up to us to ensure that Welsh children and learners can access the educational system they need to enable them to become world changers. I welcome the opportunity that this report and debate have given us to ensure that this is a reality.

Keith Davies: Rwy'n falch o gyfrannu y

harweinwyr ysgol yn gwneud gwaith da, ond os ydym am sicrhau bod ein holl bobl ifanc yn cyrraedd eu potensial, rhaid inni ddisgwyl a chyflawni'r gorau. Mae rheoliadau perfformiad Llywodraeth Cymru i'w croesawu. Bydd y rhain yn cefnogi'r rhai sydd ar flaen y gâd, a byddant yn helpu ymarferwyr i ddarparu'r gorau i ddysgwyr. Mae arweinyddiaeth yn ymwneud hefyd â llywodraethwyr. Hoffwn dalu teyrnged i'r gwaith rhagorol y mae llywodraethwyr yn ei wneud ledled Cymru. Fodd bynnag, rhaid i rôl llywodraethwyr ymwneud â dwyn ysgolion i gyfrif a sicrhau eu bod yn darparu'r amgylcheddau gorau posibl i'n pobl ifanc ar gyfer ysgogi dysgu, oherwydd mae ein pobl ifanc yng Nghymru yn haeddu'r gorau. Yn sicr, croesawaf yr hyfforddiant statudol i lywodraethwyr a fydd yn y Bil addysg. Rwyf yn siŵr bod llawer ohonom wedi bod yn llywodraethwyr, neu yn llywodraethwyr ar y funud.

O ran yr ail bwynt, gwn fod Estyn yn sôn am ddiwallu anghenion yr economi, ac mae'n amlwg bod llawer gormod o weithio ar wahân o hyd ymysg darparwyr a sectorau. Mae Estyn yn dweud,

'Yn rhy aml mae'r cysylltiadau sydd gan sefydliadau addysg bellach â chyflogwyr wedi'u seilio ar berthynas hanesyddol yn hytrach nag ar gynllunio i ddiwallu anghenion rhanbarthol neu genedlaethol newydd sy'n dod i'r amlwg.'

Ymddengys i mi fod hyn yn annerbyniol o hunanfodlon, a chredaf fod angen inni fod yn llawer mwy arloesol a chydweithredol. Os nad ydym, ni fyddwn yn gwneud cam â'n pobl ifanc yn unig, gan y bydd dyfodol economi Cymru hefyd mewn perygl.

I gloi, gofynnaf i'r Gweinidog ymateb i'r ddau bwynt hynny. Dywedwyd bod addysg yn rhoi yr ateb inni i holl broblemau'r byd. Credaf yn gryf yn hynny a chredaf mai ein lle ni yw sicrhau y gall plant a dysgwyr Cymru gael mynediad at y system addysg sydd ei hangen arnynt i'w galluogi i newid y byd. Rwyf yn croesawu'r cyfle a roddodd yr adroddiad hwn a'r ddadl hon i ni i sicrhau bod hyn yn realiti.

Keith Davies: I am pleased to contribute to

prynhawn yma ac i longyfarch Ann Keane ar adroddiad cynhwysfawr. Mae'r adroddiad blynyddol yn bwysig wrth bwysio a mesur ansawdd addysg yn ein cenedl ac, yn sicr, mae o fudd i'r Gweinidog wrth gynllunio strategaethau. Mae addysg yn effeithio ar bob un ohonom, a hynny drwy gydol ein bywydau. Mae'r hyn a ddysgwyd yn yr ysgol yn dylanwadu ar ein gweithgareddau hyd yn oed ar ôl gadael. Felly, cytunaf fod yn rhaid i'r ysgolion fod y gorau y gallant fod ac rwy'n falch o'r cyfle i ganmol yr enghreifftiau da sydd yn yr adroddiad. Fodd bynnag, gŵyr pawb am y canlyniadau PISA diwethaf. Ddoe, roeddwn yn siarad ag athro addysg o Japan a ofynnodd imi pam nad oeddem wedi gwneud cystal yn y canlyniadau PISA. Rydym eisoes wedi trafod a chydabod ein gwendidau yn hynny o beth.

Yn adroddiad Estyn eleni mae ystadegau am arholiadau yng nghyfnod allweddol 4 sydd hefyd yn achosi pryder. Mae bwlch wedi tyfu rhwng y ganran a gyflawnodd y trothwy lefel 2, sef pump TGAU A* i C, a'r ganran a gyflawnodd y trothwy lefel 2 gan gynnwys llwyddo mewn TGAU gyda gradd C neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg. Mae'r adroddiad yn dweud nad yw'r ysgolion yn gwneud digon i roi sylw i'r problemau hyn. Mae'r cyfrifoldeb wedi'i rannu rhwng ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac eraill, ond mae'n bwysig hefyd bod yr un cyfrifoldeb yn cael ei rannu ar gyfer y broses o newid pethau. Rhaid edrych i'r dyfodol, nid i'r gorffennol. Dyma a wnaeth y Gweinidog yn ei gynllun 20 pwynt ac wrth greu uned safonau i arwain yn genedlaethol. Er bydd y gwrthbleidiau'n sôn drosodd a throsodd am safonau ysgolion, byddai'r Ceidwadwyr wedi cefnogi toriad o 20% yn y gyllideb addysg. Ar y llaw arall, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi cynyddu'r gyllideb addysg 1% dros y grant bloc.

Fel y mae rhai wedi dweud yn barod y prynhawn yma, cyfnod pwysig arall yw'r cyfnod sylfaen, a sefydlwyd gan Lywodraeth Lafur yng Nghymru. Y nod yma yw i blant ddysgu drwy chwarae. Yn ganolog i'r cyfnod yw ei fod yn galluogi plant i ddysgu am eu hunain a datblygu. Wrth gwrs, mae hyn yn bwysig am fod datblygiad plant yn fwy cyflym yn ystod y blynyddoedd cynnar.

today's debate and congratulate Ann Keane on a comprehensive report. The annual report is important in evaluating the quality of education in our nation and it is certainly beneficial for the Minister as he plans his strategies. Education affects every one of us, throughout our lives. What we learned at school influences our actions even after we leave. Therefore, I agree that schools have to be the best that they possibly can be and I am pleased to applaud the good examples highlighted in the report. However, everyone knows about the latest PISA results. Yesterday, I was speaking to an education teacher from Japan who was asking me why we had not done as well in the PISA results. We have already discussed and acknowledged our weaknesses in that sense.

In this year's Estyn report, there are statistics about examinations in key stage 4, which are also a cause for concern. A gap has grown between the percentage that reached the level 2 threshold, which is five GCSEs at A* to C, and the percentage that reached the level 2 threshold including a GCSE pass at grade C or above in English or first-language Welsh and mathematics. The report states that schools are not doing enough to address these problems. Responsibility is shared between primary schools, secondary schools and others, but it is also important that the same responsibility is shared for changing the situation. We must look to the future, not to the past. This is what the Minister did in his 20-point plan and in creating a standards unit to lead on this on a national level. Although the opposition parties will mention school standards time and again, the Conservatives would have supported a cut of 20% in the education budget. On the other hand, the Welsh Labour Government increased the education budget by 1% above the allocation in the block grant.

As some have already said this afternoon, another important stage is the foundation phase, which was implemented by a Labour Government in Wales. The aim here is that children should learn through play. Central to the phase is that it enables children to learn about themselves and to develop. Of course, this is important because children's development happens more quickly during

Rwy'n cofio mynd i ddosbarth derbyn yn y Cymoedd a gofyn i'r athrawes beth oedd yr her fwyaf yr oedd yn ei hwynebu. Yr ateb oedd, 'Cael y plant i wrando'. Bu'r rhieni yn eu gadael i wyllo'r teledu yn gyson ac nid oeddent yn eu hybu i siarad a thrafod na meithrin sgiliau darllen. Yn gysylltiedig â datblygiad y mae lles.

4.15 p.m.

Ymhellach, mae Llafur wedi cyflwyno prosiectau megis Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Clymwyd hyn â nod allweddol y Gweinidog o leihau effaith tlodi ar y gallu i ddysgu.

Yn ogystal â lleihau dylanwad tlodi ar addysg, y ddau nod penodol arall yw gwella llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhain eisoes wedi eu hystyried gan y Gweinidog ac wedi eu cynnwys yn y fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol. Enghraifft wych yn y maes yw lle mae'r Llywodraeth wedi darparu cyllid er mwyn i blant dderbyn llyfrau stori, un yn Saesneg a'r llall yn Gymraeg, a'u rhannu gyda'u rhieni. Mae'n bwysig sicrhau bod plant wedi cyrraedd safon dderbyniol o ran siarad a darllen cyn symud i'r ysgol uwchradd. Fel y dywedodd Simon Thomas yn gynharach, mae'n fater o gonsŷrn bod Estyn yn adrodd bod gan 20% o blant sy'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd oed darllen sy'n llai na naw mlynedd chwe mis a bod gan 20% arall oed darllen sydd rhwng chwech a 18 mis y tu ôl i'w hoedran gwirioneddol.

Pwynt arall yr hoffwn ei drafod yw addysg uwch. Dywed Estyn bod angen gwella wrth ddenu myfyrwyr i rai cyrsiau, yn enwedig hyfforddi athrawon mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg. Mae'r rhain yn bwysig, ac mae'r Llywodraeth wedi eu clustnodi yn bynciau o bwysigrwydd. Siaradais am hyn yr wythnos diwethaf. Rwy'n falch o weithredoedd y Llywodraeth hyd yn hyn, ond mae ffordd bellach i fynd. O ran llywodraethwyr, mae'r Gweinidog unwaith eto wedi trafod y mater. Fel mae sawl un wedi dweud yn barod y prynhawn yma, mae rôl llywodraethwyr, wrth edrych ar safonau ysgolion, yn hollbwysig. Bydd y Bil addysg yn gwneud hyfforddiant yn statudol

the early years. I recall going to a reception class in the Valleys and asking the teacher about the greatest challenge that she faced. The answer was, 'Getting the children to listen'. Their parents allowed them to watch television regularly and did not encourage them to develop communication or reading skills. Linked to development is welfare.

Further to that, Labour has introduced projects such as Families First and Flying Start. This was tied to the Minister's key aim of reducing the impact of poverty on the ability to learn.

In addition to reducing the impact of poverty, the other two main aims are to improve literacy and numeracy. These have already been considered by the Minister and have been included in the national literacy and numeracy framework. An excellent example in the field is where the Government has provided funding for children to receive story books, one in English and one in Welsh, which they can share with their parents. It is important to ensure that children reach acceptable levels in speaking and reading before they move to secondary schools. As Simon Thomas said earlier, it is a cause for concern that Estyn reports that 20% of children go through transition from primary to secondary schools with a reading age below nine years and six months and that another 20% have a reading age that is between six and 18 months behind their actual age.

Another point that I want to discuss is higher education. Estyn stats that there has to be an improvement in attracting students to certain courses, particularly in teacher training in the STEM subjects. These are important, and the Government has earmarked them as being of importance. I talked about this last week. I am pleased with the steps taken by the Government to date, but there is a long way to go. In terms of governors, the Minister has once again discussed the issue. As many people have already said this afternoon, the role of governors in looking at school standards is vital. The education Bill will make training a statutory provision, and, in terms of teachers, professional standards will

ac, o ran athrawon, caiff safonau proffesiynol eu cyflwyno, a chroesawaf hynny hefyd. Nod fy nghyfraniad heddiw yw rhoi sylw i rai o'r camau a gymerwyd eisoes i wella perfformiad addysg, ac rwy'n ffyddiog y bydd ein plant yn elwa o'r gweithredoedd hyn.

The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews): I will start by explaining that, in respect of the amendments, we will be supporting amendments 1, 2, 3, 4, 5, 8 and 10, and opposing the others.

I welcome the cross-party commitment this afternoon on the need to drive up school performance and the actions that we are taking to achieve school improvement. I also welcome the observations that Members have made in respect of the new inspection framework that Estyn has put in place.

A number of Members, including Simon Thomas and Darren Millar, referred to the gap in performance at the end of primary school, specifically in respect of literacy. This is one of the biggest challenges facing us in the education system. It is clearly still the case that, at the end of primary school, young people are being assessed by primary school teachers as having certain abilities that, when they are retested in secondary school, they clearly do not have. Estyn has quantified that for us. That is why we are developing a national literacy and numeracy framework, which includes provision for annual reading tests, to commence this year. That will give us consistent measures for all primary schools.

The banding system that we introduced for secondary schools is already proving valuable. It has helped us, local authorities and the consortia identify which schools need support, and to help them to provide specific support for particular schools in specific circumstances.

The Conservative spokesperson asked about issues such as behaviour and attendance in secondary schools. We have developed a

be introduced, and I welcome that too. The aim of my contribution today is to highlight some of the steps taken already to improve educational performance, and I am confident that our children will benefit from these actions.

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews): Hoffwn ddechrau drwy esbonio y byddwn, o ran y gwelliannau, yn cefnogi gwelliannau 1, 2, 3, 4, 5, 8 a 10, ac yn gwrthwynebu'r lleill.

Croesawaf yr ymrwymiad trawsbleidiol y prynhawn yma ynghylch yr angen i wella perfformiad ysgolion a'r camau rydym yn eu cymryd i sicrhau bod ysgolion yn gwella. Croesawaf hefyd y sylwadau a wnaeth Aelodau am y fframwaith arolygu newydd a roddodd Estyn ar waith.

Cyfeiriodd nifer o Aelodau, gan gynnwys Simon Thomas a Darren Millar, at y bwlch mewn perfformiad pan fydd disgyblion yn gadael yr ysgol gynradd, yn benodol o ran llythrennedd. Mae hwn yn un o'r heriau mwyaf sy'n ein hwynebu yn y system addysg. Mae'n amlwg ei fod dal yn wir fod pobl ifanc, ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd, yn cael eu hasesu gan athrawon ysgol gynradd sy'n nodi bod ganddynt alluoedd penodol, a phan fyddant yn cael eu hail-brofi yn yr ysgol uwchradd, mae'n amlwg nad oes ganddynt y galluoedd hynny. Mae Estyn wedi meintioli hynny i ni. Dyna pam rydym yn datblygu fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol, sy'n cynnwys darpariaeth i gynnal profion darllen blynyddol, sy'n dechrau eleni. Bydd hynny'n rhoi mesurau cyson i ni ar gyfer pob ysgol gynradd.

Bu'r system bandio a gyflwynwyd gennym ar gyfer ysgolion uwchradd eisoes yn werthfawr. Mae wedi ein helpu ni, awdurdodau lleol a'r consortia i nodi pa ysgolion sydd angen cymorth, ac i'w helpu i roi cymorth penodol i ysgolion penodol mewn amgylchiadau penodol.

Gofynnodd llefarydd y Ceidwadwyr am faterion fel ymddygiad a phresenoldeb mewn ysgolion uwchradd. Rydym wedi datblygu

behaviour and attendance action plan. The issues of addressing behaviour are bound up with some of the modules that we will be developing for the Master's in educational practice.

The consortia have put action plans in place for all schools in bands 4 and 5. I recently announced my intention to ensure that all schools in bands 4 and 5 receive an additional £10,000 to help them take the school improvement plans forward. These plans will be published—I can assure Aled Roberts of that. We are also publishing guidance on the use of the pupil deprivation grant. I say to Aled Roberts that I know of schools in band 3 that are working very hard at trying to address the variation in performance between different classes. I do not think that anyone, as a result of our banding system, is prepared to rest on their laurels. I was told by one headteacher last week, 'I've got a message for you, we are jumping'.

I announced recently that I have postponed the introduction of primary school banding until September 2014, which means that we will deliver on our manifesto commitment in that time frame. I said at the time that introducing primary banding before we had reading and numeracy tests would have led to questions on the reliability of the data.

A number of colleagues referred to the foundation phase and the excellent successes that we have had. Angela Burns, Keith Davies, Jenny Rathbone and Christine Chapman all referred specifically to this. They were right to stress that this is not just about play; as Estyn has made clear in its report, it is important that schools understand that. I think that most of them do, frankly. As I go around Wales, I see that most schools are clear about the opportunities that the foundation phase offers. We have invested significantly in the development of the foundation phase, with 5,600 additional support staff to ensure that it is properly introduced in schools. We will expect the consortia to ensure that the foundation phase is effectively managed locally.

cynllun gweithredu ymddygiad a phresenoldeb. Mae'r materion o ran mynd i'r afael ag ymddygiad ynghlwm â rhai o'r modiwlau y byddwn yn eu datblygu ar gyfer y cwrs Meistr mewn arferion addysgol.

Mae'r consortia wedi rhoi cynlluniau gweithredu ar waith ar gyfer pob ysgol ym mandiau 4 a 5. Yn ddiweddar, cyhoeddais fy mwriad i sicrhau bod pob ysgol ym mandiau 4 a 5 yn cael £10,000 yn ychwanegol i'w helpu i weithredu'r cynlluniau gwella ysgolion. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu cyhoeddi—gallaf sicrhau Aled Roberts ynghylch hynny. Rydym hefyd yn cyhoeddi canllawiau ar y defnydd o'r grant amddifadedd disgyblion. Dywedaf wrth Aled Roberts fy mod yn gwybod am ysgolion ym mand 3 sy'n gweithio'n galed iawn i geisio mynd i'r afael â'r amrywiaeth mewn perfformiad rhwng gwahanol ddosbarthiadau. Nid wyf yn credu bod unrhyw un, o ganlyniad i'n system bandio, yn barod i orffwys ar eu rhwyfau. Dywedodd pennaeth wrthyf yr wythnos diwethaf, 'Mae gen i neges i chi, rydym yn mynd amdani'.

Cyhoeddais yn ddiweddar fy mod wedi gohirio cyflwyno bandio ar gyfer ysgolion cynradd tan fis Medi 2014, sy'n golygu y byddwn yn cyflawni ein hymrwymiad maniffesto o fewn yr amser hwnnw. Dywedais ar y pryd y byddai cyflwyno bandio cynradd cyn i ni gyflwyno profion darllen a rhifedd wedi arwain at gwestiynau am ddibynadwyedd y data.

Cyfeiriodd nifer o gyd-Aelodau at y cyfnod sylfaen a'r llwyddiannau rhagorol a gawsom. Cyfeiriodd Angela Burns, Keith Davies, Jenny Rathbone a Christine Chapman yn benodol at hyn. Maent yn iawn i bwysleisio nad yw'n ymwneud â chwarae'n unig; fel yr amlygodd Estyn yn ei adroddiad, mae'n bwysig bod ysgolion yn deall hynny. Credaf fod y rhan fwyaf ohonynt yn deall hynny, a dweud y gwir. Wrth i mi fynd o gwmpas Cymru, gwelaf fod y rhan fwyaf o ysgolion yn glir am y cyfleoedd a gynigir gan y cyfnod sylfaen. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn natblygiad y cyfnod sylfaen, gyda 5,600 o staff cymorth ychwanegol i sicrhau ei fod yn cael ei gyflwyno'n briodol mewn ysgolion. Byddwn yn disgwyl i'r consortia sicrhau bod y cyfnod sylfaen yn cael ei reoli'n effeithiol

yn lleol.

The issue of leadership was raised specifically by the Conservative spokesperson and by my colleague the Member for Cynon Valley. To help secure improvements in teaching standards, we are working with stakeholders on draft guidance on changes to performance management, including the use of professional standards. Induction arrangements for new teachers will also be made more rigorous. Through the Master's in education practice, we are also elevating the status of the teaching profession. We have sought to roll out best practice in a number of ways, and I am glad that colleagues have focused on that today. Some of that will be through using system leaders—experienced practitioners currently in the system being released from their schools to provide support over a number of days to the schools that need it—but it will also be through the provision of best practice on online materials, through other materials and through sharing workshops and conferences. We have done this over recent weeks, with a variety of practitioners from the whole of Wales, in running a number of conferences. Estyn is also putting best practice on its website and looking at how it can work to create a unit within the inspectorate to work with schools and others on that in the future.

We have taken up the challenge, and I think that this is a challenge that Keith Davies, the Member for Llanelli, referred to, of where we go with PISA. We have been developing materials for use by teachers and others on PISA, how it works and how to relate the PISA challenges to the curriculum. These have been well received by schools. One assistant headteacher told me last week that she thought that the materials were excellent, and she was taking them back to share with colleagues in her school. That testifies to the quality of the work that is being undertaken.

We will not support the Liberal Democrats' amendment 12, in respect of setting interim milestones. We have to ensure that we focus on 2015, that the consortia, as they develop

Codwyd y mater o arweinyddiaeth yn benodol gan lefarydd y Ceidwadwyr a chan fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Gwm Cynon. Er mwyn ein helpu i sicrhau gwelliannau mewn safonau addysgu, rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar ganllawiau drafft ynghylch newidiadau i reoli perfformiad, gan gynnwys defnyddio safonau proffesiynol. Bydd trefniadau sefydlu i athrawon newydd hefyd yn cael eu gwneud yn fwy trylwyr. Drwy'r cwrs Meistr mewn arferion addysg, rydym hefyd yn dyrchafu statws y proffesiwn addysgu. Rydym wedi ceisio cyflwyno arferion gorau mewn nifer o ffyrdd, ac rwyf yn falch bod cyd-Aelodau wedi canolbwyntio ar hynny heddiw. Bydd rhywfaint o hynny'n cael ei wneud drwy ddefnyddio arweinwyr system—sef rhyddhau ymarferwyr profiadol sydd yn y system ar hyn o bryd o'u hysgolion i roi cefnogaeth dros nifer o ddiwrnodau i'r ysgolion sydd ei angen—ond bydd hefyd yn cael ei wneud drwy ddarparu'r arfer gorau ar ddeunyddiau ar-lein, drwy ddeunyddiau eraill a thrwy rannu gweithdai a chynadleddau. Rydym wedi gwneud hyn dros yr wythnosau diwethaf, gydag amryw o ymarferwyr dros Gymru gyfan yn cynnal nifer o gynadleddau. Mae Estyn hefyd yn rhoi arferion gorau ar ei wefan ac yn edrych ar sut y gall weithio i greu uned o fewn yr arolygiaeth i weithio gydag ysgolion ac eraill ar hynny yn y dyfodol.

Rydym wedi mynd i'r afael â'r her, ac rwyf yn meddwl mai hon oedd yr her y cyfeiriodd Keith Davies, yr Aelod dros Lanelli, ati o ran lle y dylem fynd gyda PISA. Buom yn datblygu deunyddiau i'w defnyddio gan athrawon ac eraill ar PISA, o ran sut mae'n gweithio a sut i gysylltu heriau PISA i'r cwricwlwm. Mae'r rhain wedi cael croeso cynnes gan ysgolion. Dywedodd pennaeth cynorthwyol wrthyf yr wythnos diwethaf ei bod yn credu bod y deunyddiau'n ardderchog, a'i bod yn mynd â nhw yn ôl i'w rhannu gyda chydweithwyr yn ei hysgol. Mae hynny'n tystio i safon y gwaith sy'n cael ei wneud.

Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 12 gan y Democratiaid Rhyddfrydol o ran pennu cerrig milltir dros dro. Mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar 2015, a bod y

their plans, are clear about the challenges that they face and that we work with them, over this year particularly, to get an understanding of how the PISA arrangement should operate and what they need to put in place. Improvements in PISA will also lead to the kind of improvements that we need to see on the level 2 threshold that my colleague the Member for Llanelli also referred to.

To help consistency in teacher assessment, we have commissioned external research and evaluation to look at what needs to be done. That will help us form future recommendations in respect of the moderation of teacher assessments. We have also commissioned further research into why boys perform less well than girls and are establishing a national programme of interventions to address those issues.

The Member for Cardiff Central, the Member for Llanelli and the Member for Clwyd West referred specifically to wellbeing, and I am glad that that receives recognition in the Estyn report. My colleague the Member for Cardiff Central was right to stress the importance of systematic approaches there. The Member for Clwyd West asked about pastoral arrangements; a number of schools have good practice in this area. In my opening remarks I referred to Sandfields Comprehensive School, in the constituency of my colleague the Member for Aberavon, which is leading practice in this area and I gave other examples in a recent speech as well. We are also focusing on issues of attendance.

We are seeing more intervention in respect of local authorities. The Member for Clwyd West referred to the significant improvements that we have seen in Denbighshire. I was in Rhyl recently with my colleague the Member for the Vale of Clwyd, and we had a discussion about some of those changes. A number of colleagues also referred to the experience of governors.

I will end by saying that the changes that we need to introduce in performance are not rocket science. If we can get literacy and numeracy right in primary school, and if we

consortia, wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau, yn glir am yr heriau sy'n eu hwynebu, a'n bod yn gweithio gyda nhw, yn enwedig eleni, i ddeall sut y dylai'r drefn PISA weithredu a beth sydd angen iddynt ei roi ar waith. Bydd gwelliannau yn PISA hefyd yn arwain at y math o welliannau y mae angen i ni eu gweld ar y trothwy lefel 2, y cyfeiriodd fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Lanelli, hefyd ato.

Er mwyn helpu cysondeb o ran asesu athrawon, rydym wedi comisiynu gwaith ymchwil a gwerthuso allanol i edrych ar yr hyn sydd angen ei wneud. Bydd hynny'n ein helpu i lunio argymhellion yn y dyfodol o ran safoni asesiadau athrawon. Rydym hefyd wedi comisiynu gwaith ymchwil pellach ar y rheswm pam mae bechgyn yn perfformio'n waeth na merched, ac rydym yn sefydlu rhaglen genedlaethol o ymyriadau i fynd i'r afael â'r materion hynny.

Cyfeiriodd yr Aelod dros Ganol Caerdydd, yr Aelod dros Lanelli a'r Aelod dros Orllewin Clwyd yn benodol at les, ac rwyf yn falch bod hynny'n cael ei gydnabod yn adroddiad Estyn. Roedd fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ganol Caerdydd, yn iawn i bwysleisio pwysigrwydd dulliau systematig yn hynny o beth. Gofynnodd yr Aelod dros Orllewin Clwyd am drefniadau bugeiliol; mae gan nifer o ysgolion arfer da yn y maes hwn. Yn fy sylwadau agoriadol, cyfeiriais at Ysgol Gyfun Sandfields, yn etholaeth fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Aberafan, sy'n arwain yr arfer yn y maes hwn a rhoddais enghreifftiau eraill mewn araith ddiweddar hefyd. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â phresenoldeb.

Rydym yn gweld mwy o ymyrraeth mewn perthynas ag awdurdodau lleol. Cyfeiriodd yr Aelod dros Orllewin Clwyd at y gwelliannau sylweddol a welsom yn sir Ddinbych. Roeddwn yn y Rhyl yn ddiweddar gyda'm cyd-Aelod, yr Aelod dros Ddyffryn Clwyd, a chawsom drafodaeth am rai o'r newidiadau hynny. Cyfeiriodd nifer o gyd-Aelodau hefyd at brofiad llywodraethwyr.

Rwyf am gloi drwy ddweud nad yw'r newidiadau mewn perfformiad y mae angen i ni eu cyflwyno yn gymhleth. Os gallwn gael llythrennedd a rhifedd yn iawn yn yr ysgol

can get performance improvements in mathematics to the level seen in English or Welsh as a first language, we will have recorded very significant achievements indeed in turning around overall school performance.

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Y cwestiwn yw bod cytuno ar welliant 1. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1.
Amendment 1 agreed.*

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Y cwestiwn yw bod cytuno ar welliant 2. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 2.
Amendment 2 agreed.*

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Y cwestiwn yw bod cytuno ar welliant 3. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 3.
Amendment 3 agreed.*

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Y cwestiwn yw bod cytuno ar welliant 4. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 4.
Amendment 4 agreed.*

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Y cwestiwn yw bod cytuno ar welliant 5. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, derbyniwyd gwelliant 5 yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 5.

gynradd, ac os gallwn wella perfformiad mewn mathemateg i'r lefel a welwyd o ran Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf, byddwn wedi cyflawni camp sylweddol iawn o ran gwyrddroi perfformiad ysgolion yn gyffredinol.

The Temporary Deputy Presiding Officer: The question is that amendment 1 be agreed. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare amendment 1 agreed.

The Temporary Deputy Presiding Officer: The question is that amendment 2 be agreed. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare amendment 2 agreed.

The Temporary Deputy Presiding Officer: The question is that amendment 3 be agreed. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare amendment 3 agreed.

The Temporary Deputy Presiding Officer: The question is that amendment 4 be agreed. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare amendment 4 agreed.

The Temporary Deputy Presiding Officer: The question is that amendment 5 be agreed. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare amendment 5 agreed.

Amendment 5 agreed.

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 6.

The Temporary Deputy Presiding Officer: The question is that amendment 6 be agreed.

Nick Ramsay: I object.

Nick Ramsay: Rwy'n gwrthwynebu.

The Temporary Deputy Presiding Officer: I had not quite got to that point yet, but I take your objection. [*Laughter.*] I will therefore defer all further votes on this item until voting time.

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Nid oeddwn wedi cyrraedd y pwynt hwnnw eto, ond derbynïaf eich gwrthwynebiad. [*Chwerthin.*] Felly, byddaf yn gohirio pob pleidlais bellach ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.
Voting deferred until voting time.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 4.27 p.m.
The Deputy Presiding Officer took the Chair at 4.27 p.m.*

**Agenda Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwyddoniaeth ac
Arloesi—'Gwyddoniaeth Cymru'
The Welsh Government's Strategic Agenda for Science and
Innovation—'Science for Wales'**

Y Dirprwy Lywydd: Mae'r Llywydd wedi dethol gwelliannau 1, 2, 3 a 4 yn enw William Graham a gwelliannau 5 a 6 yn enw Peter Black.

The Deputy Presiding Officer: The Presiding Officer has selected amendments 1, 2, 3 and 4 in the name of William Graham and amendments 5 and 6 in the name of Peter Black.

Cynnig NDM4942 Jane Hutt

Motion NDM4942 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

To propose that the National Assembly for Wales:

Nodi'r agenda strategol newydd ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesedd yng Nghymru—Gwyddoniaeth i Gymru.

Notes the new strategic agenda for science and innovation in Wales—Science for Wales.

The First Minister: I move the motion.

Y Prif Weinidog: Cynigïaf y cynnig.

'Science for Wales', the Welsh Government's strategic agenda for science, was published just one week ago. It sets out a comprehensive assessment of the state of science in Wales. It assesses what we, as a Government, and our partners in higher education, business and schools, need to do to improve the broad science agenda in Wales. The goal set out in 'Science for Wales' is to build a strong and dynamic science base that supports the economic and national development of Wales. I particularly want to see more and better jobs resulting

Cyhoeddwyd 'Gwyddoniaeth i Gymru', sef agenda strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwyddoniaeth, wythnos yn ôl. Mae'n amlinellu asesiad cynhwysfawr o gyflwr gwyddoniaeth yng Nghymru. Mae'n asesu'r hyn yr ydym ni, fel Llywodraeth, a'n partneriaid mewn addysg uwch, busnes ac ysgolion, angen ei wneud i wella'r agenda gwyddoniaeth cyffredinol yng Nghymru. Y nod a amlinellir yn 'Gwyddoniaeth i Gymru' yw adeiladu sylfaen wyddonol gref a deinamig sy'n cefnogi datblygiad economaidd a chenedlaethol Cymru. Rwyf yn

from science-based activity. Wales is fortunate in that it can point to many examples of excellent research—the very highly rated engineering department at Swansea University, the excellent neuroscience and related imaging activities at Cardiff University, the Institute of Biological, Environmental and Rural Sciences at Aberystwyth and the School of Psychology at Bangor University. All of these examples are among the best in the world, and there are more of them.

Professor John Harries, our chief scientific adviser, wants to see us publicise our successes far more, and I agree with him. In truth, though, there simply is not enough of this excellent, internationally recognised work. Wales must do more and do better in winning competitive research funding, and in commercialising the results of this research, if it is to thrive. In respect of research funding, the initial aim is to achieve at least parity with other UK nations, in terms of the percentage of competitively funded research won by our universities. Moving from 3.3% to 5% of the UK total after five years has been said to be unambitious, but that completely misses the point. It is small as a proportion of the UK total, but our higher education sector is small, so it is realistic. Such a jump in funding won for Wales represents a 51.5% increase on our existing position. Achieving this would bring some £27 million more into Welsh research.

Sêr Cymru is our main contribution to making a real step change. Investing some £50 million over a five-year period shows the serious purpose of the Government. Attracting a small number of true star researchers and their teams to Wales will be a difficult business. We must get the right people from wherever they are right now, and we must have the ambition to do this.

4.30 p.m.

Sêr Cymru will also help to establish strong national research networks of scientists led

arbennig o awyddus i weld mwy o swyddi a gwell swyddi yn deillio o weithgarwch gwyddonol. Mae Cymru yn ffodus ei bod yn gallu cyfeirio at nifer o enghreifftiau o waith ymchwil rhagorol—yr adran beirianeg uchel ei pharch ym Mhrifysgol Abertawe, y gweithgareddau niwrowyddoniaeth a'r gweithgareddau delweddu cysylltiedig rhagorol ym Mhrifysgol Caerdydd, Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig yn Aberystwyth a'r Ysgol Seicoleg ym Mhrifysgol Bangor. Mae pob un o'r enghreifftiau hyn ymhlith y gorau yn y byd, ac mae mwy ohonynt.

Mae'r Athro John Harries, ein prif gynghorydd gwyddonol, am ein gweld yn rhoi llawer mwy o gyhoeddusrwydd i'n llwyddiannau, a chytunaf ag ef. Mewn gwirionedd, fodd bynnag, nid oes digon o'r gwaith ardderchog hwn sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol. Rhaid i Gymru wneud mwy a gwneud yn well o ran ennill cyllid ymchwil cystadleuol, ac o ran masnacheiddio canlyniadau'r gwaith ymchwil hwn, os yw i ffynnu. O ran arian ymchwil, y nod cychwynnol yw o leiaf bod yn gydradd â gwledydd eraill y DU, o ran y canran o waith ymchwil a ariennir yn gystadleuol a enillwyd gan ein prifysgolion. Dywedwyd nad yw symud o 3.3% i 5% o gyfanswm y DU ar ôl pum mlynedd yn uchelgeisiol, ond mae hynny'n methu'r pwynt yn llwyr. Mae'n fach fel cyfran o gyfanswm y DU, ond mae ein sector addysg uwch yn fach, felly mae'n realistig. Mae naid o'r fath yn y cyllid a enillir i Gymru yn cynrychioli cynnydd o 51.5% ar ein sefyllfa bresennol. Byddai cyflawni hyn yn dod â £27 miliwn yn fwy i waith ymchwil Cymru.

Sêr Cymru yw ein prif gyfraniad i wneud newid sylweddol. Mae buddsoddi oddeutu £50 miliwn dros gyfnod o bum mlynedd yn dangos bod y Llywodraeth o ddifrif. Mae denu nifer fach o ymchwilwyr sy'n wir sêr a'u timau i Gymru yn fusnes anodd. Mae'n rhaid inni gael y bobl iawn o ble bynnag y maent ar hyn o bryd, a rhaid inni gael yr uchelgais i wneud hyn.

Bydd Sêr Cymru hefyd yn helpu i sefydlu rhwydweithiau ymchwil cenedlaethol cryf o

by a dynamic individual in the three chosen science fields in Wales. Scotland has found this approach very helpful in bringing scientific disciplines together to win funding and to operate more effectively in harder economic times, and they can help us, too.

Professor Harries's team and the Science Advisory Council for Wales have identified three priority areas, called grand challenges, which are written into the agenda because there is objective evidence of true academic or commercial strengths in Wales and businesses to work with in those areas that will profit by their discoveries. The three fields are: life sciences and health; low carbon, energy and environment; and advanced engineering and materials. It is no surprise that these three fields map closely to some of our priority business sectors. Of course, we need continued close working with our anchor companies, and also with our smaller innovative enterprises, developing research discoveries and profiting from academic know-how.

There is business research and development activity, such as EADS Foundation Wales, which is exactly the sort of thing we want to see more of. Only last week at BioWales 2012, we saw in one place many Welsh-based businesses doing exciting life science work. We were able to announce our £25 million initial investment in our life sciences investment fund to boost this success. The action I have announced under 'Energy Wales' is linked to 'Science for Wales' and commits to focus support for energy-related innovation and research and development that have commercial potential, strengthening world-class links between academia and industry and promoting energy saving, renewable energy and smart living.

As I have said before, times are competitive and the challenge is more complex than ever before. Academics in Wales increasingly need to work in collaborative groups, to be part of fewer, but larger, successful research

wyddonwyr a arweinir gan unigolyn deinamig yn y tri maes gwyddoniaeth a ddewiswyd yng Nghymru. Mae'r Alban wedi canfod bod y dull hwn yn ddefnyddiol iawn wrth ddod â disgyblaethau gwyddonol ynghyd i ennill cyllid a gweithredu'n fwy effeithiol mewn cyfnod economaidd anodd, a gall hyn ein helpu ni, hefyd.

Mae tîm yr Athro Harries a Chyngor Cyngori ar Wyddoniaeth Cymru wedi nodi tri maes blaenoriaeth, a elwir yn heriau mawr, sy'n cael eu cynnwys yn yr agenda oherwydd bod tystiolaeth wrthrychol o gryfderau academaidd neu fasnachol gwirioneddol yng Nghymru a bod busnesau y gellir gweithio gyda hwy yn y meysydd hynny a fydd yn elwa o'u darganfyddiadau. Y tri maes yw: gwyddorau bywyd ac iechyd; carbon isel, ynni a'r amgylchedd; a pheirianneg a deunyddiau uwch. Nid yw'n syndod bod y tri maes yn cadw'n agos at rai o'n blaenoriaethau o ran sectorau busnes. Wrth gwrs, mae angen parhau i weithio'n agos gyda'n cwmnïau angor, a hefyd gyda'n mentrau arloesol llai, gan ddatblygu darganfyddiadau a wneir drwy waith ymchwil ac elwa o wybodaeth academaidd.

Ceir gweithgareddau ymchwil a datblygu ym myd busnes, fel yn achos Sefydliad EADS Cymru, sef yr union fath o beth yr ydym am weld mwy ohono. Dim ond yr wythnos diwethaf yn BioCymru 2012, gwelsom mewn un lle lawer o fusnesau o Gymru yn gwneud gwaith cyffrous ym maes gwyddorau bywyd. Roeddem yn gallu cyhoeddi ein buddsoddiad cychwynnol o £25 miliwn yn ein cronfa fuddsoddi gwyddorau bywyd i roi hwb i'r llwyddiant hwn. Mae'r camau yr wyf wedi'u cyhoeddi o dan 'Ynni Cymru' yn gysylltiedig â 'Gwyddoniaeth i Gymru' ac yn ymrwmo i sicrhau canolbwynt i'r cymorth ar gyfer arloesedd sy'n gysylltiedig ag ynni, ac ymchwil a datblygu sydd â photensial masnachol, gan gryfhau cysylltiadau sydd o safon fyd-eang rhwng y byd academaidd a diwydiant a hyrwyddo arbed ynni, ynni adnewyddadwy a byw'n ddeallus.

Fel y dywedais o'r blaen, mae'n gyfnod cystadleuol ac mae'r her yn fwy cymhleth nag erioed o'r blaen. Mae mwy a mwy o angen i academyddion yng Nghymru weithio mewn grwpiau ar y cyd ar ddyfarniadau

funding awards—partnering with the best, wherever they may be—if they are to continue as effective researchers. They need to be more ambitious to join these larger, multi-institutional research applications. They need to have effective internal peer review, with training and mentoring, to ensure that only quality research proposals go forward. They must be key members of research council committees at all levels. They must be proactive in setting the broad research agendas and aware of the thinking in each council, so that their applications find favour.

Wales needs to strive for excellence above all in science. Science can act as an attractor, drawing in more talented people, more investment and more facilities, but it takes time—10 years or so—to build a successful research group. So, stability and leadership are vital, or we can soon lose what has been worked for.

‘Science for Wales’ also makes it clear how important educational standards for young people are, as, of course, is good inspirational science teaching. These can be a spur to decide on science A-levels and, in turn, they can lead to a science-based career. It is a positive point that we are a small nation with close networks, so we can maximise the first-hand contact of pupils with working scientists and researchers. This could be inspirational. I want to see the take-up of single subject science at GCSE continue to increase. I want increases in A-levels to be maintained and exceeded. I welcome activities—some funded by the Welsh Government—to get more girls and women into science study and careers.

Science has a part to play in all our lives: new

ariannu ymchwil llwyddiannus sy'n llai o ran nifer ond sy'n fwy o ran maint—gyda'r partneriaid gorau, lle bynnag y maent—os ydynt am barhau i fod yn ymchwilwyr effeithiol. Mae angen iddynt fod yn fwy uchelgeisiol i ymuno â'r ceisiadau ymchwil amlsefydliadol mwy hyn. Mae angen iddynt gael adolygiadau mewnol effeithiol gan gymheiriaid, gyda hyfforddiant a mentora, er mwyn sicrhau mai dim ond cynigion ymchwil o safon a gaiff eu cynnig. Mae'n rhaid iddynt fod yn aelodau allweddol o bwyllgorau cynghorau ymchwil ar bob lefel. Mae'n rhaid iddynt fod yn rhagweithiol wrth lunio'r agendâu ymchwil eang ac yn ymwbybodol o'r safbwynt ym mhob cyngor, fel bod eu ceisiadau'n cael eu cefnogi.

Mae angen i Gymru anelu at ragoriaeth yn fwy na dim mewn gwyddoniaeth. Gall gwyddoniaeth fod yn ddeniadol, gan ddenu mwy o bobl dalentog, mwy o fuddsoddiad, a mwy o gyfleusterau, ond mae'n cymryd amser—tua 10 mlynedd—i greu grŵp ymchwil llwyddiannus. Felly, mae sefydlogrwydd ac arweinyddiaeth yn hanfodol, neu gallwn golli gafael yn fuan iawn ar yr hyn yr ydym wedi gweithio amdano.

Mae ‘Gwyddoniaeth i Gymru’ hefyd yn ei gwneud yn glir pa mor bwysig yw safonau addysgol i bobl ifanc, fel, wrth gwrs, y mae addysgu ysbrydoledig da ym maes gwyddoniaeth. Gall y rheini fod yn sbardun i benderfynu astudio Safon Uwch mewn gwyddoniaeth, a gallant arwain wedyn at yrfa sydd wedi'i seilio ar wyddoniaeth. Mae'n bwynt cadarnhaol ein bod yn genedl fach sydd â rhwydweithiau agos; felly, gallwn wneud y gorau o'r cyswllt uniongyrchol a gaiff disgyblion â gwyddonwyr ac ymchwilwyr wrth eu gwaith. Gallai hyn fod yn ysbrydoledig. Rwyf am weld y nifer o fyfyrwyr sy'n dilyn gwyddoniaeth fel pwnc unigol safon TGAU yn parhau i gynyddu. Rwyf am weld y cynnydd mewn perthynas â'r Safon Uwch yn cael ei gynnal a'i ymestyn. Rwy'n croesawu gweithgareddau—y mae rhai ohonynt yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru—i gael mwy o ferched a menywod i astudio gwyddoniaeth a dilyn gyrfaoedd ym maes gwyddoniaeth.

Mae gan wyddoniaeth ran i'w chwarae yn ein

choices and techniques in health care; new materials and machines to use in daily activities; and increased connectivity for all. People across Wales need to be aware of and comfortable with scientific developments. Businesses and individuals—often volunteers—do a lot of ingenious and inspirational work that brings scientific concepts to life. They debate the dilemmas that scientific discoveries can sometimes bring. Their work is enormously useful in complementing the formal science curriculum in further engaging children and young people in science, technology, engineering and maths.

So, we have good science engagement work, but it needs to be more co-ordinated. It needs leadership.

Julie Morgan: I do not know whether the First Minister is aware that two 17-year-old students from Cardiff jointly won the Young Engineer of the Year competition at the weekend. One of them, Wasim Miah, was one of my constituents, and the other, Jessica Jones, was the first woman to win that award. Do you not think that this is a tremendous achievement and shows what is being achieved in Wales? We did not just win the grand slam at the weekend; we won UK Young Engineer of the Year as well.

The First Minister: It is an excellent achievement, and I give my heartiest congratulations to both of them. It is marvellous to see success being recognised, and I wish them the best of luck in their future endeavours.

We need, of course, to have coherence and proper coverage of scientific subjects across all parts of Wales. Our national science academy has been put in place to help and guide this. I will say, Dirprwy Lywydd, as far as the amendments are concerned that the Government will accept all of them today. It is important that there is cross-party agreement in terms of the scientific strategy as much as that can be achieved, because we believe that ‘Science for Wales’ sets out a

bywydau i gyd: dewisiadau a thechnegau newydd ym maes gofal iechyd; peiriannau a deunyddiau newydd i’w defnyddio mewn gweithgareddau bob dydd; a mwy o gysylltedd i bawb. Mae angen i bobl ledled Cymru fod yn ymwybodol o ddatblygiadau gwyddonol a bod yn gyfforddus ynddynt. Mae busnesau ac unigolion—gwirfoddolwyr yn aml—yn gwneud llawer o waith dyfeisgar ac ysbrydoledig sy’n dod â chysyniadau gwyddonol yn fyw. Maent yn trafod y dryswch a all godi, weithiau, gyda darganfyddiadau gwyddonol. Mae eu gwaith yn ddefnyddiol iawn wrth ategu’r cwricwlwm gwyddoniaeth ffurfiol o ran ymgysylltu plant a phobl ifanc i raddau helaethach â gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg.

Felly, mae gennym waith ymgysylltu da ym maes gwyddoniaeth, ond mae angen iddo fod yn fwy cydlynol. Mae angen arweinyddiaeth.

Julie Morgan: Ni wn a yw’r Prif Weinidog yn gwybod mai dau fyfyrwr 17 oed o Gaerdydd oedd cyd-enillwyr cystadleuaeth Peiriannydd Ifanc y Flwyddyn dros y penwythnos. Roedd un ohonynt, Wasim Miah, yn un o fy etholwyr, a’r llall, Jessica Jones, oedd y fenyw gyntaf i ennill y wobr honno. Onid ydych yn meddwl bod hyn yn gyflawniad aruthrol ac yn dangos beth sy’n cael ei gyflawni yng Nghymru? Nid y gamp lawn yn unig a enillwyd gennym dros y penwythnos; ni enillodd Peiriannydd Ifanc y Flwyddyn y DU hefyd.

Y Prif Weinidog: Mae’n gyflawniad gwych, ac rwy’n estyn fy llongyfarchiadau gwresog i’r ddau. Mae’n ardderchog bod llwyddiant yn cael ei gydnabod, a dymunaf bob lwc iddynt yn eu hymdrechion yn y dyfodol.

Mae angen cydlyniant, wrth gwrs, a’r sylw priodol i bynciau gwyddonol ar draws pob rhan o Gymru. Mae ein academi wyddoniaeth genedlaethol wedi cael ei sefydlu i helpu ac i arwain hyn. Cyn belled ag y mae’r gwelliannau yn y cwestiwn, fe ddywedaf, Ddirprwy Lywydd, y bydd y Llywodraeth yn derbyn pob un ohonynt heddiw. Mae’n bwysig bod cefnogaeth drawsbleidiol o ran y strategaeth wyddonol, cyn belled ag y gellir cyflawni hynny, gan ein

challenging, high-level agenda. It set out a clear call to action in all aspects of our scientific life. There are some detailed proposals, but we recognise that there is more work that needs to be done by ourselves and our partners to develop the actions that are called for. We have, for the first time I suspect, a science strategy, a National Science Academy and a clear way forward to ensure that Wales plays a part in scientific development in the future and also gains the benefits, both intellectually and commercially, in the years to come.

Gwelliant 1 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Gresynu mai dim ond 3.3 y cant oedd cyfran Cymru o gyllid cyngor ymchwil y DU yn 2009/10.

Gwelliant 2 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Gresynu wrth y 'lleihad yn nifer y disgyblion sy'n astudio pynciau STEM a'r ffaith nad yw nifer y disgyblion sy'n astudio'r pynciau hyn ar gyfer Safon Uwch wedi cynyddu yn unol â nifer y disgyblion sy'n cofrestru ar gyfer arholiadau Safon Uwch yn gyffredinol'.

Gwelliant 3 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno rhaglen i annog pobl dalentog iawn i fynd i ddysgu pynciau STEM.

Gwelliant 4 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Galw ar Lywodraeth Cymru i annog rhagor o fusnesau yng Nghymru i fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu mentrau busnes ac i gael gafael ar gyllid Rhaglen Fframwaith yr UE i

bod yn credu bod 'Gwyddoniaeth i Gymru' yn nodi agenda heriol, lefel uchel. Roedd yn nodi galwad glir i weithredu ym mhob agwedd ar ein bywyd gwyddonol. Mae rhai cynigion manwl, ond rydym yn cydnabod bod angen i ni a'n partneriaid wneud mwy o waith i ddatblygu'r camau gweithredu y mae galw amdanynt. Am y tro cyntaf, rwy'n credu, mae gennym strategaeth wyddoniaeth, Academi Wyddoniaeth Genedlaethol a ffordd glir ymlaen i sicrhau bod Cymru yn chwarae rhan mewn datblygiadau gwyddonol yn y dyfodol a hefyd yn manteisio ar y buddiannau, yn ddeallusol ac yn fasnachol, yn y blynyddoedd i ddod.

Amendment 1 William Graham

Add as new point at end of motion:

Regrets that Wales' share of UK research council funding in 2009/10 was 'just 3.3%'.

Amendment 2 William Graham

Add as new point at end of motion:

Regrets the 'decline in GCSE take up of STEM subjects and the fact that take up at 'A' level has not increased in line with overall 'A' level entries.'

Amendment 3 William Graham

Add as new point at end of motion:

Calls for the Welsh Government to introduce a programme encouraging highly talented people into STEM subject teaching.

Amendment 4 William Graham

Add as new point at end of motion:

Calls on the Welsh Government to encourage more businesses in Wales to invest in business enterprise research and development (BERD) and to access EU

wneud hyn.

Nick Ramsay: I move amendments 1, 2, 3 and 4 in the name of William Graham.

I agree with two things that the First Minister has just said, the first of which is that there is cross-party support for developing science innovation in Wales. I do not think that anyone in the Chamber would deny that. Also, while there are many good things going on at the moment in our universities and businesses, which are seeking to tap into research and development, there is ground to be made up. However, I welcome any moves to do that. The First Minister mentioned two good examples: the Institute of Life Science in Swansea; and neuroscience activities in Cardiff University, which has a very good reputation. These are good examples, but we would like to see a few more examples over the next few years. The phrase that jumped out of the 'Science for Wales' document, which I thought was particularly interesting, was John Harries's verdict that there are a number of 'hard truths' that all of us need to face up to in an area that, perhaps for a long time, has been underestimated in its importance in generating economic growth in Wales.

Turning to our amendments, amendment 1 regrets that Wales's share of UK research funding in 2009-10 was just 3.3%, which compares less favourably with Scotland and other parts of the United Kingdom. I know that the First Minister referred to the need to improve this statistic. Even if you take Oxford and Cambridge universities, which weight the statistics, out of the UK research and development funding equation overall, you would still expect Wales to receive a better share than 3.3%. The Welsh Government's argument for a 5% target—which I accept is a start—says that the intention behind it is to represent the share we would get in the Barnettised situation in terms of population funding. However, if you look at the Scotland statistic of 14.8% for research and development from the UK pot as a whole, that does not tally with its share of the population, as this figure would be

Framework Programme funding for this purpose.

Nick Ramsay: Cynigaf welliannau 1, 2, 3 a 4 yn enw William Graham.

Cytunaf â dau beth y mae'r Prif Weinidog newydd eu dweud, a'r cyntaf yw bod cefnogaeth drawsbleidiol dros ddatblygu arloesedd gwyddoniaeth yng Nghymru. Nid wyf yn meddwl y byddai neb yn y Siambr yn gwadu hynny. Hefyd, er bod llawer o bethau da yn digwydd ar hyn o bryd yn ein prifysgolion a'n busnesau, sy'n ceisio manteisio ar waith ymchwil a datblygu, mae angen ennill tir. Fodd bynnag, rwy'n croesawu unrhyw symudiadau i wneud hynny. Soniodd y Prif Weinidog am ddwy enghraifft dda: y Sefydliad Gwyddor Bywyd yn Abertawe; a gweithgareddau niwrowyddoniaeth ym Mhrifysgol Caerdydd, sydd ag enw da iawn. Mae'r rhain yn enghreifftiau da, ond hoffem weld ychydig yn rhagor o enghreifftiau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Yr ymadrodd a oedd yn tynnu sylw fwyaf yn nogfen 'Gwyddoniaeth i Gymru', ac a oedd yn arbennig o ddiddorol, oedd barn John Harries fod nifer o 'wirioneddau caled' y mae angen i bob un ohonom eu hwynebu mewn maes nad yw, am hir iawn, efallai, wedi cael ei ystyried yn ddigon pwysig o ran cynhyrchu twf economaidd yng Nghymru.

Gan droi at ein gwelliannau, mae gwelliant 1 yn gresynu mai dim ond 3.3% oedd cyfran Cymru o gyllid ymchwil y DU yn 2009-10, sy'n cymharu'n llai ffafriol â'r Alban a rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Gwn fod y Prif Weinidog wedi cyfeirio at yr angen i wella'r ystadegyn hwn. Hyd yn oed os ydych yn tynnu ffigurau prifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt, sy'n gogwyddo'r ystadegau, allan o gyllid ymchwil a datblygu'r DU gyfan, byddech yn dal i ddisgwyl i Gymru gael cyfran well na 3.3%. Mae dadl Llywodraeth Cymru dros darged o 5%—sy'n fan cychwyn, rwy'n cydnabod—yn dweud mai'r bwriad y tu ôl i hyn yw cynrychioli'r gyfran y byddem yn ei chael mewn sefyllfa fformiwla Barnett o ran cyllid yn ôl poblogaeth. Fodd bynnag, os edrychwch ar ystadegyn yr Alban, sef 14.8% ar gyfer ymchwil a datblygu o gyfanswm y DU gyfan, nid yw'n cyfateb i'w chyfran o'r boblogaeth;

closer to 8%. Therefore, while I welcome this as a start, why has it been set at 5% in the initial stage? Perhaps the Minister could respond to that in summing up at the end. There may well be a good reason for that, but I think our universities and the general public would like to know why that has been chosen.

There is no doubt at all that the importance of a sound and vibrant scientific and technological base to a solid economy needs to be recognised. I am pleased that, because of that, this falls within the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science's portfolio, which is the right place for it. Our follow-up amendments refer to educational issues. This, probably more than any other area of Welsh Government business, is cross-cutting. The First Minister has stated that it clearly affects the business and enterprise portfolio, and it also involves a large chunk of the education, lifelong learning and skills agenda. I appreciate the difficulties of tying all of these together and making progress. However, my feeling from the report is that it is, in many respects, quite an honest report that faces up to the need to move things forward in Wales. I will just pick out a couple of points. Page 5 refers to the need to appoint 'a national leader for innovation' and, in the following paragraph, it states that the Welsh Government will,

'under a new Chief Scientist's department, including a new science division, bring clearer leadership within the Welsh Government to delivering science strategy, improving research capability and the use of science in policy'.

The flipside of that is that the current leadership could be clearer. The First Minister's comments suggest that he would aspire for it to be clearer. Let us make sure that, in the years to come, now that we have this strategy in place, we have that leadership so that we do not, in a few years' time, look back and ask what happened to that paragraph.

byddai'r ffigur hwn yn nes at 8%. Felly, er fy mod yn croesawu hyn fel man cychwyn, pam mai ar 5% y mae wedi'i osod? Efallai y gallai'r Gweinidog ymateb i hynny wrth grynhoi ar y diwedd. Efallai fod rheswm da dros hynny, ond rwy'n meddwl yr hoffai ein prifysgolion a'r cyhoedd yn gyffredinol wybod pam mai hynny a gafodd ei ddewis.

Nid oes amheuaeth o gwbl nad oes angen cydnabod bod sail wyddonol a thechnolegol gadarn a bywiog yn bwysig i economi gadarn. Oherwydd hynny, rwy'n falch bod hyn yn dod o fewn portffolio'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, sef y lle iawn ar ei gyfer. Mae ein gwelliannau dilynol yn cyfeirio at faterion addysgol. Mae hyn, i raddau mwy helaeth nag yn achos unrhyw faes arall o fusnes Llywodraeth Cymru, mae'n debyg, yn drawsbynciol. Mae'r Prif Weinidog wedi datgan bod hyn yn amlwg yn effeithio ar y portffolio busnes a menter, ac mae hefyd yn cynnwys cyfran fawr o'r agenda addysg, dysgu gydol oes a sgiliau. Rwy'n gwerthfawrogi'r anawsterau sy'n gysylltiedig â chlymu pob un o'r rhain wrth ei gilydd a gwneud cynnydd. Fodd bynnag, fy argraff i o'r adroddiad yw ei fod, ar lawer ystyr, yn adroddiad gonest sy'n wynebu'r angen i symud pethau ymlaen yng Nghymru. Rwyf am dynnu sylw at rai pwyntiau. Mae tudalen 5 yn cyfeirio at yr angen i benodi 'arweinydd cenedlaethol ar gyfer arloesi' ac, yn y paragraff canlynol, mae'n nodi y gall Llywodraeth Cymru,

'o dan Adran Prif Wyddonydd newydd, gan gynnwys Is-adran Gwyddoniaeth newydd, sicrhau arweiniad cliriach yn Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni'r strategaeth wyddoniaeth, cynyddu adnoddau ymchwil a gwella'r defnydd a wneir o wyddoniaeth mewn polisi'.

Yr ochr arall i hynny yw y gallai'r arweinyddiaeth bresennol fod yn gliriach. Mae sylwadau'r Prif Weinidog yn awgrymu y byddai'n anelu at iddi fod yn gliriach. Gan fod gennym y strategaeth hon yn awr, gadewch inni sicrhau bod gennym yr arweinyddiaeth honno yn y blynyddoedd i ddod, fel nad ydym yn edrych yn ôl ymhen ychydig o flynyddoedd ac yn gofyn beth ddigwyddodd i'r paragraff hwnnw.

Finally, we have, for the first time, a strategy in place. I think that it was back in 2006 that the then First Minister announced that,

‘The time is now ripe for a science policy for Wales.’

Six years and two reports later, we have reached that point in time, which we all welcome. We have waited a while for it. I will give the First Minister the benefit of the doubt and assume that that is because he wanted it to be a document that really would set the science agenda in Wales on a sound footing for years to come. Specifically, the Welsh Government is aiming to,

‘increase our share of UK Research Council funding from 3.3 per cent in 2009/10.’

I have identified this issue as the subject of our key amendment. I would like to hear from the First Minister why it is not more ambitious than 5% and I would like an assurance that that target will be reached.

Gwelliant 5 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Galw ar Lywodraeth Cymru i gynhyrchu cynllun cyflenwi yn amlinellu pwyntiau gweithredu allweddol ac yn pennu targedau diffiniadwy ar gyfer gwella gwyddoniaeth ac arloesedd.

Gwelliant 6 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Galw ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau i egluro'r sefyllfa o ran gwyddoniaeth fel dangosydd pwnc craidd mewn ysgolion.

Eluned Parrott: I move amendments 5 and 6 in the name of Peter Black.

First, I would like to thank the First Minister for bringing this debate forward today and giving us the opportunity to discuss this

Yn olaf, mae gennym strategaeth, am y tro cyntaf. Rwy'n meddwl mai yn 2006 y cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru ar y prydd

ei bod bellach yn amser am bolisi gwyddoniaeth i Gymru.

Chwe blynedd a dau adroddiad yn ddiweddarach, mae'r amser hwnnw, yr ydym i gyd yn ei groesawu, wedi cyrraedd. Rydym wedi aros yn eithaf hir amdano. Rwy'n barod i feddwl y gorau o'r Prif Weinidog a rhagdybio mai'r rheswm am hynny yw ei fod am iddi fod yn ddogfen a fyddai'n mynd ati i roi'r agenda wyddoniaeth yng Nghymru ar sail gadarn am flynyddoedd i ddod. Yn benodol, nod Llywodraeth Cymru yw

‘cynyddu ein cyfran o gyllid Cyngor Ymchwil y DU o 3.3 y cant yn 2009/10’.

Rwyf wedi nodi'r mater hwn fel testun ein gwelliant allweddol. Hoffwn glywed gan y Prif Weinidog pam nad yw'r gyfran yn fwy uchelgeisiol na 5%, a hoffwn sicrwydd y bydd y targed yn cael ei gyrraedd.

Amendment 5 Peter Black

Add as new point at end of motion:

Calls for the Welsh Government to produce a delivery plan outlining key action points and setting definable targets for improving science and innovation.

Amendment 6 Peter Black

Add as new point at end of motion:

Calls on the Minister for Education and Skills to provide clarity on the position of science as a core subject indicator in schools.

Eluned Parrott: Cynigiau welliannau 5 a 6 yn enw Peter Black.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r Prif Weinidog am gyflwyno'r ddadl hon heddiw a rhoi cyfle inni drafod y maes polisi pwysig hwn yn

important policy area in detail through a debate. First Minister, in the broader sense, I welcome the strategy but I have some comments and queries that I hope you will be able to address in your response. The economic renewal programme placed an emphasis on some areas that will require a strong background in Wales—notably, as you mentioned, energy, life sciences and advanced materials and manufacturing. For our businesses in these sectors to remain strong and to grow, we have to back this up with a strong background in science. I am pleased, therefore, that the Welsh Government has decided to produce a strategy to improve science and innovation in Wales. I particularly welcome the breadth of remit that the strategy addresses, encompassing fundamental research, teaching, innovation and public engagement, and looking, in the wider sense, at the benefits that science can bring to our society.

I would also like to put on record my thanks to Professor John Harries and his panel for their work in producing this strategy. However, I am a little disappointed that, like many of the strategies that this Government has produced recently, there is a lack of detail regarding action points or targets for success. I note that two targets are set out in the strategy, one of which is to increase our share of the UK's research council funding, as we have heard, and the other is to raise the proportion of research achieving 3* and 4* for quality and impact to the highest UK level in the next research excellence framework. While these are both useful targets to aim for, they are complex targets to address, and are not entirely in the Welsh Government's control. When it comes to delivery, we do not have a clear idea of what the Government considers to be a success but, more importantly, those working towards the strategy will not have a clear idea either, and, therefore, will not be able to prioritise their own work accordingly. I hope that the First Minister will agree to publish a delivery plan, setting out specific targets, actions and responsibilities so that everyone who is involved in delivering the strategy—partners and Government officials—can clearly see what their own role is, and what is expected of them as regards delivery.

fanwl mewn dadl. Brif Weinidog, yn gyffredinol, rwy'n croesawu'r strategaeth, ond mae gennyf rai sylwadau ac ymholiadau rwy'n gobeithio y gallwch fynd i'r afael â hwy yn eich ymateb. Roedd y rhaglen adnewyddu economaidd yn rhoi pwyslais ar rai meysydd lle y bydd angen cefndir cryf yng Nghymru—yn enwedig, fel y bu ichi sôn, meysydd ynni, gwyddorau bywyd, a deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch. Er mwyn i'n busnesau ni yn y sectorau hyn barhau'n gryf a pharhau i dyfu, mae'n rhaid inni gefnogi hyn â chefnidir cryf mewn gwyddoniaeth. Rwy'n falch, felly, fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu llunio strategaeth i wella gwyddoniaeth ac arloesi yng Nghymru. Croesawaf yn arbennig ehangder y cylch gwaith y mae'r strategaeth yn mynd i'r afael ag ef, gan gwmpasu gwaith ymchwil sylfaenol, addysgu, arloesi ac ymgysylltu â'r cyhoedd, a chan edrych ar y manteision ehangach y gall gwyddoniaeth eu rhoi i'n cymdeithas

Hoffwn hefyd gofnodi fy niolch i'r Athro John Harries a'i banel am eu gwaith wrth lunio'r strategaeth hon. Fodd bynnag, rwyf ychydig yn siomedig bod diffyg manylder ynghylch pwyntiau gweithredu neu dargedau llwyddiant, fel yn llawer o'r strategaethau y mae'r Llywodraeth hon wedi'u llunio'n ddiweddar. Nodaf fod dau darged yn cael eu nodi yn y strategaeth; mae un ohonynt yn ymwneud â chynyddu ein cyfran o gyllid cyngor ymchwil y DU, fel y clywsom, a'r llall yw codi cyfran y gwaith ymchwil sy'n cyrraedd lefelau 3* a 4* am ansawdd ac effaith i lefel uchaf y DU yn y fframwaith rhagoriaeth ymchwil nesaf. Er ei bod yn ddefnyddiol anelu at y ddau darged hyn, maent yn dargedau cymhleth i fynd i'r afael â hwy, ac nid ydynt yn gyfan gwbl o dan reolaeth Llywodraeth Cymru. O ran cyflawni, nid oes gennym syniad clir o'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ei ystyried yn llwyddiant. Yn bwysicach na hynny, ni fydd syniad, chwaith, gan y rhai sy'n gweithio tuag at y strategaeth ac, felly, ni fyddant yn gallu blaenoriaethu eu gwaith eu hunain yn unol â hi. Rwy'n gobeithio y bydd y Prif Weinidog yn cytuno i gyhoeddi cynllun cyflawni, a fydd yn nodi targedau, camau gweithredu a chyfrifoldebau penodol fel bod pawb sy'n gysylltiedig â chyflawni'r strategaeth—yn bartneriaid a swyddogion y Llywodraeth—yn gallu gweld

yn glir beth yw eu rôl eu hunain, a beth a ddisgwylir ganddynt o ran cyflawni.

4.45 p.m.

I am also pleased that the importance of teaching science in schools is highlighted in the strategy. It is of concern that the numbers taking STEM subjects at GCSE level is in decline, and that clearly needs to be addressed. Again, I would ask the First Minister to look at why both literacy and numeracy are frequently referred to in Government programmes and in the new banding exercise, but science, a core subject, is not. We would welcome some clarity on that, because it would seem to me that to exclude science from core measures sends the message that science is of secondary importance to us, and that would, sadly, undermine the message of this strategy, which would be unfortunate.

I strongly welcome the Sêr Cymru project, and think that it is an exciting opportunity for us. It is notable that some of Wales's universities have already been successful in attracting the very best, even Nobel laureates, to work in Wales. That is welcome, but I would also like to see greater action taken to keep the best young academics here in Wales. Only today it was announced that two young researchers from Cardiff University have reached the final of FameLab, which is a prestigious science communication competition, but I wonder, if we are not careful in supporting them, how much longer they will be able to remain in Wales. That very early stage of their career is the most difficult for young academics, and I wonder whether the First Minister would consider establishing a scholarship programme to fund fundamental science to keep the brightest and best here.

I very much welcome the specific focus on the public understanding of science in the strategy, but, while the need to excite and enthuse young people is important, there are other reasons for public engagement that are not addressed in the strategy. There is a need for science to engage with adults in our society, as well as with young people, to democratise knowledge and allow people to

Rwyf hefyd yn falch bod pwysigrwydd addysgu gwyddoniaeth mewn ysgolion yn cael sylw yn y strategaeth. Mae'n destun pryder bod y nifer sy'n cymryd pynciau STEM ar lefel TGAU yn dirywio, ac mae'n amlwg bod angen mynd i'r afael â hynny. Unwaith eto, gofynnaf i'r Prif Weinidog edrych ar pam mae cyfeiriadau cyson at lythrennedd a rhifedd yn rhaglenni'r Llywodraeth ac yn yr ymarfer bandio newydd, ond nid at wyddoniaeth, sy'n bwnc craidd. Byddwn yn croesawu rhywfaint o eglurder ynghylch hynny, oherwydd ymddengys i mi fod eithrio gwyddoniaeth o fesurau craidd yn anfon neges bod gwyddoniaeth yn llai pwysig i ni, a byddai hynny, yn anffodus, yn tanseilio neges y strategaeth hon, a byddai hynny'n anffodus.

Rwy'n croesawu prosiect Sêr Cymru yn fawr ac yn meddwl ei fod yn gyfle cyffrous i ni. Mae'n werth nodi y bu rhai o brifysgolion Cymru eisoes yn llwyddiannus wrth ddenu'r bobl orau, enillwyr y wobr Nobel hyd yn oed, i weithio yng Nghymru. Mae hynny i'w groesawu, ond byddwn hefyd yn hoffi gweld mwy o weithredu i gadw ein hacademyddion ifanc gorau yng Nghymru. Dim ond heddiw, cyhoeddwyd bod dau ymchwilydd ifanc o Brifysgol Caerdydd wedi cyrraedd rownd derfynol FameLab, sef cystadleuaeth gyfathrebu wyddonol fawreddog, ond tybed, os na fyddwn yn ddigon gofalus i'w cefnogi, pa mor hir y gallant aros yng Nghymru. Y cyfnod cynharaf o'u gyrfa yw'r cyfnod anoddaf i academyddion ifanc, felly tybed a fyddai'r Prif Weinidog yn ystyried sefydlu rhaglen ysgoloriaeth i ariannu gwyddoniaeth sylfaenol i gadw'r bobl orau a mwyaf disglair yma.

Rwy'n croesawu'n fawr y ffocws penodol ar ddealltwriaeth y cyhoedd o wyddoniaeth yn y strategaeth, ond, er bod yr angen i gyffroi ac annog pobl ifanc yn bwysig, mae rhesymau eraill dros ymgysylltu â'r cyhoedd nad ydynt yn cael sylw yn y strategaeth. Mae angen i wyddoniaeth ymgysylltu â'r oedolion yn ein cymdeithas, yn ogystal â'r bobl ifanc, i ddemocrateiddio gwybodaeth a galluogi pobl

become truly engaged citizens. That is critical in supporting informed public debate about scientific issues that affect us all: bovine TB, the organ donation opt-out, vaccination programmes. All of those debates require us to engage with science and the ethics of science, and for that reason I hope that the First Minister will consider what can be done to support engagement across all age groups.

Finally, while I welcome all efforts to support science programmes in Wales, I would also like to ask where the responsibility for the academy in the non-STEM subjects lies. The humanities and social sciences are also capable of making a significant contribution to the economy of Wales. In social sciences, you might look at training in the financial services or law; in the arts, you might look at cultural heritage and the fact that 80% of visitors to Wales visit a cultural attraction.

The Deputy Presiding Officer: Conclude now, please.

Eluned Parrott: I would like to understand how they might be supported in future too.

Alun Ffred Jones: Dywedaf ar y cychwyn fy mod yn croesawu'r ddogfen yn fawr, er fy mod yn dipyn bach yn siomedig yn y teitl 'agenda strategol ar gyfer gwyddoniaeth'. Hynny yw, mae'n dechrau, ond dechrau yn unig yw.

Mae canolbwyntio ar feysydd penodol lle mai gan Gymru cryfderau eisoes i'w croesawu'n fawr: gwyddorau bywyd, iechyd, ynni carbon isel, peirianeg a deunyddiau uwch. Mae cael nod hefyd o sicrhau bod Cymru'n gwneud o leiaf yr un maint o ymchwil a ariennir yn gystadleuol â gwledydd eraill y Deyrnas Unedig i'w groesawu hefyd. Fel y nodwyd y Prif Weinidog, mae cysylltu'r ymchwil blaengar hwn â'r sector busnes a chreu swyddi eto i'w croesawu'n fawr.

i ddod yn ddinasyddion sydd wirioneddol wedi'u hymgysylltu. Mae hynny'n hollbwysig i gefnogi dadleuon cyhoeddus a hyddysg am faterion gwyddonol sy'n effeithio ar bob un ohonom: TB buchol, dewis peidio â rhoi organau, a rhaglenni brechu. Mae'r holl ddadleuon hynny yn gofyn i ni ymgysylltu â gwyddoniaeth a moeseg gwyddoniaeth, ac am y rheswm hwnnw rwy'n gobeithio y bydd y Prif Weinidog yn ystyried beth y gellir ei wneud i gefnogi ymgysylltiad ar gyfer pob grŵp oedran.

Yn olaf, er fy mod yn croesawu pob ymdrech i gefnogi rhaglenni gwyddoniaeth yng Nghymru, byddwn hefyd yn hoffi gofyn pwy sydd â chyfrifoldeb dros academi pynciau nad ydynt yn rai gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg. Gallai'r dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol hefyd gyfrannu'n sylweddol at economi Cymru. O ran y gwyddorau cymdeithasol, efallai y gallech edrych ar hyfforddiant mewn gwasanaethau ariannol neu'r gyfraith; yn y celfyddydau, efallai y gallech edrych ar dreftadaeth ddiwylliannol a'r ffaith bod 80% o ymwelwyr i Gymru yn ymweld ag atyniad diwylliannol.

Y Dirprwy Lywydd: Gorffennwch yn awr, os gwelwch yn dda.

Eluned Parrott: Hoffwn ddeall sut y gallent hwy hefyd gael cefnogaeth yn y dyfodol.

Alun Ffred Jones: I will say at the outset that I very much welcome the document, although I am somewhat disappointed in the title 'strategic agenda for science'. That is, it is a start, but only a start.

Focusing on some specific areas where Wales has strengths already is to be welcomed very much: life sciences, health, low-carbon energy, and advanced engineering and materials. Having an objective to ensure that Wales has at least the same amount of competitive research funding as other countries in the United Kingdom is also to be welcomed. As the First Minister noted, linking this advanced research and development with the business sector and creating jobs is also to be welcomed.

Fodd bynnag, agenda strategol yw hwn, fel rwyf wedi ei ddweud. Mae'n rhestr o ddyuniadau ac mae'n cydnabod cryfderau a chyfleoedd, ond ychydig iawn sydd am sut mae gweithredu'r strategaeth, a dyna'r cam pwysig mae'n rhaid inni ei gyrraedd yn fuan.

Nid oes modd i ni ddatblygu rhagoriaeth yng Nghymru heb sail addysgol gadarn yn ein hysgolion. O ran hynny, nid yw'r ffeithiau'n galonogol, er bod eithriadau. Mae adroddiad Estyn ar ysgolion uwchradd, a ddyfynnwyd gan bwyllgor y Cynulliad, yn dweud bod safonau mewn gwyddoniaeth a mathemateg yn sylweddol is nag yn bynciau eraill. Mae tystiolaeth Estyn hefyd yn nodi bod y canran o ddisgyblion sy'n astudio bywydeg, chemeg, ffiseg a mathemateg ar gyfer Safon Uwch yng Nghymru yn sylweddol is nag yn weddill y Deyrnas Unedig. Un rheswm am hynny yw nad yw astudio gwyddoniaeth ar y cyd yn rhoi sgiliau sylfaenol a syniadol i ddisgyblion i'w paratoi ar gyfer Safon Uwch. Yn ôl Cydbwyllgor Addysg Cymru, mae dim ond 40% o ysgolion Cymru sy'n cynnig pynciau gwyddonol unigol ar gyfer arholiadau TGAU.

Heb welliant sylweddol yn y maes hwn—ac mae hyn yn ganlyniad o 12 mlynedd o bolisiau Gweinidogion Llafur yn y Cynulliad hwn—sail sigledig iawn sydd i'r agenda strategol o safbwynt datblygu gwyddonwyr. Rydym wedi clywed enghreifftiau o eithriadau heddiw—yn sicr, mae talent yma ac mae'n siŵr bod ysgolion sy'n gwneud gwaith gwych—ond, yn gyffredinol, nid ydym ar hyn o bryd yn cyrraedd y safon angenrheidiol er mwyn cystadlu ar y lefel uchaf. Wrth gwrs, fel y nododd y Prif Weinidog, mae hynny mewn byd cystadleuol lle mae pawb yn ceisio achub y blaen.

The sections on strengthening university science and promoting business innovation are valuable in mapping out our strengths and aspirations. However, again, I am unclear as to what we are going to do to improve Wales's share of UK research in higher education. We need clarity about how we unlock the first-class research going on in departments such as the marine research unit at Bangor University and elsewhere.

However, this is a strategic agenda, as I have said. It is a wish list and recognises weaknesses and opportunities, but there is very little about how to implement the strategy, and that is the important stage that we must reach soon.

We cannot develop excellence in Wales without a strong educational foundation in our schools. In that regard, the facts are not encouraging, although there are exceptions. Estyn's report on secondary schools, which was quoted by the Assembly committee, says that standards in science and mathematics were significantly lower than in other subjects. Estyn's evidence also noted that the percentage of pupils studying biology, chemistry, physics and mathematics at A-level in Wales is significantly lower than in the rest of the UK. One reason for that is that joint science subjects do not give the breadth of knowledge and skills for pupils to prepare them for A-level. According to the WJEC, only 40% of Welsh schools offer individual science subjects at GCSE.

Without a significant improvement in this area—and this is the result of 12 years of Labour Ministers' policies in this Assembly—the strategic agenda is on very shaky ground as far as developing scientists is concerned. We have heard examples of exceptions today—certainly, there is talent here and there are no doubt schools that are doing excellent work—but, generally, we are not at present reaching the standard necessary to compete at the highest level. Of course, as the First Minister noted, that is in a competitive world in which everyone is trying to get ahead.

Mae'r adrannau ar gryfhau gwyddoniaeth mewn prifysgolion a hyrwyddo arloesedd busnes yn werthfawr o ran cynllunio ein cryfderau a'n dyheadau. Fodd bynnag, unwaith eto, nid wyf yn siŵr beth a wnawn i wella cyfran Cymru o waith ymchwil mewn addysg uwch yn y DU. Mae angen eglurder ynghylch sut rydym yn mynd i ryddhau'r gwaith ymchwil o'r radd flaenaf sy'n cael ei wneud mewn adrannau megis yr uned ymchwil morol ym mhrifysgol Bangor, ac

mewn manau eraill.

It was also noted in the report that we need to

Nodwyd hefyd yn yr adroddiad bod angen i ni

‘facilitate greater synergy between EU structural funds and research programmes in Welsh universities and industry, and improve technical and peer review of WEFO-funded research proposals.’

‘hwyluso mwy o synergedd rhwng cronfeydd strwythurol yr UE a rhaglenni ymchwil mewn prifysgolion a diwydiant yng Nghymru a gwella adolygiadau technegol ac adolygiadau gan gymheiriaid o gynigion ymchwil a ariennir gan WEFO.’

That is a welcome statement and it will have to be enacted vigorously, as it goes hand in hand with the proposed guidelines for the next round of structural funds, with its emphasis on job creation.

Mae hynny'n ddatganiad i'w groesawu a bydd yn rhaid ei roi ar waith yn egniol, gan ei fod yn mynd law yn llaw â'r canllawiau arfaethedig ar gyfer y cylch nesaf o gronfeydd strwythurol, gyda'r pwyslais ar greu swyddi.

In the analysis of Wales's strengths, a number of institutions where leading research goes on are noted. There is plenty of good news in that regard. I note that one of those units—forgive me for being parochial—is at Bangor University, at the College of Health and Behavioural Sciences. However I know, after a recent visit there, following visits by the Minister for Health and Social Services and the Chief Scientific Officer for Wales, that it is struggling to get sufficient funding to develop its full potential. If we want these centres of excellence to flourish, we need to give them practical support, and not merely mouth pleasant platitudes.

Yn y dadansoddiad o gryfderau Cymru, nodir nifer o sefydliadau lle mae gwaith ymchwil blaenllaw yn cael ei wneud. Mae digon o newyddion da o ran hynny. Nodaf fod un o'r unedau hynny—maddeuwch imi am fod yn blwyfol—ym Mhrifysgol Bangor, yng Ngholeg y Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad. Fodd bynnag, rwy'n gwybod, ar ôl ymweliad diweddar yno, yn dilyn ymweliadau gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Swyddog Gwyddonol Cymru, ei fod yn ei chael yn anodd cael cyllid digonol i ddatblygu i'w lawn botensial. Os ydym am i'r canolfannau rhagoriaeth hyn ffynnu, mae angen rhoi cymorth ymarferol iddynt, ac nid geiriau gwag yn unig.

This is an important document. Indeed, it could be a significant document. However, it is only a beginning, and we await the actions.

Mae hon yn ddogfen bwysig. Yn wir, gallai fod yn ddogfen arwyddocaol. Fodd bynnag, dim ond y dechrau yw hyn, ac rydym yn aros am y camau gweithredu.

Kenneth Skates: I welcome the First Minister's statement today and this document. Given the huge advances made in recent years, it would be easy for non-scientists such as us to hold the view that many of the great scientific problems have now been solved. However, the truth of the matter is that we are on the verge of even more exciting leaps forward in scientific endeavour and discovery. More scientific research is being carried out today than ever before. It is more global than it once was, and it now has the ability to shape everyday lives

Kenneth Skates: Rwy'n croesawu datganiad y Prif Weinidog heddiw a'r ddogfen hon. O gofio'r datblygiadau enfawr a wnaed yn y blynyddoedd diwethaf, byddai'n hawdd i bobl fel ni, nad ydym yn wyddonwyr, feddwl bod nifer o'r problemau gwyddonol mawr bellach wedi'u datrys. Fodd bynnag, y gwir amdani yw ein bod ar drothwy datblygiadau mewn ymdrechion a darganfyddiadau gwyddonol sydd hyd yn oed yn fwy cyffrous. Mae mwy o waith ymchwil gwyddonol yn cael ei wneud heddiw nag erioed o'r blaen. Mae'n fwy byd-eang nag yr oedd, ac mae

more than ever before.

Economically and intellectually, Wales needs to be at the forefront of this change. We need to elbow our way to the front of the scientific revolution. Importantly, it could help fuel the economic and manufacturing transformation that we all wish to see in our regional economy. However, that will only happen through a renewed compact between science and society, based on a proper understanding of what science can achieve for Wales.

The recent announcements that we have seen on the life sciences show that the Welsh Government has really stepped up its game and is really committed to driving science forward in Wales. The imbalance in research funding presents us with incredible potential. In 2009-10, £1.59 billion was awarded by UK research councils, but only £53 million—3.3%—was allocated to research in Wales. If we brought that up to 5%, it would, as the First Minister said, bring an extra £27 million a year to Wales. I remember talking to masters in Cambridge in the 1990s about how to draw out more science and research funding. At the heart of that endeavour was ensuring that you had a strong scientific and research base in universities, which is precisely why the Welsh Government is right to ensure that, in future, we have fewer but stronger education institutions in the higher education sector. To realise this, we need to be more involved in peer-review processes, we need to have world-class institutions that can attract high-value funding and world-class scientists, and we need to have a much higher profile in research science across the world.

In relation to life sciences, we have recently seen two important announcements to help address this imbalance. The announcement of Wales's new science policy includes a £50 million fund to attract the best scientists to Wales. In addition, a new £100 million investment fund will be created for the life sciences sector in Wales, with an initial

bellach yn gallu llywio bywyd dyddiol fwy nag erioed.

Yn economaidd ac yn ddeallusol, mae angen i Gymru fod ar flaen y gad o ran y newid hwn. Mae angen i ni wthio ein ffordd i flaen y chwyldro gwyddonol. Yn hanfodol, gallai helpu i ysgogi'r trawsnewidiad economaidd a gweithgynhyrchu yr ydym oll am ei weld yn ein heconomi ranbarthol. Fodd bynnag, dim ond drwy adnewyddu'r compact rhwng gwyddoniaeth a chymdeithas y gall hynny ddigwydd, compact sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth briodol o'r hyn y gall gwyddoniaeth ei gyflawni i Gymru.

Mae'r cyhoeddiadau diweddar ar y gwyddorau bywyd yn dangos bod Llywodraeth Cymru o ddifrif o ran ei hymrwymiad i ddatblygu gwyddoniaeth yng Nghymru. Mae potensial anhygoel o ran yr anghydbwysedd cyllid ar gyfer ymchwil. Yn 2009-10, cafodd £1.59 biliwn ei ddyfarnu gan gynghorau ymchwil y DU, ond dim ond £53 miliwn—3.3%—a gafodd ei ddyrannu i ymchwil yng Nghymru. Pe bai hynny'n cynyddu i 5%, byddai, fel dywedodd y Prif Weinidog, yn dod â £27 miliwn ychwanegol y flwyddyn i Gymru. Rwy'n cofio siarad â meistri yng Nghaergrawnt yn y 1990au am sut i ddenu mwy o gyllid ar gyfer gwyddoniaeth ac ymchwil. Wrth wraidd yr ymdrech honno oedd sicrhau bod gennyh sylfaen wyddonol ac ymchwil gadarn mewn prifysgolion, a dyna'n union pam mae Llywodraeth Cymru yn iawn i sicrhau, ar gyfer y dyfodol, fod gennym lai o sefydliadau addysg yn y sector addysg uwch ond eu bod yn sefydliadau cryfach. Er mwyn gwireddu hynny, mae angen i ni gael mwy o ran ym mhrosesau adolygu gan gymheiriaid, ac mae angen sefydliadau o safon fyd-eang arnom sy'n gallu denu cyllid uchel ei werth a gwyddonwyr o safon fyd-eang, ac mae angen inni gael proffil llawer uwch o ran gwaith ymchwil gwyddonol ledled y byd.

O ran y gwyddorau bywyd, cafwyd dau gyhoeddiad pwysig yn ddiweddar i gynorthwyo gyda mynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn. Mae'r cyhoeddiad am bolisi gwyddoniaeth newydd Cymru yn cynnwys cronfa gwerth £50 miliwn i ddenu'r gwyddonwyr gorau i Gymru. Yn ogystal, bydd cronfa fuddsoddi newydd gwerth £100

tranche of £25 million of funding allocated by the Welsh Government to get it started.

Sir Chris Evans, the scientist who led the Government's review into science, has said that this fund could attract a further £200 million from the private sector and could be worth more than £1 billion over the next decade. It could truly help to reshape the way that we see Wales. That could pay huge dividends with regard to our economy. Despite a decline in biotech investment since 2008, \$161 billion-worth of stock in biotech companies has been sold in that time, with £58 billion invested in biotech ventures in big pharmaceutical companies. This is seriously big business. Big pharmaceutical, medical technology and healthcare industries are all developing products and radical breakthrough technologies at breakneck pace, carving out huge economic opportunities.

In this regard, it is important to learn lessons from abroad. Take California, for example, and Silicon Valley. With regard to Silicon Valley, which was, and possibly still is, at the forefront of information technology science, it has always been the case that it did not arrive at the point at which it is at today by accident. It developed very strong bonds with the University of California, Berkeley, Stanford University, and other educational institutions and businesses, to form networks of specialised skills. Similarly, in Baden Württemberg, there was a strong regional Government determined to ensure that there was an identity for the region, based on networks. Here, in the UK, Cambridge Science Park, set up by Trinity College, has an enormous scientific research base attached to the university.

That illustrates why the Welsh Government is right to focus on greater collaboration and skills training. Crucial to that will be putting in place the building blocks of a knowledge economy in developing the graduate base that we require to drive it forward. That begins at school, and last year a report by the Assembly's Enterprise and Business Committee highlighted that, in part, a lack of

miliwn yn cael ei chreu ar gyfer y sector gwyddorau bywyd yng Nghymru, gyda Llywodraeth Cymru yn rhoi £25 miliwn i'w dechrau.

Dywedodd Syr Chris Evans, y gwyddonydd a arweiniodd adolygiad y Llywodraeth i wyddoniaeth, y gallai'r gronfa ddenu £200 miliwn arall o'r sector preifat ac y gallai gynyddu i fod yn werth mwy na £1 biliwn dros y ddegawd nesaf. Gallai hynny wirioneddol helpu i newid y ffordd rydym yn gweld Cymru. Gallai fod o fudd enfawr i'n heconomi. Er gwaethaf gostyngiad mewn buddsoddi biotechnoleg ers 2008, mae gwerth \$161 biliwn o stoc mewn cwmnïau biotechnoleg wedi'i werthu ers yr adeg honno, a chafodd £58 biliwn ei fuddsoddi mewn mentrau biotechnoleg cwmnïau fferyllol mawr. Nid oes gwadu bod hwn yn fusnes mawr iawn. Mae'r diwydiannau mawr fferyllol, technoleg feddygol a gofal iechyd oll yn datblygu cynnyrch a thechnolegau arloesol a radical ar frys gwyllt gan greu cyfleoedd economaidd enfawr.

O ran hynny, mae'n bwysig dysgu gwersi o dramor. Ystyriwch California a'r Silicon Valley fel enghraifft. Silicon Valley a fu ar flaen y gad o ran gwyddoniaeth technoleg gwybodaeth, ac efallai fod hynny yn wir o hyd, ac nid ar ddamwain y digwyddodd hynny. Datblygwyd cysylltiadau cryf â phrifysgol California, Berkeley, prifysgol Stanford, sefydliadau addysgol eraill a busnesau, i ffurfio rhwydweithiau sgiliau arbenigol. Yn yr un modd, yn Baden Württemberg, roedd llywodraeth ranbarthol gref a oedd yn benderfynol o sicrhau hunaniaeth ar gyfer y rhanbarth, yn seiliedig ar rwydweithiau. Yma, yn y DU, mae gan Barc Gwyddoniaeth Caergrawnt, a sefydlwyd gan Goleg y Drindod, sylfaen ymchwil gwyddonol enfawr ynghlwm wrth y brifysgol.

Mae hynny'n dangos pam mae Llywodraeth Cymru yn iawn i ganolbwyntio ar sicrhau mwy o gydweithio a hyfforddiant sgiliau. Mae sefydlu economi sy'n seiliedig ar wybodaeth yn hanfodol o ran datblygu'r sylfaen o raddedigion sydd ei hangen i symud ymlaen. Mae hynny'n dechrau yn yr ysgol, ac amlygodd adroddiad gan Bwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad y llynedd bod y diffyg

high-quality specialist teachers was holding Wales back. I will return to that momentarily, but if we are to succeed it is important that we maximise our human capital, using our schools, colleges and universities as the engine room of the new economy.

The partnership between Glyndŵr University, Airbus, Deeside College and the Welsh Government is one example of the kind of collaboration that we need to see more of.

The Deputy Presiding Officer: Order. Conclude now, please.

Kenneth Skates: The Welsh Government, led by Carwyn Jones, has shown leadership in developing our science base in Wales, underpinning the development of the knowledge economy.

The Deputy Presiding Officer: Order. You must finish.

Antoinette Sandbach: The success of the sciences is essential to the future success of Wales and its economy. It is quite right that the Government's science strategy recognises the need to develop home-grown talent and to promote excellence in STEM subjects in schools. As 'Science for Wales' notes, the situation in Wales needs to be turned around urgently. Wales lags behind the other UK regions in science and mathematics, and fewer Welsh students are taking these subjects at A-level. In fact, the Royal Society's 'State of the Nation' report for 2011 said that only 4,008 students in Wales were taking core science A-levels, which is the lowest amount in the UK at 26.6%, in contrast to Scotland, which had a core science A-level uptake of 49.7%.

Wales risks being left behind by the rest of the UK. An appreciation of science and its application must be built into the DNA of our young people from an early age, which is why I cannot praise highly enough the work of the engineering education scheme in

athrawon arbenigol o ansawdd uchel yn rhannol gyfrifol am ddal Cymru yn ôl. Dychwelaf at hynny mewn ennyd, ond os ydym am lwyddo, mae'n bwysig ein bod yn gwneud y gorau o'n cyfalaf dynol, gan ddefnyddio ein hysgolion, colegau a phrifysgolion i yrru'r economi newydd.

Mae'r bartneriaeth rhwng Prifysgol Glyndŵr, Airbus, Coleg Glannau Dyfrdwy a Llywodraeth Cymru yn un enghraifft o'r math o gydweithio sydd ei angen arnom.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Dewch i ben yn awr, os gwelwch yn dda.

Kenneth Skates: Mae Llywodraeth Cymru, o dan arweiniad Carwyn Jones, wedi dangos arweiniad wrth ddatblygu sylfaen wyddonol yng Nghymru, sy'n sail i ddatblygiad yr economi wybodaeth.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae'n rhaid i chi orffen.

Antoinette Sandbach: Mae llwyddiant y gwyddorau yn hanfodol i lwyddiant Cymru a'i heconomi yn y dyfodol. Mae'n hollol gywir bod strategaeth wyddoniaeth y Llywodraeth yn cydnabod yr angen i ddatblygu talent yng Nghymru a hyrwyddo rhagoriaeth ym mhynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg yn yr ysgol. Fel mae 'Gwyddoniaeth i Gymru' yn nodi, rhaid gwyrdroi'r sefyllfa yng Nghymru ar frys. Mae Cymru yn llusgo ar ôl rhanbarthau eraill o'r DU o ran gwyddoniaeth a mathemateg, ac mae llai o fyfyrwyr yn astudio pynciau Safon Uwch. Nododd adroddiad y Gymdeithas Frenhinol ar gyflwr y genedl yn 2011 mai dim ond 4,008, neu 26.6%, o fyfyrwyr yng Nghymru a oedd yn astudio pynciau gwyddoniaeth craidd Safon Uwch, sef y nifer isaf yn y DU, o'i gymharu â'r Alban lle'r oedd 49.7% o fyfyrwyr yn astudio pynciau gwyddoniaeth craidd Safon Uwch.

Mae Cymru mewn perygl o gael ei gadael ar ôl gan weddill y DU. Rhaid sicrhau bod gwerthfawrogiad o wyddoniaeth a'r ffordd y mae'n cael ei roi ar waith yn rhan gynhenid o feddylfryd pobl ifanc o oedran cynnar. Dyna pam rwy'n canmol gwaith y cynllun addysg

Wales, and I regret that it is not mentioned in the document.

David Rees: I have figures from the Joint Council for Qualifications that indicate that the percentages of people taking A-levels in STEM subjects in Wales are not as bad as you are making out. There is only one subject where Wales is quite different from England, and that is further mathematics, which I know Keith Davies has talked about. With regard to the other subjects, we are higher in some and lower in others.

5.00 p.m.

Antoinette Sandbach: I am sorry, David, but the figures are quite clear in the Royal Society's report, and it has referenced its figures. The engineering education scheme in Wales does a first-rate job in introducing students to engineering and the sheer breadth of opportunities it offers, from design and testing through to manufacturing in partnership with local industry. Just this week, I attended an awards ceremony in north Wales and the enthusiasm and inventiveness of the children involved in the F1 and Bloodhound projects were extraordinary. As a result of one of those projects, Airbus has adopted the engineering solution that was created by the children who were given a problem to solve. We need more schemes like this to show young people the opportunities that can be offered by pursuing a career in science and to show that it is fun, challenging and rewarding. It is absolutely essential that Wales nurtures talent in the STEM subjects, if it wants to reap the benefits in terms of indigenous innovation and business development.

I welcome the decision to use £50 million to attract three world-class professors and their research teams to Wales. This could be regarded as a form of academic inward investment. As with all inward investment programmes, care must be taken to embed the new teams into the existing Welsh infrastructure, to use them to build relationships with other education providers and industry, and to develop research

peirianeg yng Nghymru i'r cymylau, ac yn gresynu nad yw wedi'i grybwyll yn y ddogfen hon.

David Rees: Mae gennyf ffigurau gan y Cydgyngor Cymwysterau sy'n dangos nad yw canrannau'r bobl sy'n astudio'r pynciau hynny ar gyfer Safon Uwch yng Nghymru mor wael ac yr ydych yn ei ddweud y maent. Dim ond mewn un pwnc y mae Cymru yn hollol wahanol i Loegr, sef mathemateg bellach, a gwn fod Keith Davies eisoes wedi siarad am hynny. O ran y pynciau eraill, rydym yn uwch mewn rhai ac yn is mewn eraill.

Antoinette Sandbach: Mae'n ddrwg gennyf, David, ond mae'r ffigurau yn eithaf clir yn adroddiad y Gymdeithas Frenhinol, ac mae'r gymdeithas wedi gwirio ei ffigurau. Mae'r cynllun addysg peirianeg yng Nghymru yn gwneud gwaith o'r radd flaenaf yn cyflwyno myfyrwyr i beirianeg a'r dewis enfawr o gyfleoedd y mae'n eu cynnig, o ddylunio a chynnal profion hyd at weithgynhyrchu mewn partneriaeth â diwydiant lleol. Dim ond yr wythnos hon, bŵm mewn seremoni wobrwyo yn y gogledd ac roedd brwdfrydedd a dyfeisgarwch y plant a gymerodd ran yn y prosiectau F1 a Bloodhound yn rhyfeddol. O ganlyniad i un o'r prosiectau hynny, mabwysiadodd Airbus ateb peirianyddol a grëwyd gan y plant y rhoddwyd problem iddynt ei datrys. Mae angen mwy o gynlluniau fel hyn i ddangos i bobl ifanc y cyfleoedd y gellir eu cynnig drwy ddilyn gyrfa mewn gwyddoniaeth a'i fod yn hwyl, yn heriol ac yn rhoi boddhad. Mae'n gwbl hanfodol bod Cymru yn meithrin talent yn y pynciau STEM, os yw'n dymuno elwa ar y manteision a ddaw yn sgîl arloesi a datblygu busnes cynhenid.

Rwyf yn croesawu'r penderfyniad i ddefnyddio £50 miliwn i ddenu tri athro o safon fyd-eang a'u timau ymchwil i Gymru. Gellid ystyried hyn fel math o fuddsoddiad academiaidd o'r tu allan. Fel gyda phob rhaglen fuddsoddi o'r tu allan, rhaid sicrhau bod y timau newydd yn cael eu sefydlu o fewn seilwaith presennol Cymru ac yn cael eu defnyddio i feithrin perthynas â darparwyr addysg eraill a diwydiant ac i ddatblygu

specialisms that have a positive effect on the university sector in Wales.

I would like to ask what work is being done to ensure that these teams are supported and integrated in such a way that they are not attracted by more lucrative offers elsewhere, as so often happens with world-class research teams. Using money to attract star talent into Wales can only ever be part of the picture; the main focus must be on nurturing and encouraging existing talent in Wales: the potential scientific stars of tomorrow who are already in our schools. This must start from an early age and the support and encouragement for STEM subjects must be sustained all the way through the education system if they are to offer a meaningful, long-term benefit to Wales.

David Rees: As the chair of the cross-party group on science and technology, I am pleased to speak in this debate on the science strategy of the Welsh Government, which I welcome. Over the last year in Wales, major decisions have been made on Government spending priorities as part of a wider move to deal with the vast budget cuts that we have had to endure in order to fulfil our ambition to build a stronger Welsh economy. These decisions will help to define what we value as a nation and the direction in which we want to head. I believe that the decision of this Government to invest in science and research is a critical part of that.

At the heart of the strategy, there are three grand challenge priority areas, which have already been identified by the First Minister. These build on areas in which Wales already has a track record of excellence and where the route from research to commercialisation is relatively clear. In addition, these three areas match well with the Engineering and Physical Sciences Research Council's shaping capability themes and with others such as the chemical sciences road map. Professor David Delpy, the chief executive of the EPSRC, at a recent meeting of the cross-party group, also highlighted these as key areas for future economic growth.

arbenigedd ymchwil sy'n cael effaith gadarnhaol ar y sector prifysgol yng Nghymru.

Hoffwn ofyn pa waith sy'n cael ei wneud i sicrhau bod y timau hyn yn cael eu cefnogi a'u hintegreiddio fel nad ydynt yn cael eu denu gan gynigion mwy proffidiol o fannau eraill, fel sy'n digwydd mor aml gyda thimau ymchwil o'r radd flaenaf. Dim ond rhan o'r darlun y gall defnyddio arian i ddenu doniau o'r radd flaenaf i Gymru fod; rhaid i'r prif ffocws fod ar feithrin ac annog talent sydd eisoes yng Nghymru: sêr gwyddonol posibl yfory sydd eisoes yn ein hysgolion. Rhaid i hyn ddechrau o oedran cynnar ac mae'n rhaid i'r cymorth a'r anogaeth ar gyfer pynciau STEM gael eu cynnal yr holl ffordd drwy'r system addysg os ydynt am gynnig budd ystyrlon, hirdymor i Gymru.

David Rees: Fel cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar wyddoniaeth a thechnoleg, rwyf yn falch o gael siarad yn y ddadl hon ar strategaeth wyddoniaeth Llywodraeth Cymru, yr wyf yn ei chroesawu. Dros y flwyddyn ddiwethaf yng Nghymru, gwnaed penderfyniadau mawr ar flaenoriaethau gwario'r Llywodraeth fel rhan o fwriad ehangach i ymdrin â'r toriadau helaeth yn y gyllideb y gorfu i ni eu dioddef er mwyn gwireddu ein huchelgais i adeiladu economi cryfach i Gymru. Bydd y penderfyniadau hyn yn helpu i ddiffinio'r hyn yr ydym yn ei werthfawrogi fel cenedl ac i ba gyfeiriad yr ydym am fynd iddo. Credaf fod penderfyniad y Llywodraeth hon i fuddsoddi mewn gwyddoniaeth ac ymchwil yn rhan hanfodol o hynny.

Wrth wraidd y strategaeth, mae tri maes blaenoriaeth o bwys, a nodwyd eisoes gan y Prif Weinidog. Mae'r rhain yn adeiladu ar feysydd lle mae gan Gymru eisoes hanes o ragoriaeth a lle mae'r llwybr rhwng ymchwil a masnacheiddio yn gymharol glir. Yn ogystal, mae'r tri maes yn cyd-fynd yn dda â themâu llunio galluogrwydd y Cyngor Ymchwil Peirianeg a'r Gwyddorau Ffisegol ac elfennau eraill fel y map ffordd gwyddorau cemegol. Amlygwyd y rhain gan yr Athro David Delpy, prif weithredwr y cyngor, mewn cyfarfod diweddar o'r grŵp trawsbleidiol, fel meysydd allweddol ar gyfer twf economaidd yn y dyfodol.

In my previous employment, I saw how businesses have benefited and grown as a result of the research undertaken in partnership with universities, proving its importance. In my constituency alone, we have many examples of this. Cambridge science park has been mentioned, but TWI is also based in Port Talbot and has undertaken research in advanced engineering and non-destructive testing technologies. The Sustainable Product Engineering Centre for Innovative Functional Industrial Coatings was mentioned in the document and this is also based in my constituency and is a world-leader in photovoltaic coating for rolled steel. There is also a renewable hydrogen centre at the University of Glamorgan, which is undertaking research into hydrogen fuel cells. These are all long-term investments and demonstrate how, in recent years, the Welsh Government, along with industrial partners, has funded leading-edge technologies—technologies that will provide sustainable jobs in years to come.

These also reflect the way in which our economic future is intrinsically linked to the country's research-intensive universities matching the best in the world, and I am pleased that the Government's growth strategy reflects this. Earlier this year, the Welsh Government hosted a key visit from UK Trade and Investment officers to highlight Welsh expertise in areas covering innovation, technology and science. This provided an excellent opportunity to showcase those facilities and the projects that are under way in Wales.

However, creating and keeping a talent pool of scientists is vital to this. This requires two approaches: the first to establish an expertise base now and the second to encourage more to take up STEM subjects. With regard to the former, the new initiative, Sêr Cymru, will facilitate an idea of sharing and networking between researchers. Greater collaboration will be crucial to future research funding for our universities and it is pleasing to see this improving. We should also provide links to

Yn fy swydd flaenorol, gwelais sut mae busnesau wedi cael budd ac wedi tyfu o ganlyniad i'r gwaith ymchwil a wnaed mewn partneriaeth â phrifysgolion, sy'n dangos ei bwysigrwydd. Yn fy etholaeth i yn unig, mae gennym nifer o enghreifftiau o hyn. Mae parc gwyddoniaeth Caergrawnt wedi cael ei grybwyll, ond mae TWI hefyd wedi ei leoli ym Mhort Talbot ac mae wedi ymgymryd â gwaith ymchwil i beirianeg uwch a thechnolegau profi annistrywiol. Cafodd y Ganolfan Peirianeg Cynnyrch Cynaliadwy ar gyfer Haenau Diwydiannol Swyddogaethol Arloesol ei chrybwyll yn y ddogfen ac mae hon hefyd wedi ei lleoli yn fy etholaeth ac yn arwain y byd o ran gorchudd ffotofoltäig ar gyfer dur wedi ei rollo. Mae canolfan hydrogen adnewyddadwy ym Mhrifysgol Morgannwg hefyd, sy'n cynnal gwaith ymchwil i gelloedd tanwydd hydrogen. Mae'r rhain i gyd yn fuddsoddiadau tymor hir ac maent yn dangos sut, yn y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â phartneriaid diwydiannol, wedi ariannu technolegau blaengar—technolegau a fydd yn darparu swyddi cynaliadwy yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r rhain hefyd yn adlewyrchu'r ffordd y mae ein dyfodol economaidd yn rhan annatod o'r ffaith bod prifysgolion ymchwil dwys yn cyfateb i'r rhai gorau yn y byd, ac rwyf yn falch bod strategaeth twf y Llywodraeth yn adlewyrchu hyn. Yn gynharach eleni, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymweliad allweddol gan swyddogion Masnach a Buddsoddi y DU i dynnu sylw at arbenigedd Cymreig mewn meysydd sy'n cwmpasu arloesi, technoleg a gwyddoniaeth. Rhoddodd hyn gyfle gwych i arddangos y cyfleusterau hynny a'r prosiectau sydd ar y gweill yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae creu a chadw cronfa ddawnus o wyddonwyr yn hanfodol i hyn. Mae hyn yn gofyn am ddau ddull gweithredu: y cyntaf i sefydlu sylfaen arbenigedd yn awr a'r ail i annog mwy o fyfyrwyr i ddilyn pynciau STEM. O ran y cyntaf, bydd y fenter newydd, Sêr Cymru, yn hwyluso'r syniad o rannu a rhwydweithio ymysg ymchwilwyr. Bydd mwy o gydweithredu yn hanfodol i ddenu cyllid ymchwil yn y dyfodol i'n prifysgolion ac mae'n braf gweld hyn yn

doctoral training centres, which are currently the main route for EPSRC studentships, as there are no science doctoral training centres in Wales. Therefore, I ask the First Minister and other Ministers to consider the issue as a matter of urgency. Alongside this, we must encourage industrialists—not business people necessarily—to sit on university boards and more students and post-doctorate students to spend time working in industry to help bridge the skills gap.

However, policies and funding need to be for the long term, covering decades not years. Although it is important to attract the stars of today, as Eluned Parrott mentioned, we must also look at the stars of tomorrow. The National Science Academy must not only develop future scientists from our young people—and adult learning has already been mentioned—but look at the lifelong learning aspects and re-skilling our existing workforce. Forty per cent of the Open University's students in Wales are studying STEM subjects, although it includes computing in this, which is technically not a STEM subject.

A report recently published by the Science Council revealed that 20% of the UK's workforce—5.8 million people—are dependent upon scientific skills to do their jobs, and this is projected to rise to 7.1 million people by 2030. Science, research and innovation are vital to this country's future economic growth. I would like us to remember that innovation is a journey, not a destination. A former president of the Royal Society, Sir Isaac Newton, said, 'If I have seen further, it is by standing on the shoulders of giants', and innovation in Wales must not be any different. We must create an environment in which each discovery can build on the last and where we can take up a position as a world leader in science and innovation, and we must be patient. It is clear that the Welsh Government understands the need for long-term investment in science, and I welcome the strategy.

Suzy Davies: Thank you for the opportunity

gwella. Dylem hefyd ddarparu cysylltiadau i ganolfannau hyfforddiant doethurol, sef y prif lwybr ar hyn o bryd ar gyfer ysgoloriaethau ymchwil EPSRC, gan nad oes unrhyw ganolfannau hyfforddiant doethurol ar gyfer gwyddoniaeth yng Nghymru. Felly, gofynnaf i'r Prif Weinidog a Gweinidogion eraill ystyried y mater ar fyrder. Ochr yn ochr â hyn, rhaid i ni annog diwydiannwyr—nid pobl fusnes o reidrwydd—i eistedd ar fyrddau prifysgolion ac annog mwy o fyfyrwyr a myfyrwyr ôl-ddoethurol i dreulio amser yn gweithio yn y diwydiant i helpu i bontio'r bwlch sgiliau.

Fodd bynnag, mae angen i bolisiau a chyllid fod ar gael ar gyfer y tymor hir, ac i gwmpasu degawdau nid blynyddoedd. Er ei bod yn bwysig denu sêr heddiw, fel y dywedodd Eluned Parrott, mae'n rhaid inni hefyd edrych ar sêr yfory. Rhaid i'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol nid yn unig ddatblygu gwyddonwyr y dyfodol o blith ein pobl ifanc—a soniwyd am ddysgu oedolion eisoes—ond hefyd edrych ar yr agweddau dysgu gydol oes ac ail-sgilio ein gweithlu presennol. Mae 40% o fyfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru yn astudio pynciau STEM, er ei bod yn cynnwys cyfrifiaduro yn hyn, nad yw'n bwnc STEM yn dechnegol.

Datgelodd adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Cyngor Gwyddoniaeth bod 20% o weithlu'r DU—5.8 miliwn o bobl—yn dibynnu ar sgiliau gwyddonol i wneud eu gwaith, a rhagwelir y bydd hyn yn tyfu i 7.1 miliwn o bobl erbyn 2030. Mae gwyddoniaeth, ymchwil ac arloesedd yn hanfodol i dwf economaidd y wlad hon yn y dyfodol. Hoffwn inni gofio mai siwrnai yw arloesi, nid cyrchfan. Fel y dywedodd cynlywydd y Gymdeithas Frenhinol, Syr Isaac Newton, 'Os gwelais yn bellach, gwneuthum hynny yn sefyll ar ysgwyddau cewri', ac ni ddylai arloesedd yng Nghymru fod yn wahanol. Rhaid inni greu amgylchedd lle gall pob darganfyddiad adeiladu ar yr un diwethaf, a lle gallwn fod yn arweinydd bydeang mewn gwyddoniaeth ac arloesi, a rhaid inni fod yn amyneddgar. Mae'n amlwg bod Llywodraeth Cymru yn deall yr angen i fuddsoddi mewn gwyddoniaeth yn yr hirdymor, a chroesawaf y strategaeth.

Suzy Davies: Diolch am y cyfle i gymryd

to take part in this debate. Despite this being the third Government strategy in six years to talk about the essential role of science and innovation in reviving our economic fortunes, I am pleased to see that the ambition is alive and well. Although the strategy is short on detail as to how it will be addressed, I welcome the acceptance that the training and recruitment of STEM teachers is something that needs our attention. In global rankings in science, technology, engineering and mathematics education, we are still well behind countries such as Singapore, Finland, Switzerland and Canada. Only 23% of new degrees are in science and engineering, and Wales is significantly behind the UK average. However, I was speaking to a biology teacher yesterday, who said that the STEM team working in her school was very enthusiastic, with great ideas for more exciting practical work in the classroom and for setting up science clubs. However, the application process for getting the support is long-winded, time-consuming and paperwork-heavy. With regard to the STEM support, she said that the extra bits were the best bits but that she just did not have the time.

This strategy does nothing to address that very practical restraint on development. She also said that, although there is an issue about the depth of knowledge of some science GCSE students and that this can affect the numbers taking A-levels, good teaching can bring children in Welsh schools up to the standards to get on to the best university courses. Although it is disappointing that we have only one Welsh university in the Russell Group and there is concern about why our claim on the research council budget is only 3.3%, there is also a genuine reason for raising our hopes as well as our sights.

During his visit to Russia last September, the Prime Minister said that world-leading British universities, including Cambridge, Oxford, Imperial, and Glyndŵr in Wales, would be working with Skolkovo, a new innovation city in Russia, on lasers, optics and nuclear energy efficiency. There are two important universities in my region, one of

rhan yn y ddadl hon. Er gwaethaf y ffaith mai hon yw trydedd strategaeth y Llywodraeth mewn chwe blynedd i sôn am rôl hanfodol gwyddoniaeth ac arloesi o ran adfywio ein ffawd economaidd, rwyf yn falch o weld bod yr uchelgais yn fyw ac yn iach. Er bod y strategaeth yn brin o fanylion ynghylch sut y bydd yn cael ei ystyried, croesawaf y ffaith y derbynnir bod hyfforddi a recriwtio athrawon STEM yn rhywbeth sydd angen ein sylw. O ran ein safle byd-eang mewn perthynas ag addysg gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg, rydym yn dal ymhell y tu ôl i wledydd fel Singapore, y Ffindir, y Swistir a Chanada. Dim ond 23% o raddau newydd sydd mewn gwyddoniaeth a pheirianeg, ac mae Cymru gryn bellter y tu ôl i gyfartaledd y DU. Fodd bynnag, roeddwn yn siarad ddoe ag athrawes bioleg, a dywedodd fod y tîm STEM sy'n gweithio yn ei hysgol yn frwdfrydig iawn, gyda syniadau gwych am fwy o waith ymarferol cyffrous yn yr ystafell ddosbarth ac ar gyfer sefydlu clybiau gwyddoniaeth. Fodd bynnag, mae'r broses ymgeisio i gael y cymorth yn hirwyntog, llafurus a beichus o ran gwaith papur. O ran y cymorth STEM, dywedodd mai'r darnau ychwanegol oedd y darnau gorau ond nad oedd ganddi'r amser i ymdrin â'r rheini.

Nid yw'r strategaeth hon yn gwneud dim i fynd i'r afael â'r cyfyngiad ymarferol iawn hwnnw ar ddatblygiad. Dywedodd hefyd, er bod problem ynghylch dyfnder gwybodaeth rhai myfyrwyr gwyddoniaeth TGAU a bod hyn yn gallu effeithio ar y niferoedd sy'n astudio Safon Uwch, gall addysgu da sicrhau bod plant yn ysgolion Cymru yn cyrraedd y safonau i gael eu derbyn ar y cyrsiau prifysgol gorau. Er ei bod yn siomedig mai dim ond un brifysgol yng Nghymru sydd yn Grŵp Russell a bod pryder ynghylch pam mai dim ond 3.3% o gyllideb y cyngor ymchwil rydym yn ei gael, mae rheswm dilys hefyd dros godi ein gobeithion yn ogystal â'n golygon.

Yn ystod ei ymweliad â Rwsia fis Medi diwethaf, dywedodd y Prif Weinidog y byddai prifysgolion Prydeinig sy'n arwain y byd, gan gynnwys Caergrawnt, Rhydychen, Imperial, a Glyndŵr yng Nghymru, yn gweithio gyda Skolkovo, dinas arloesi newydd yn Rwsia, ar laserau, opteg ac effeithlonrwydd ynni niwclear. Mae dwy

which the First Minister referred to, which successfully demonstrate my next two points. However, I would like to use the example of Prifysgol Glyndŵr, as I visited it just last week.

The first point is this: with its advanced materials training and development centre, and provision such as its honours engineering course in performance car technology, Glyndŵr is ideally placed to take advantage of one of this strategy's grand challenges—one of three described in the document. However, I wonder whether Glyndŵr's centre for creative industries might not have inspired the idea of a fourth grand challenge. In this new centre for innovation, I saw artistic talent, maths and engineering come together to produce new and commercial processes, backed up with training in marketing skills. Creative industries throughout Wales, including in my region, require serious scientific input and should not be overlooked in this strategy. Last week—or perhaps last month, in fact—the American industrial giant GE published the results of its global innovation barometer. It was a survey of 2,800 senior business executives in 22 countries. It found that, although research and development are clearly important, nearly three quarters of businesses agree that innovation will not be driven by the scientific alone, but also by people's creativity. I hope that the Sêr Cymru programme will reflect this.

For universities, there must be an even greater interaction with businesses, especially in terms of having a more open approach to innovation and commercialising knowledge, rather than hoarding intellectual property. Glyndŵr demonstrates that second point of greater openness and interaction with business admirably, from the small businesses in the community to Jaguar and Airbus, as Ken Skates said. However, the Milken Institute survey indicated that, while business partnerships with universities are sought by both parties, businesses' willingness to invest is still heavily

brifysgol bwysig yn fy rhanbarth, a chyfeiriodd y Prif Weinidog at un ohonynt, a wnaeth arddangos fy nau bwynt nesaf yn llwyddiannus. Fodd bynnag, hoffwn ddefnyddio Prifysgol Glyndŵr fel enghraifft, gan i mi ymweld â hi dim ond yr wythnos diwethaf.

Y pwynt cyntaf yw hwn: gyda'i hyfforddiant a'i chanolfan datblygu deunyddiau flaengar, a darpariaeth fel ei chwrs anrhydedd peirianeg mewn technoleg ceir rasio, mae Glyndŵr mewn lle delfrydol i fanteisio ar un o'r heriau mwyaf yn y strategaeth hon—un o'r tair a ddisgrifir yn y ddogfen. Fodd bynnag, tybed a fyddai canolfan Glyndŵr ar gyfer y diwydiannau creadigol wedi ysbrydoli'r syniad o bedwaredd her fawreddog. Yn y ganolfan newydd ar gyfer arloesi, gwelais dalent artistig, mathemateg a pheirianeg yn dod at ei gilydd i gynhyrchu prosesau newydd a masnachol, a gefnogir gan hyfforddiant mewn sgiliau marchnata. Mae diwydiannau creadigol ledled Cymru, gan gynnwys y rhai yn fy rhanbarth, angen mewnbwn gwyddonol sylweddol ac ni ddylid eu hanwybyddu yn y strategaeth hon. Yr wythnos diwethaf—neu efallai'r mis diwethaf, mewn gwirionedd—cyhoeddodd y cawr diwydiannol Americanaidd GE ganlyniadau ei faromedr arloesedd byd-eang. Dyma arolwg o 2,800 o uwch weithredwyr busnes mewn 22 o wledydd. Canfu, er bod ymchwil a datblygu yn amlwg yn bwysig, fod bron i dri chwarter o fusnesau yn cytuno na fydd arloesedd yn cael ei yrru gan wyddoniaeth yn unig, ond hefyd drwy greadigrwydd pobl. Rwyf yn gobeithio y bydd y rhaglen Sêr Cymru yn adlewyrchu hyn.

Rhaid i brifysgolion ryngweithio mwy fyth â busnesau, yn enwedig o ran edrych yn fwy agored ar arloesi a masnacheiddio gwybodaeth, yn hytrach na chasglu eiddo deallusol. Mae Glyndŵr yn arddangos yr ail bwynt o ran bod yn fwy agored ac o ryngweithio mwy â busnesau yn gampus, o fusnesau bach yn y gymuned i Jaguar ac Airbus, fel y dywedodd Ken Skates. Fodd bynnag, fel y nododd arolwg gan Sefydliad Milken, er bod partneriaethau busnes gyda phrifysgolion yn cael eu ceisio gan y ddwy ochr, mae parodrwydd busnesau i fuddsoddi yn dal o dan ddylanwad trwm agwedd y

influenced by Government's approach to innovation. Companies indicated that their internal investments in innovation, from research and development budgets to the pursuit of new products or business models, are at risk when there is a perception of a negative shift in Government policies that support innovation. Countries where innovation policies are perceived as more competitive actually deliver higher growth. For the Welsh Government, three strategies on, there is a vital lesson in communicating its innovation and business enterprise policies effectively and coherently to the business community—something that has been sadly missing during the last few years. It is all the more important when you know that the venture capital market in the United Kingdom is one of the strongest in the world, second only to the United States. With the credit easing announced today, the Welsh Government needs to be actively chasing the money and cheering about competitiveness if this strategy is to work.

Christine Chapman: I very much welcome the clear focus and direction outlined in 'Science for Wales', because if we are to realise our economic potential, we need to be bold and innovative. I also very much welcome the recent announcement by the Government of its £100 million Welsh life sciences fund, which powerfully demonstrates the Government's commitment to achieving this agenda.

We know that there is a proven link between science and economic growth and we know the benefits of collaborative working among scientists, institutions and employers; it broadens the gene pool and encourages excellence and the creation of an innovative and entrepreneurial culture. I am glad that elements of this are shown in this report. I also agree with my colleagues Ken Skates and David Rees, and others, on the points that they made earlier.

I want to make two responses. The document refers to science and engineering needing top-class people and I am sure that all of us would agree with that. However, the statistics show that, although there has been a percentage increase in the number of young

Llywodraeth tuag at arloesi. Dywedodd cwmnïau fod eu buddsoddiadau mewnol mewn arloesedd, o gyllidebau ymchwil a datblygu i fynd ar drywydd cynnyrch newydd neu fodelau busnes, mewn perygl pan dybir bod polisiau'r Llywodraeth yn newid i fod yn rhai negyddol o ran cefnogi'r arloesedd hwnnw. Mae gwledydd lle tybir bod polisiau arloesi yn fwy cystadleuol yn sicrhau mwy o dwf mewn gwirionedd. I Lywodraeth Cymru, dair strategaeth yn ddiweddarach, mae gwers hanfodol o ran cyfathrebu ei pholisiau arloesi a menter busnes mewn modd effeithiol a chydlynol i'r gymuned fusnes—rhywbeth na chafwyd yn anffodus yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'n bwysicach fyth pan wyddoch mai marchnad fenter gyfalaf y Deyrnas Unedig yw un o'r rhai cryfaf yn y byd, yn ail yn unig i'r Unol Daleithiau. Gyda'r bwriad i ddileu credyd a gyhoeddwyd heddiw, mae angen i Lywodraeth Cymru fynd ar drywydd yr arian a chlochdar am gystadleurwydd os yw'r strategaeth hon i weithio.

Christine Chapman: Rwyf yn croesawu'n fawr y ffocws a'r cyfeiriad clir a amlinellir yn 'Gwyddoniaeth i Gymru', oherwydd os ydym am wireddu ein potensial economaidd, mae angen inni fod yn feiddgar ac arloesol. Rwyf hefyd yn croesawu'n fawr gyhoeddiad diweddar y Llywodraeth y bydd yn darparu £100 miliwn at gronfa gwyddorau bywyd Cymru, sy'n dangos yn rymus ymrwymiad y Llywodraeth i gyflawni'r agenda hon.

Gwyddom fod cysylltiad wedi ei brofi rhwng gwyddoniaeth a thwf economaidd a gwyddom am fanteision cydweithio rhwng gwyddonwyr, sefydliadau a chyflogwyr; mae'n cynyddu nifer yr arbenigwyr ac yn annog rhagoriaeth a chreu diwylliant arloesol ac entrepreneuriaidd. Rwyf yn falch bod elfennau o hyn yn cael eu dangos yn yr adroddiad hwn. Rwyf hefyd yn cytuno â'm cyd-Aelodau Ken Skates a David Rees, ac eraill, ar y pwyntiau a wnaethant yn gynharach.

Rwyf am wneud dau ymateb. Mae'r ddogfen yn cyfeirio at y ffaith bod gwyddoniaeth a pheirianneg angen pobl o'r radd flaenaf ac rwyf yn siŵr y byddem i gyd yn cytuno â hynny. Fodd bynnag, mae'r ystadegau yn dangos, er y bu cynnydd canrannol yn nifer y

women taking STEM subjects, it is still lower than the number of men. For engineering, the number of women applicants is as low as 13%. Although I hear my colleague Julie Morgan celebrating the success of her constituents, which is absolutely great, I think all of us would agree that progress is still too slow on this. We know that the picture is worse in terms of scientific careers. Again, we talk about education, but we need to look at the industry itself because, excluding health sciences, women make up just over 15% of scientific professionals. We also know that fewer than 10% of full-time professors are women—I am sorry, but I do not have the statistics for the number of part-time professors.

I am pleased that the document refers to this as an issue and I certainly welcome the First Minister's comments that this is something that the Welsh Government will take on board as a matter of importance. Bear in mind that if we do not tackle this disparity, we will be fishing from a very small pool of talent and that is something that should concern us. I would ask that we are vigilant regarding this. As someone who has been very much involved in careers for girls and young women over many years, I can look back and say that progress has been far too slow. We need to speed up the process if we are to broaden the pool of talent. Again, I ask for vigilance.

On my second point, the First Minister will know from the Enterprise and Learning Committee's inquiry into the STEM agenda in the previous Assembly that there were some real concerns about learners being put off at an early stage, for a variety of reasons. Again, I am pleased that the report has picked this up. One teacher told me that many initiatives seek to promote STEM subjects as one-offs, and one-offs are okay, but they are not sustainable. Often, they leave the learner having had a fun day out, but when they come back to school and go into the laboratory, it is not possible to replicate that every day, all day. These are the practical difficulties that we sometimes face. There is a challenge here for science teaching, in

merched ifanc sy'n dilyn pynciau STEM, mae'n dal yn is na'r nifer o ddynion. Ar gyfer peirianeg, mae nifer yr ymgeiswyr benywaidd mor isel â 13%. Er fy mod yn clywed fy nghyd-Aelod Julie Morgan yn dathlu llwyddiant ei hetholwyr, sy'n rhagorol, tybiaf y byddai pob un ohonom yn cytuno bod y cynnydd yn dal yn rhy araf ar hyn. Gwyddom fod y darlun yn waeth o ran gyrfaeodd gwyddonol. Unwaith eto, rydym yn sôn am addysg, ond mae angen inni edrych ar y diwydiant ei hun oherwydd, ac eithrio'r gwyddorau iechyd, ychydig dros 15% o fenywod sy'n weithwyr gwyddonol proffesiynol. Gwyddom hefyd fod llai na 10% o athrawon llawn amser mewn colegau yn fenywod—ymddiheuraf nad oes gennyf yr ystadegau ar gyfer nifer yr athrawon rhan amser mewn colegau.

Rwyf yn falch bod y ddogfen yn cyfeirio at hyn fel problem ac rwyf yn sicr yn croesawu sylwadau'r Prif Weinidog fod hyn yn rhywbeth y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru roi sylw iddo fel mater pwysig. Cofiwch, os nad ydym yn mynd i'r afael â'r gwahaniaeth hwn, byddwn yn pysgota o gronfa fach iawn o dalent ac mae hynny'n rhywbeth a ddylai ein pryderu. Byddwn yn gofyn inni fod yn wylidwrus am hyn. Fel rhywun a fu'n chwarae rhan mewn gyrfaeodd i ferched a menywod ifanc dros nifer o flynyddoedd, gallaf edrych yn ôl a dweud y bu'r cynnydd yn llawer rhy araf. Mae angen i ni gyflymu'r broses os ydym am ehangu'r gronfa o dalent. Unwaith eto, gofynnaf inni fod yn wylidwrus.

Ar fy ail bwynt, bydd y Prif Weinidog yn gwybod o ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Dysgu i'r agenda STEM yn y Cynulliad blaenorol fod rhai pryderon gwirioneddol ynghylch y ffaith bod dysgwyr yn diystyru pynciau STEM yn gynnar, am amryw o resymau. Eto, rwyf yn falch bod yr adroddiad wedi nodi hyn. Dywedodd un athrawes wrthyf fod nifer o fentrau sy'n ceisio hyrwyddo pynciau STEM gan ddefnyddio digwyddiadau unigol, ac er bod y rhain yn iawn, nid ydynt yn gynaliadwy. Yn aml, mae'n golygu bod y dysgwr wedi cael diwrnod o hwyl allan, ond pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol ac yn mynd i mewn i'r labordy, nid yw'n bosibl ailadrodd hynny drwy'r dydd, bob dydd. Dyma'r anawsterau

making sure that young people are engaged as much as possible. I am pleased that this is picked up in the report, but if we are to ensure steady improvement, we cannot afford not to monitor this. Therefore, I ask the First Minister that we regularly monitor progress in the future.

ymarferol yr ydym yn eu hwynebu weithiau. Mae her yma i'r gwaith o addysgu gwyddoniaeth, o ran sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cynnwys gymaint ag y bo modd. Rwy'n falch bod hyn yn cael ei grybwyll yn yr adroddiad, ond os ydym am sicrhau gwelliant cyson, ni allwn fforddio peidio â monitro hyn. Felly, gofynnaf i'r Prif Weinidog sicrhau ein bod yn monitro cynnydd yn y dyfodol yn rheolaidd.

5.15 p.m.

Janet Finch-Saunders: I have been looking forward to contributing to this important debate. As the chief scientific adviser, Professor John Harries, admits in the introduction to this document, it is true that the Welsh Government needs to up its game. The question is whether this report actually does that. Mention has been made of the remarkable similarities to the 2006 science policy agenda and of the very little progress on that policy and strategy. I agree with Professor Harries that, by taking action, we can use a stronger science base to support a better economic future for Wales. Yet, two of the three grand challenge priority areas to be supported by Sêr Cymru were identified six years ago as areas on which a science policy focused on innovation should concentrate.

Janet Finch-Saunders: Rwyf wedi bod yn edrych ymlaen at gyfrannu at y ddadl bwysig hon. Fel y mae'r Athro John Harries, y prif gynghorydd gwyddonol, yn cyfaddef yn y cyflwyniad i'r ddogfen hon, mae'n wir fod angen i Lywodraeth Cymru wella ei pherfformiad. Y cwestiwn yw a yw'r adroddiad hwn yn gwneud hynny mewn gwirionedd. Cyfeiriwyd at y tebygrwydd anhygoel i agenda polisi gwyddoniaeth 2006 a'r diffyg cynnydd o ran y polisi hwnnw a'r strategaeth. Cytunaf â'r Athro Harries y gallwn, drwy weithredu, ddefnyddio sail wyddoniaeth gryfach i gefnogi gwell dyfodol economaidd i Gymru. Eto i gyd, cafodd dau o dri maes blaenoriaeth yr heriau mawr a fydd yn cael eu cefnogi gan Sêr Cymru eu nodi chwe blynedd yn ôl yn feysydd y dylai polisi gwyddoniaeth sy'n rhoi pwysau ar arloesedd ganolbwyntio arnynt.

Welsh business enterprise research and development investment increased by only £1 million between 2008 and 2010, and accounts for just 1.5% of the UK total. In December, the UK Government launched the innovation and research strategy for growth, which outlined plans for investment in research, innovation and commercialisation. It also included investment of £75 million over three years, focused solely on small and medium-sized enterprises. Additionally, as outlined in our amendment today, businesses in Wales should be encouraged to access funding from the EU framework programme for this purpose. This agenda acknowledges that a strong advanced industrial sector depends critically on a science base and recognises the vital links between the research and science skills base and the processes of innovation, development and commercialisation that transform scientific output into economic

Dim ond £1 filiwn y cynyddodd buddsoddiadau ymchwil a datblygu mentrau busnes Cymru rhwng 2008 a 2010, ac nid yw ond 1.5% o gyfanswm y DU. Ym mis Rhagfyr, lansiodd Llywodraeth y DU y strategaeth arloesedd ac ymchwil ar gyfer twf, a oedd yn amlinellu cynlluniau ar gyfer buddsoddi mewn ymchwil, arloesedd a masnacheiddio. Roedd hefyd yn cynnwys buddsoddiad o £75 miliwn dros dair blynedd, a oedd yn canolbwyntio'n llwyr ar fusnesau bach a chanolig. Yn ogystal, fel yr amlinellir yn ein gwelliant heddiw, dylid annog busnesau yng Nghymru i gael arian o raglen fframwaith yr UE i'r diben hwn. Mae'r agenda hon yn cydnabod bod sector diwydiannol uwch cryf yn dibynnu'n llwyr ar sail wyddoniaeth ac yn cydnabod y cysylltiadau hanfodol rhwng yr ymchwil a'r sail sgiliau gwyddoniaeth a'r prosesau arloesedd, datblygu a masnacheiddio sy'n

advantages for Wales.

